

B. G. D. W. E. S.

DYDD-LYFR  
PYTHEFNOS  
NEU  
Y DDAWNS  
ANGAU

W. AMBROSE BEBB.

# Y DAITH

Mesur Mawr  
Graddfa Eryrysheadol 1:3,000,000



#### DIOLCHIADAU.

---

Dymunaf ddiolch i Miss GRACE ROBERTS, un o'n myfyrwyr, am fod mor garedig â gwneud y *map* ar fyr rybudd. Y mae fy nyled a'm diolch i'r CYHOEDDWR yn llawer mwy nag arfer, am iddo, ar gyfnod o ryfel, ymgymryd yn ebrwydd â'r cyfrifoldeb o gyhoeddi llyfr Cymraeg, a *hynny ar ei gost ei hun*. Anodd imi ddiolch yn ddigonol iddo.

W. A. BEBB.

# Dydd-lyfr Pythefnos neu Y Ddawns Angau gan

W. Ambrose Bebb, M.A., Bangor

*Cyhoeddwr:*  
Sackville Printing Works (Richard Thomas), Bangor.

1939

Cyflwynir y Gyfrol fechan hon  
i'r Llenor a'r Llydawr mawr  
LOEÏZ HERRIEU.

## DYDD-LYFR PYTHEFNOS

(Dydd Sul, 20 Awst, 1939 hyd Ddydd Sul, 3 Medi, 1939)

NEU

Y DDAWNS ANGAU.

### *RHAGAIR.*

Yr oeddwn ar fin gorffen llyfr ar Lydaw, ac yn bwriadu treulio pythefnos yno ddiwedd Awst a dechrau Medi, er mwyn cywiro argraffiadau o leoedd a phersonau a mudiadau. Gwneuthum y daith, er y bu'n rhaid imi ei thorri'n fyr tua'r diwedd; ac yn ystod yr amser, daeth tro disymwth ar y digwyddiadau a fu'n hongian eu bygythiadau dros Ewrop ers misoedd...a blynyddoedd. O ganlyniad, gwelais a chlywais bethau nad oedd ganddynt fawr ddim i wneud â'r amcan cyntaf a oedd gennyf mewn golwg. Cedwais nodiadau gweddol fanwl o'm profiad ar hyd y pythefnos; ac wedi dyfod adre, a chyn agor o'r Coleg, penderfynais roi peth trefn arnynt. Felly, dyna ydyw'r llyfr hwn, cofnodion pythefnos—dyddiadur wedi ei gadw ar y pryd, a'i ymhelaethu beth yma a thraw; dydd-lyfr yn ceisio rhoi ar bapur ryw gymaint o adlais cynyrfiadau mawr a phell yn cyrraedd hyd drefi a phentrefi, cartrefi a dinasoedd, yn Llydaw... ac yn Ffrainc; ac fel dydd-lyfr, bwriedir iddo awgrymu'r cyflymder a'r cyfnewid, y gobeithion a'r siomedigaethau, gyda rhyw gymaint o'r sydynrwydd oediog a berthynai i'r digwyddiadau eu hunain...heb ymgais i fod yn llenyddol, ond i'r graddau y mae bod yn gywir yn gallu bod i ryw fesur yn llenyddol hefyd.

*Nos Wener, Medi 15, 1939.*

BANGOR.



*Bore Dydd Sul, 20 Awst, 1939.*

Hanner-awr-wedi-pump y bore, cyrraedd Paris ar ôl teithio drwy'r nos o Lundain, a'r dydd cynt o Fangor. Ar y rhan olaf o'r daith, darllen ysgrif faith gan Ffrancwr, yn "*Candide*," ar y sefyllfa tua Dantzig. Nid oes ond un casgliad i'w dynnu oddi wrthi: yr Ellmyn yn feistriaid ym mhob cylch o fywyd, a'r Pwyliaid yn gorfod eu goddef heb fedru dim mwy na gwingo a disgwyl, disgwyl a gwingo. Am ba hyd y pery hyn? A oes gennyf fythefnos...cyn y daw...Rhyfel?

\*\*

Y bore'n hyfryd, yr haul a thrigolion Paris wedi codi gyda'i gilydd. Mynd a dŷfod o fŵth papurau newydd i *café*. Pawb â'i bapur cynnar. Pawb yn mynd i'w ffordd ac i'w waith, a phob un â byd o gyfrinachau ganddo. Tua'r *café* nesaf â mi, ar ôl prynu dau neu dri o bapurau. Pryd bach campus. Cynnau sigaret, a mwynhau'r olygfa ar fywyd y ddinas, newydd ei deffro ar fore Sul. Agor y papurau—dim newyddion. Tipyn o helynt tua Dantzig—yr un fath ag er ys misoedd. Dim *newydd*. Tynnu penrhewm â gwas y *café*:—

—“Sut mae pethau ym Mharis?”

—“Fel arfer; ychydig bach yn ddistawach... pawb wedi mynd ar eu gwyliau.”

—“A llai o waith i chwithau?”...“Efallai... ac efallai nage!”

—“Llawer o estroniaid yma?”

—“Dim cymaint â hynny. Rhai...tipyn o Americanaid...a Saeson...llai nag arfer.”

—“Sut dywydd eleni?”

—“Lled dda...nid cystal ag arfer...tipyn o law ym mis Gorffennaf. Braff iawn, iawn, byth er hynny.”

\*\*

Darllen Maurras yn yr *Action Française*, am y tro cyntaf er mis Medi diwethaf. Caf ei ddarllen bob dydd yn awr...un o'r pethau difyr i edrych ymlaen atynt bob bore o'r newydd. Nid yw gwyliau'n gyfan yn Ffrainc heb ddarllen Maurras bob dydd!

\*\*

Gadael y *café* a mynd ar draws Paris tua'r *Sorbonne*, a chymryd ystafell yno—yn fy hen ardal. Allan eto...i'r *Jardin du Luxembourg*. Yr un mor odidog ag erioed, a haul Awst yn ei goreuro. Oedi...aros...eistedd. Mor dawel, mor berffaith! Codi...cerdded...a mynd tua gorsaf *Montparnasse* i godi tocyn tua Llydaw. Holi a chroes-holi, ateb a chroes-ateb. Nis caf hyd yfory,...ac ni allaf gychwyn am Lydaw hyd ddydd Mawrth.

\*\*

Cerdded a cherdded...*Rue de Rennes*. *Boulevard Raspail*, *Rue de Vaugirard*...*Boulevard St. Michel*.

Eistedd ar y bont, *le Pont au Change*, a rhyfeddu at y *Notre Dame*...am hir. Ymlaen i gerdded... heibio'r *Louvre*...at yr *Opéra*. Gwir a ddywedodd y garcon heddiw'r bore : y mae Paris yn hynod o wâg. Pawb ar eu gwyliau—ac estroniaid o lawer cenedl a welir o hyd, o hyd...yn y *Boulevard des Italiens*, o flaen y *Madeleine*—ym mhobman.

Troi yn fy ôl. Blino cerdded...mynd i mewn i Eglwys *St. Germain l'Auxerrois*. Eglwys ryfedd—*bizarre*—ac amryw wrth eu defosiwn ynddi.

Allan, a cherdded gyda glan yr afon, tan y coed mawr, at y *Place Michelet*. Croesi'r afon, heibio'r hen garchar—y *Conciergerie*—heibio'r gem pur, y *Sainte Chapelle* ac yn ôl i'r *Boulevard St. Michel*. Swpera yno, a dringo at y *café* ar y gongl rhwng y *Rue Soufflot* a'r *Boulevard St. Michel*, am gwpanaid o goffi. Yr un bwrlwm bywyd ag erioed, er bod miloedd ar eu gwyliau. I'r gwely, am y tro cyntaf ers deuddydd.

\*\*\*

*Dydd Llun, Awst 21.*

Treulio'r bore bron i gyd yn y siopau llyfrau. Llawnder ohonynt, a'u henwau a'u llythrennau disglair yn estyn allan fel gwe o hudoliaeth melyn amdanaf. Cryndod o lawenydd wrth eu teimlo a'u hagog...y llyfrau diweddaraf a gyhoeddwyd ers blwyddyn :—*Chefs*...gan Henri Massis ; *Histoire d'une histoire* gan D. Halevy ; *Mes Idées Esthétiques* gan Leon Daudet ; *Introduction à la Poésie Française* gan Thierry Maulnier ; *Vingt Ans D'Europe* gan Charles D'Ydewalle ; *Vues sur l'Europe* gan Andre Suarèz ; *Pages Choisies*, wedi eu tynnu o weithiau Peguy, Sant Thomas D'Aquin, &c....a llu o lyfrau ar yr Oesoedd Canol, gan Pirenne, Bloch, Gilson ac eraill...Sut mae dewis?...Bodloni ar ryw ddeg neu ddwsin.

\*\*\*

Gadael y siopau o'r diwedd. I'r *Jardin du Luxembourg* unwaith eto—rhyfeddodau blodau, dŵr yn disgyn ar lynnoedd, coed yn rhuddo min eu daill yn y gwres, a haul poeth yn troi'r cyfan yn wledd i lygad a chlust.

I fyny at y *Panthéon*, ac ymlaen at Eglwys *St. Etienne du Mont*, i roi un cip eto ar ei *jubé*, ei sgrin gelfydd ryfeddol.

Ciniawa yn y *rue Soufflot*, a dyfod cafod wyllt o law taranau, gan olchi'r heolydd a'r toau a wynebau plasau hen ac ifanc. Ail ddarllen y papurau—dim o bwys.

I'r *Gare Montparnasse*, i sicrhau fy nhocyn ar gyfer y daith drwy Lydaw. Talu 329 o ffranciau. Mor rhad! Diweddu'r dydd yn y siopau llyfrau. I'r gwely toc wedi deg. Rhaid imi godi yfory am chwech.

..

*Dydd Mawrth, Awst 22.*

Galwodd y gwas fi cyn chwech. Cymryd taci tua'r *Gare Montparnasse*. Pawb ar eu traed, a'r ddinas wedi deffro o'i chwsg. Cymryd coffi yn yr Orsaf.

Saith o'r gloch : cychwyn. Bore heulog, hyfryd, gwlad goediog las, hyd *Versailles*. Yna, ehangder o gaeau ŷd—a'r ŷd heb ei gywain. Hwyr iawn, onide, yn Ffrainc? Eglurodd yr unig gyd-deithydd â mi y rheswm :—rhew yn y gwanwyn wedi gorfodi llawer o ail hau, glaw Gorffennaf wedi gohirio'r cynhaeaf. 8-15 cyrraedd *Chartres*.

Arhosaf yma, a chaf dren i fynd â mi ymlaen ar ben tair awr. Dyma gyfle imi ymweled â'r Eglwys unwaith yn rhagor. Os daw'r rhyfel... efallai na bydd na'i gwydrau na'i phyrth na'i chôr yn gyfan. Disgyn—dringo at le agored. Tyrfa o weithwyr yn ddiwyd yn siarad a'i gilydd, wrth gychwyn at eu gwaith, mae'n debyg. Troi ar y chwith at yr Eglwys Gadeiriol. Ei dau dŵr eisoes yn y golwg. I mewn o dan drwch o gelfyddyd. Prin symud o gylch y côr—gan ddarllen ei hanes rhyfedd mewn pren—holl Hanes y Crist. Llygaid, dwylo, bysedd, ystum y personau—i gyd yn anadlu bywyd. A'i ffenestri lliw! Y mae syllu arnoch chwi yn un o'r sagrafennau... chwi sydd gennych gysurlawn addewid y goleuni tragwyddol! [*Ni wyddwn ar y pryd, y tynnid hwy o'u lle cyn pen yr wythnos. Tua deng niwrnod yn ddiweddarach, cyfarfum â thri Americanwr yng Nghemper. Galwasent yn Chartres ddeuddydd cyn hynny: yr oedd y ffenestri wedi eu tynnu i lawr! O rhyfedd ffawd!*]

I'r *Gare Montparnasse*, i sicrhau fy nhocyn ar gyfer y daith drwy Lydaw. Talu 329 o ffranciau. Mor rhad! Diweddu'r dydd yn y siopau llyfrau. I'r gwely toc wedi deg. Rhaid imi godi yfory am chwech.

♦♦

*Dydd Mawrth, Awst 22.*

Galwodd y gwas fi cyn chwech. Cymryd taci tua'r *Gare Montparnasse*. Pawb ar eu traed, a'r ddinas wedi deffro o'i chwsg. Cymryd coffi yn yr Orsaf.

Saith o'r gloch : cychwyn. Bore heulog, hyfryd, gwlad goediog las, hyd *Versailles*. Yna, ehangder o gaeau yd—a'r yd heb ei gywain. Hwyr iawn, onide, yn Ffrainc? Eglurodd yr unig gyd-deithydd â mi y rheswm :—rhew yn y gwanwyn wedi gorfodi llawer o ail hau, glaw Gorffennaf wedi gohirio'r cynhaeaf. 8-15 cyrraedd *Chartres*.

Arhosaf yma, a chaf dren i fynd â mi ymlaen ar ben tair awr. Dyma gyfle imi ymweled â'r Eglwys unwaith yn rhagor. Os daw'r rhyfel... efallai na bydd na'i gwydrau na'i phyrth na'i chôr yn gyfan. Disgyn—dringo at le agored. Tyrfa o weithwyr yn ddiwyd yn siarad a'i gilydd, wrth gychwyn at eu gwaith, mae'n debyg. Troi ar y chwith at yr Eglwys Gadeiriol. Ei dau dŵr eisoes yn y golwg. I mewn o dan drwch o gelfyddyd. Prin symud o gylch y côr—gan ddarllen ei hanes rhyfedd mewn pren—holl Hanes y Crist. Llygaid, dwylo, bysedd, ystum y personau—i gyd yn anadlu bywyd. A'i ffenestri lliw! Y mae syllu arnoch chwi yn un o'r sagrafennau... chwi sydd gennych gysurlawn addewid y goleuni tragwyddol! [*Ni wyddwn ar y pryd, y tynnid hwy o'u lle cyn pen yr wythnos. Tua deng niwrnod yn ddiweddarach, cysarfum â thri Americanwr yng Nghemper. Galwasent yn Chartres ddeuddydd cyn hynny: yr oedd y ffenestri wedi eu tynnu i lawr! O ryfedd ffawd!*]

Ffenestri byth gofiadwy i'r sawl a'u gwelodd. Prynu lluniau ohonynt, yn un o'r siopau sy'n wynebu'r Eglwys. Dringo i ben mur, i gael golwg lawn ar yr holl dref a'r fro. Cymryd cwpanaid o goffi, a cherdded yn ôl i'r orsaf. Meddwl am Fulbert, yr athro a wnaeth enw Ysol *Chartres* yn enwog drwy Ewrop gyfan ar ddechrau'r ddeuddegfed ganrif.

..

11-20. Gadael *Chartres* am *Le Mans*. Awr o daith ddifyr, drwy wastadeddau a drinir fel gerddi. Diwydrwydd mawr—torri yd, rhwymo yd, cywain yd. Mwy diddorol na dim—merched yma ac acw yn lloffa, fel yn nyddiau'r Hen Destament.

12-30. *Le Mans*. Dilyn yr *Avenue Thiers* ar ei hyd, a throi ar y chwith tua'r *Place de la Republique*,—llawn bywyd. Ymlaen drwy heol-ydd culion, a död i olwg yr Eglwys. Y tro cyntaf erioed imi fod yn ei hymyl. Anferth o adeilad mawr—heb ddim tegwch a cheinder oddi allan. Cerdded o'i chwmpas, yr haul yn llethol. Af i mewn. Y drws wedi ei gloi!—ac un arall. Siom mawr. Holi pam? Cau rhwng deuddeg o'r gloch a hanner-awr-wedi-un, meddir wrthyf. A pham hynny? Oherwydd colli trysorau ohoni ar yr oriau hyn! Ni wrthyd lleidr ddim.

..

Nid yw'n un o'r gloch eto. Eistedd o flaen yr Eglwys, ar y glas, mewn cysgod. Darllen y papur eto. Codi—i'r Ardd Gyhoeddus—hyfryd, deiliog, a blodeuog. Yn ôl at yr Eglwys—i'r hen heolydd, hen, hen. Cul yn y gwaelod, culach fyth yn y brig. Gwragedd a phlant yn brysur, y cyntaf yn sgwrsio a'i gilydd, yr ail yn chwarae. Y *Grande Rue*—mor gaeedig â thwnnel bron! Hen dai gogoneddus—*Maison d'Adam et Eve*, *Maison de la Reine*—*Bérangerè*, etc., a gwaith cerfiedig arnynt.

..

Eilwaith tua'r Eglwys. A!—wedi agor! Gwirioneddol gampus! Cyfuniad o gelfyddyd Rufeinig a Gothig, y corff a'i cholofnau a'u capanau yn Rhufeinig, y côr o'r Gothig puraf, a'i ffenestri'n fawr a mawreddog, llachar a lliwgar. Hwyl yn ddiau ydyw gogoniant yr adeilad cadarn. Un neu ddwy ohonynt efallai gystal ag yn *Chartres*? Allan; ac ail daflu golwg dros yr dref. Yma, yn rhywle, y ganed Harri'r Ail, brenin Lloegr. Pwysicach o lawer, yma y ganed Hildebert, un o athrawon mawr y ddeuddegfed ganrif, addurn ei meddwl puraf, y *divinus*!

Y mae'n hanner-awr-wedi-dau. Eisiau cinio. Dyma le iawn, *Le Petit Vatel*, yn y *Place de la Republique*. Pawb ond dau fyrddaid wedi hen orffen. A oes deunydd cinio? "Oes, syr, oes!"

Digon o ginio, digon o newyn amdano, llawnder o fywyd ar y lle agored yn ymyl; beth well a fynnai neb? Anodd iawn fydd symud oddi yma! Mynd, er hynny...o'm gwaethaf.



4-20. I'r tren drachefn, tren bach distaw, *auto rail* y tro hwn. Ei lond o bobl siaradus, i gyd yn siarad a'n gilydd, i gyd yng ngoiwig ein gilydd, a'r gyrrwr o'r tu blaen yn gweiddi enw pob gorsaf fel y nesâwn ati. Ym mhob un, gweithwyr yn dod i mewn, tuag adre o'u diwrnod gwaith, oll yn diferu o chwys. Un teulu o Lydawiad...gŵr, gwraig a thri o blant. Siaradant Ffrangeg. A wyddant Lydaweg?

- “Wrth gwrs!”  
 —“Pam na siaradwch hi?”  
 —“Ffrangeg y mae'r plant yn siarad.”  
 —“Pam na siaradwch Lydaweg â hwy?”  
 —“O!...mi dysgant hi...yn ddiweddarach!”  
 Plant bach tlyision dros ben: cyfarch yr hynaf:  
 —“Llydawes ydych chi?” “Ie.”  
 —“Ydych chi am ddysgu Llydaweg?”...  
 “Dim yn sicr!”

6-30. Disgyn yn *Vitré*. Hyd yma y teithiaf heddiw. Cymryd ystafell yng ngwesty'r Dderwen Werdd. Enw tiws...ond y lle heb fod gwbl gystal. Cerdded y dre cyn swpera...hen dre, a hen gastell. Rhai hen dai, ond nid hardded ag yn *Le Mans*. Y castell ar gongl yng nghwr y dref. Ei furiau'n gyfan, a'i dri thŵr. Enghraifft dda o gastell Llydewig o'r unfed-ganrif-ar-ddeg, a'i bont-godi'n gyfan dros y ffôs a'i cwmpasa. Tyrau, ffynnon, celloedd, capel, tyllau, a disgyniad aruthr i'r llawr,...cyfuniad rhyfedd o'r celfydd a'r arswydus. Yn fy mlaen at yr Eglwys. Myrdd o fân binaglau gyda'i hymylon. Ac yn eu canol, pwlpudd allanol! Oes modd mynd i mewn? “Wedi cau.”

I lawr yn ôl drwy'r strydoedd bach. Pobl yn y tai wrth eu swper. Merch neu ddwy'n mynd â dŵr i'r tŷ o'r pistyll, plant yn troi i mewn dros garreg y drws. Yr holl le'n distewi, y nos yn disgyn. Gwell i minnau gyrchu tua m llety.

Swpera oddi allan, o flaen y gwesty. O'r naill du imi, ar fwrdd arall, dau fachgen ieuanc yn ddiwyd yn torri eu newyn. Ac yn siarad. Mynd dros gyfran o'u profiadau yn y wersyllfa, mi dybiaf. Clywaf ambell air yn awr ac yn y man... milwr...rhyfel...Yn yr hen dref bellennig hon, yr oedd adlais digwyddiadau rhwng Pwyliaid ac Ellmyn i'w clywed,—eithr dim ond adlais gwan a phell eto. Pan ddaeth dwy neu dair o ferched yno, fe'i rhoddwyd i gyd i gadw mewn cell, o'r golwg...Am ba hyd?

Toc yr oedd yr hen dre i gyd yn cysgu.

Ymunais innau â'i holl drigolion, ar ol dringo i fyny i risiau mor aml-droeg â phe baent yn perthyn i'r castell.

\*\*\*

*Dydd Mercher, Awst 23.*

Am hanner-awr-wedi-wyth cefais dren am *Rennes*, ac yr oeddwn yno, ym mhrif-ddinas Llydaw, cyn pen yr hanner awr. Nid oedd yr *Action Française* wedi cyrraedd. Dim newydd o bwys yn y *Ouest-Eclair*. Allan i'r dref. Prysurdeb y bore,...agor siopau...ysgubo'r llwch o'r gwindai...gosod lluniau a chodau a dillad o'r tu allan i ddrysau'r siopau...mynd â'r bara i'r gwestai ...llu o ferched yn gwibio heibio ar feiciau, &c.

Cerdded hyd heolydd cynefin, dros y bont, i fyny at y *Palais du Justice*, hen Senedd-dy Llydaw. I mewn am ennyd, ac yna i'r ardd dlos sydd o'i flaen. Tram yn llusgo'i ffordd yn drwst-drafferthus, a merch yn ei yrru. Fel arfer! I siop lyfrau; at Neuadd y Dref. Yma yr arferai'r golofn a ddathlai Uniad Llydaw a Ffrainc fod, cyn ei chwythu i fyny. Ei lle'n wâg o hyd!

Dal i gerdded. At yr Eglwys Gadeiriol, ac i mewn. Na: ni fedraf ymhoffi yn ei cholofnau cochion, er mor ddisglair ydynt. Mwy diddorol gennyf yr ychydig hen blastai sy'n ymyl. Gorffen cerdded, a nesu at y *Café de la Paix*, i weld *Rennes* i gyd yn symud. Myrdd o gofion yn morio i'm meddwl...yr wythnosau o hiraeth a dreuliais yma, y cyfeillion a wneuthum...*Marechal, Debauvais, Aliés, &c.*, y cwmnïau o Gymry a fu gennyf yma: y tê enwog a gafodd Sion ac Owen a minnai yma. Ac yn y blaen.

"*Café! Garçon!*"

\*\*\*

Gorffen darllen y papur. Agor rhifyn Awst o'r *Breiz Atao*, papur Cenedlaethwyr Llydaw. Mordrel yn ei dweyd hi!...Tybed a ydyw yma?... A Debauvais? Af i weld. Curo wrth ddrws y swyddfa. Dim ateb. Am ginio, mae'n debyg. Dof yn ôl eto. Wedi ciniawa, gelwais drachefn. Agorodd y drws.

—"A ydyw Debauvais yna?" "Ydyw."

—"A allaf ei weld?" "Gellwch, 'rwy'n meddwl."

I mewn, ac ar y dde i ystafell gul iawn, a thywyll. Eisteddai Debauvais ar gadair yn y pen pellaf, a bwrdd o'i flaen. Edrych yn o lew, ond nid cystal ag arfer.

—"C'est Bebb! Sut wyt ti?..."

—"Da iawn. A thithau? Fawr gwaeth wedi'r naw mis o garchar? A'r galon?"

—"Ardderchog! Gwell nag erioed."

Gyda'r gair, daeth Mordrel i mewn...o'r lloft. Yr un ag erioed...balch, ffroen-uchel, hunanhyderus, a siaradwr carlamus. Gwallt a llygaid duon, wyneb hir a thalcen uchel, llydan.

—"I'r dim! Yr own i eisiau dy weld di!"

—"Beth sydd?"

—"Mi gei di glywed yn awr. 'Ddeui di allan? Y dyn own i am ei weld. Aros funud...mi ddof yn ôl nawr."

\*\*\*

Aeth i ffwrdd mor ddisymwth ag y daeth i mewn. Yn y cyfamser, yr oedd Debauvais a minnau gyda'n gilydd.

—“Sut amser gëst ti? Caled iawn?”

—“Na!...O...na!...Nid cynddrwg. Y tri mis cyntaf yn galed iawn, cell fechan, dim llyfr, bwyd sal.”

—“Cael gweld rhywun?”

—“Neb ond fy ngwraig...unwaith yr wythnos. Gwella wedyn...cael darllen, ysgrifennu...hyd yn oed i'r *Breiz Atao*.”

\* \* \*

Mordrel i mewn eto, ar ffwrst fel o'r blaen.

—“Gawn ni fynd allan? Mae Debauvais yn brysur yn awr...Down yn ôl yma wedyn.”

—“O'r gorau. I ble'r ei di? I gafé?”

—“Allan o'r fan yma. Nage...nid i gafé ychwaith...allan o'r hen dre ma...ymhell i'r wlad!”

Aethom i gerbyd modur oedd oddi allan i'r swyddfa, a chychwyn dros heolydd tolciog *Rennes*, igam ogam.

—“Mae pobl yn ein gwyllo ni yma yn mhobman...un ar bob pen i'r stryd yma...”

Allan â ni am rai milltiroedd, a disgyn o'r cerbyd.

—“Mi arhoswn ni fan yma. Mae'n well nag yn y dre 'na. Gallwn siarad faint a fynnom...neb i wrando.”

—“Beth sydd gennynt i'w ddweyd? Pa gyfnewid sydd er pan fuost gyda mi ym Mangor, ddwy flynedd yn ôl?”

—“Llawer iawn! Yr holl sefyllfa wedi newid, a'n dulliau ninnau. Yr adeg honno, yr oeddym yn credu mewn gweriniaeth. Dim mwy! Dim ffydd yn y werin. Nid yw'r werin yn meddwl... 'd'all hi ddim, dim un syniad gwleidyddol ganddi, ...ac...yn hollol ddifater. Yr ychydig sy'n cyfrif... ychydig arweinwyr wedi eu dewis yn ofalus, y rheini'n rhoi patrwm ac esiampl i'r lleill....Mi fuom yn rhyw hanner Sosialwyr...Duhamel gyda ni...Dim mwy!”

—“O'r gorau. Ond beth a fynnwch i'r ychydig ei wneud?”

“Ust!...araf bach...Ust!...mi ddyweda'i nawr. ...Popeth!...popeth dewr, anodd, gwrol, arwrol... i ennyn edmygedd y bobl...mynd i garchar, torri'r gyfraith...gweithio yn y dirgel, saethu, tanio, creu arswyd.”

—“Sef yr hyn a wna 'Gwen a Du'?”

—“Ust!...paid â dweyd yr enw 'na!...Yn ddistaw bach, yr un rhai ydynt hwy â ni. Neb yn gwybod hynny—neb ond ni! Ein *byddin* ydyw hi...Weli di...yr ym ni bellach yn gweithio ar ddull mintai o filwyr disgybledig...yma...a thraw...o'r golwg. Ymarfer fel milwyr...yn gyson...o gyrraedd yr awdurdodau...yn y berfeddwlad... coed...y nos.”

—“Pwy ohonoch sy'n ymarfer y lleill?”

—“Ddyweda'i ddim! Cofia fod llawer ohonom yn swyddogion ym myddin Ffrainc...ac wedi derbyn y ddisgyblaeth orau yn y byd.”

—“Ond beth wnewch chi yn y diwedd? Faint yw eich byddin chi...cant?...ie?...be fedr cant ei wneud?”

—“Ust!...fedra'i ddim dweyd...peth i'w gadw'n ddirgel...Maddau imi na ddyweda'i fwy...Ond... 'd' wn i ddim fy hun...yn iawn. Efallai...saethu pontydd—trenau...*putsch!*”...

—...efallai!...ddim yn siwr fy hun. Mae'r posibiladau mor fawr...mor fawr. A rhaid eu hastudio...yn ofalus.”

—“Pryd y digwydd hyn oll?”

—Ni wn i fy hun mo'r awr...eto...efallai yr wythnos nesaf...*efallai* cofia!...Neu, pan ddaw rhyfel.”

—“Yr wythnos nesaf, felly?”

—“Na!...ni ddaw rhyfel!...ni bydd rhyfel!... Sicr! Dim rhyfel y tro hwn! Sicr!”

—“Paid â bod yn rhy siwr! Os tery Hitler ar y Pwyliaid, fe ddaw yn sicr—yn bendant.”

—“Na...na...na! Ni bydd rhyfel! Dim... Fe wyddom ni!

—“Sut y gwyddoch chi?”

—“Gwybod o ffynhonnell ddiogel...ni bydd rhyfel y tro hwn. Tery Hitler...ond heb rhyfel!”

—“Maddau imi...yr wyt ti'n camgymryd yn enbyd...Os tery Hitler...os, cofia...yna bydd rhyfel. Daw Ffrainc yn ei erbyn...a Phrydain...”

—“Dim o gwbl...dim o'r fath beth...*il n'y aura pas de guerre!!* R'ym ni'n gwybod.

—“*Gwybod?*...Sut y gelli di wybod?...Dyna â gred Hitler...onidê? Ei gamgymeriad mwyaf... gei di weld!”

—“Unwaith eto, *mon cher Bebb*, NI BYDD RHYFEL! Fe dery Hitler... llyncu Poland...”

Ffrainc a Phrydain yn llonydd...Yna, ym mhen tua thair blynedd, bydd Hitler yn barod. DYNA'R RHYFEL...Trechu Ffrainc...a Lloegr! Felly!! Dyna â gredwn ni. Dyna â *wyddom!*”

—“A dyna 'ch gobaith chi? Gyfaill annwyl! ...Y mae siom yn eich disgwyl...!...Onid oes rhyw obaith arall gennyh...ennill serch y Llydawiaid... eu denu o'ch ochr...dysgu'r iaith...hanes...cynnal cyfarfodydd yn eu plith...ac yn y blaen? Ennill seddau ar y cynghorau...a chant a mil o bethau...?”

“Dysgu'r iaith...oes. Fe wyddost am y Mudiad *Ar Bresoneg er Skol*...Llenyddiaeth?...Oes...gwir adfywiad...dadeni mawr...*Gwalarn*...Roparz Hemo...Ac y mae'r cwbl hyn yn cyd-weithio gyda ni.”

—“Ardderchog!...Beth am Fudiad *Bleun Brug?*”

“...Dim gwerth...yn nwylo'r Offeiriaid...da i ddim. Weli di—'dydw i ddim yn Cristion!...neb ohonom ni'n Gristnogion...Cristnogaeth yn dysgu goddefgarwch...yn meddalu cenedl...ei gwanhau... ei lladd yn y diwedd. Dim yn dysgu arwriaeth...a ninnau eisiau arwyr.”

—“Araf bach...! Catholigiaeth bob amser wedi pwysleisio arwriaeth—hunan aberth—dioddef dros y rhinweddau uwchraddol—gwlad, cenedl, rhyddid, crefydd. Rhyfeloedd y Groes!...y rhyfel cartref yn Sbaen!!...&c., &c...Yn dy ymyl—gwel y cyfoeth o wroldeb a fedd y Llydawiaid, dy genedl dy hun!...Gwiriondeb a ddywedi!”

—“Nid yw'r Llydawiaid yn Gristnogion...‘fuon’ nhw erioed...Pan ddaeth Cristnogaeth yma gyntaf, bu'n rhaid iddi adael y baganiaeth oedd yma heb newid fawr—a chymrodeddu â hi. Yn y bymthegfed ganrif yr oedd yr holl wlad yma'n llawn



gwylliaid a herwyr a charnladron...yn yr ail-ar-bymtheg bu'n rhaid cael *cenhadaeth* Gristnogol yma."

—"Mi wn yn burion...Do, mi gafodd Cristnogaeth frwydr galed yma...Ond yr un fath drwy Ewrop gyfan...ac yn yr Almaen, ar fin y cledd yr enillodd y frwydr."

—"Wel iti...nid Cristnogion mohonom...Awn yn ôl at y baganiaeth fore...Duw Hollalluog, ie! Yna gwaed y Celtiaid..eu gwylltineb, ffyrnigrwydd, arwriaeth...eu dewrder hwy fydd ein crefydd ni. Felly y down ninnau'n gryf eto...dewr...di-ofn. Esiampl i'n pobl...fel eu Seintiau gynt. Dyna oedd y rheini, nid arweinwyr crefyddol, ond ymladdwyr. A ninnau yr un modd...a daw'r Llydawiaid i'n hedmygu...i'n parchu...i'n hanner addoli ninnau...yr un fath â'r Seintiau!! Rhai o'r offeiriaid ifainc gyda ni! Yn credu fel ninnau!"

—"Dyna grefydd yr Almaen...!! Paganïaeth noeth...*La Barbarie!*"

\* \* \*

Daeth ein hir ymddiddan i ben. Esgyn i'r cerbyd, a hwylio'n ôl i'r brif-ddinas...i'r swyddfa. Siarad...am bersonau a adwaen i yn Llydaw... Vallée?...yn ei wely yn ymyl Rennes...rhaid mynd i'w weld; Marechal?...yn Laval, wedi'n gadael; Aliez?...yn St. Brieuc ac yn...Gomiwnydd?; Duhamel?...Sosialydd!...&c.; Mocaer?...gwneud arian! Gourvil?...gyda ni o ran ei galon.

Pethau eraill...ein Mudiad ni yng Nghymru...pam yr oedd y Blaid yn basiffistaidd?...gwadu eich gorffennol? Gwrthod Owen Glyn Dŵr? Ai ofn pur?...Drachefn aeth yn sôn am ryfel, a chyd-waeddodd Debauvais a Mordrel gyda'i gilydd... "Ni bydd rhyfel"...fel rhai'n meddu ar anffael-edigrwydd.

Saith o'r gloch: Mordrel a chyfaill iddo yn fy ngyrru mewn cerbyd i ymweled â'r Tad Vallée mewn cartref...*Maison de repos*...ychydig filltiroedd i ffwrdd. Cyrraedd: hwy'n aros yn y cerbyd. Mynd at borth yr adeilad mawr. "Ydy' M. Vallée yma? Ga'i fynd i'w weld... Diolch." Esgyn y grisiau...cerdded rhwng parwydydd...dyfod at ddrws rhif 10. Curo...yn uwch...ac yn uwch. Llais gwan. Agor...ac i mewn. Yr hen ŵr ar ei wely...ystafell fechan...croes neu ddwy... llyfrau...

Golwg hurt...ofnus...eiddil. Nid adwaen ddim ohonof.

—"M Vallée...sut ydych? Fy nghofio i?...Bod yn eich tŷ ddwywaith..."

—"Ydwyf...yn eich cofio...da gennyf eich gweld...da iawn. Darllenais eich llyfr...Llydaw...da iawn."

—"Rhyw feirniadaeth gennyh?...Na...dim...da iawn, da iawn. 'Ydych chi'n o lew?...Na...fy anadl i...fy ysgyfaint...llygaid...fedra'i ddim darllen...fawr...nac ysgrifennu..."

—"Fe wellwch eto...wedi tipyn o orffwys..."

—"Na...dim mwy...y diwedd...yn ymyl."

—"R'ych chi'n dal i weithio o hyd."

—"Tamaid bach...y Geiriadur mawr...llawer o waith arno...dim gorffen."



—“Codwch eich calon...Llydaw am byth!”  
 —“Diolch...yn fawr...Cymru am byth!...r'wy'n dysgu...Cymraeg...o hyd. Cofiwch...fi...at...Gymru!”  
 —“O'r gorau! Dydd da, M Vallée. 'Rwy'n falch iawn o'ch gweld eto...yn falch iawn.”  
 —“Diolch yn fawr ichi...am ddyfod i'm gweld...diolch...yn fawr. Dydd da...*Kenavo!*”  
 —“*Kenavo...ar c'henta!*”

\* \*

Yr hen bererin! Tybed a welaf i byth mwy mohono? Diwedd oes, a gysegrwyd i gyd i wasanaeth Llydaw! Yn ôl i'r cerbyd.

—“Welaist ti ef? Sut oedd e?”  
 —“Do: mi gwelais ef: go wael, gwan iawn, a bron yn ddall. Dywed imi—pam y daeth yr hen bererin i'r lle hwn—i le mor Ffrengig...lle ni chlyw yr un gair o'i annwyl Lydaweg?... Rhyfedd...ynte?”  
 —“Wedi mynd yn fethedig...a neb i'w ymgeleddu...”  
 —“Ond pam nad aethai i ganol y wlad Lydewig...?”  
 —“Mi ddywedaf wrthyti...dod yma er mwyn bod yn agos i'r Brifysgol...a gallu mynd i ddysgu Cymraeg i ddosbarth M le Roux.”  
 —“Yn bedwar-ugain oed! Godidog!...cyfuniad perffaith o blentyn a Sant, onide?”  
 —“Dywedaist y gwir...plentyn a Sant, dyna yw Vallée.”

\* \*

Swpera gyda'n gilydd a dangos imi argraffiad newydd o'r gân genedlaethol; a'r adeg honno penderfynodd Mordrel fynd i weld ei wraig, a dreuliai ei gwyliau mewn gwesty ar lan y môr yn ymyl *Cancale*, rhwng *St. Malo* a'r *Mont St. Michel*.

—“Ddeui dithau?”  
 —“Ar un amod...rhaid imi ddod yn ôl bore 'fory...i fynd ymlaen i *St. Briec*...”  
 —“Mi ddaliwn y trên cyntaf yn *St. Malo*... saith o'r gloch...Yn iawn?”  
 —“Eithaf da.”

\* \*

Y mae tua deg o'r gloch—taith trigain milltir o'n blaen. Cyfaill Mordrel—un o ffyddloniaid y Mudiad—biau'r cerbyd, ac ef sy'n gyrru. M a minnau yn y tu ôl, a M yn siarad yn ddi-dor bob cam o'r ffordd. Cymerai gyfrol gyfan imi roddi cyfrif o'r cwbl o ddywedodd.

—“Weli di mor barod yw'r bechgyn yma;—cerbydau, arian, tai, cysgod, popeth...rhoddant y cwbl at ein gwasanaeth. Diolch iddynt hwy, gallaf fod ar y ffordd fawr beunos—croesi Llydaw i gyd, rhwng cyfnos a gwawr...Disgyblion i mi...ymroddgar...parod i bob aberth...Mi gei di eu gweld yn ein Cynhadledd Flynnyddol...Ddydd Sadwrn nesaf. Fe weli Lainé yno...welaist ti mohono ef eto...dyna iti fachgen! Un o'n goreuon...y gorau!”

'R'oeddem ni wedi cymryd neuadd mewn gwesty ym *Mhontivy*...daeth i glust yr awdurdodau...chawn

ni ddim. Ond fe *fydd* ein cynhadledd. Danfon gair at ein cyfeillion i ddod i *Bontivy*...a'u hysbysu yno i ble'r awn...i ganol y wlad...o afael pawb...lle dirgel. Fe weli di'r cynnydd a wnaethom...undeb credo, disgybliaeth haearn, ufudd-dod...defosiwn...Fe synni! 'Does gan Ffrainc ddim syniad o'r ysbryd...a'r casineb...sydd yn ein hennyn...Pe gwyddai...'fuaswn i ddim yn ddyr rhydd!"

Rhygnu'n hir yna ar ddirywiad Ffrainc...ei bywyd ysgafala, hoffter o fwyniant, teuluoedd diblant. Gorliwia'n anghyffredin, cymer ei ddymuniadau fel gwirioneddau, fel y dywedaf wrtho. Dim cyfrif o gwbl o'r traddodiad milwrol sydd yn llywodraethu'r hen deuluoedd, dim cyfrif o ddylanwad Pabyddiaeth...a dim o'r fyddin, y peth cryfaf o ddigon yn Ffrainc heddiw. Dim, ond dal i ddweyd—"Ni saif ddim yn erbyn yr Almaen...pobl galed, yn ymgaledu o bwrpas...a ddiodefa ddoluriau rhyfel...yn llawen!"

\* \*

Cyn canol nos, cyrraedd *St. Malo*, a gweld ei muriau gogoneddus yng ngolau'r lloer. Ymlaen drwy wlad boblog...

—“Edrych!...y geiriau *Breiz Atao* ar ganllaw'r bont!...eto ar gongl y tŷ...eto...a thrachefn!”

Dyfod yn union i gartref ein gyrrwr, a disgyn...

—“Y lle hwn at ein gwasanaeth ni...cysgu, cuddio, cadw celfi, &c...Lle iawn!”

Y gyrrwr yn mynd i'w dŷ, M a minnau'n parhau ein taith, M yn gyrru...*St. Coulomb*...y

môr yn y golwg...*Cancale*. Disgyn...ar damaid o glogwyn uwchlaw'r môr. Islaw, un gwesty unig...ac yn y bae nifer o longau bychain.

—“Weli di'r llong 'na...honna â hwyliau gwynion...y nesaf allan?”

—“Gwelaf.”

—“Ni biau honna!!”

—“Pwy, ni?”

—“Ni, y Mudiad!”

—“I beth?”

—“Pwy a wŷr?...danfon negesau...hwylio o draeth i draeth...haws nag ar y tir...posibiliadau! Pwy a wŷr yn iawn?”

Disgyn hyd lwybrau culion serth, i lawr at y traeth...ymlaen at y gwesty unig: golau...ymwelwyr wrth y byrddau'n ddiwyd eu siarad. Dyfod gwraig Mordrel atom, yfed seidr ynghyd, siarad am y plant, a mynd i'r llofft i mofyn am un ohonynt...Malo, i'w ddangos imi.

—“Tebyg iawn iti, Mordrel!...Rhy debyg?!”

Gwasgaru—ac i'n gwelau—fy ystafell i mewn *annexe* oddi allan i'r gwesty. Yn olaf peth, gofyn gan y forwyn fy ngalw cyn chwech o'r gloch y bore. Cip ar y lloer, ac i'r gwely.

\* \*

*Dydd Iau, Awst 24.*

Galwodd y forwyn fi dipyn cyn chwech. Sŵn y mor ar gyffrous hynt oddi allan i'm ffenestr: lliw codiad haul yn dechrau ymestyn. Codi, ymolchi, gwisgo. Cyn imi orffen gosod fy nhac-lau eillio o'r neilltu yn fy ysgrepan, yr oedd M yn chwiban oddi allan, islaw fy ystafell.

I lawr i'r gwesty am goffi cynnes, ac i fyny'n ôl at y cerbyd. Troi ei ben i gyfeiriad *St. Malo*, a mynd. Edrych o'n deutu—ffermwyr yn y caeau, yn trin yr ŷd, ei gywain, ei daflu i'r das; eraill yr un mor brysur ar y ffordd. Pawb ar eu traed, eisoes. Mor loyw, mor llafurus, mor ddiwyd! Digion o waith—digion o weithwyr! A'r cynnyrch yn ddibrin. Tua *Paramé*, i olwg *St. Malo*, a'i chwmpas o ynysoedd, a'r bedd i Chateaubriand, a'r rhagfuriau. Harddwch, anturiaeth, traddodiad—y cwbl gyda'i gilydd yma!

Yn ein blaen at yr orsaf. Tipyn o gyffro...yr unig arwydd ohono a welais hyd yn hyn. Dau newydd: yn gyntaf, am y cytundeb rhwng Rwsia a'r Almaen; yn ail, gorchymyn y Llywodraeth yn galw ynghyd ddau ddosbarth o filwyr! *Dechrau'r argyfwng*. Prynu papur, codi tocyn, i'r trê. Pawb yn siarad am y cytundeb newydd. Rwsia wedi bradychu! Rhyfel! M a minnau'n codi o'n lle, ac ef yn awyddus iawn i siarad.

—“Dyna! Maent wedi colli Rwsia! Hitler wedi eu trechu eto. Dyna newid y sefyllfa'n gyfangwbl.” Yr oedd yn falch iawn.

—“Nid yw'n newid dim ar y sefyllfa...dim gronyn! Rwsia a Hitler yn eu deall ei gilydd drwy'r amser; cytundeb Rapallo heb erioed ei

dorri. Hitler heb ennill dim, Ffrainc a Lloegr heb golli fawr, coelia fi! 'D'ydi Rwsia ddim yn cyfrif...rhyw lawer.”

—“On'd oedd Ffrainc a Lloegr yn gwneud eu gorau glas i ennill Rwsia?”

—“Oeddynt...y ffyliaid! Dyma agor eu llygaid o'r diwedd! A bydd yn lles iddyn' nhw. Ond 'dydyn' nhw ddim ar eu colled. Mae'r sefyllfa'n eglurach o lawer,...dyna'r unig newid sydd. Y mae dwy wlad yn Ewrop nad ydynt wedi derbyn erioed Wareiddiad y Gorllewin...yr Almaen a Rwsia, ac y mae'n naturiol iddynt anwesu ei gilydd.”

—“'Gei di weld mai rhannu Poland rhyngddynt fydd y cam nesaf. 'Chymer i fawr na bydd wedi ei wneud” meddai M.

—“Rhwng yr Almaen a Rwsia?...Diamau... *ar bapur!*...A allan' nhw yw'r pwnc? Efallai... os ceidw Ffrainc allan ohoni?...Ond fe ddaw i mewn...fel y dywedais neithiwr...A Lloegr! A dyna'r Rhyfel wedi dod...Ac am Rwsia, fedr hi wneud dim! D'oes dim byddin o *werth* ganddi...byddin heb gadfridogion! Wyddost ti beth yw gwir ystyr y Cytundeb? Os nad wy'n camgy-mryd...cyfaddefiad ar ran Rwsia na fedr hi ddim!”

—“Hollol anghywir,” meddai Mordrel. “Rhannu Poland ar unwaith...gwaith hawdd... pobl sâl, hawdd eu prynu yw'r Pwyliaid...Hitler yn cynnig digon o arian i'r arweinwyr...a dyna'r peth wedi ei wneud heb daro ergyd!”

—“Syml iawn! 'Ngwas annwyl i, beth am eu Hanes?...Hanes gyda'r dewraf yn Ewrop. Cenedl o ryfelwyr ac ymladdwyr...erioed! Amser a ddengys...ac efallai'n fuan. Ni phrynir hwy;

ac nid Tseciaid mohonynt. Y mae eu Hanes yn dra gwahanol."

Parhaodd y ddadl drwy gydol ein taith bron bob cam i *Rennes*; a mynnai Mordrel y prynai Hitler y Pwyliaid, y cymerai afael ar eu gwlad ...heb ryfel. Ei frawddeg olaf gyda'r un pendant-rwyd â ddoe: "NI BYDD RHYFEL!"

\*\*\*

Yn *Rennes*, gwahanu...Mordrel i'r swyddfa i baratoi'r rhifyn nesaf o'r *Breiz Atao*, minnau i mewn i drên arall tua *St. Brieuc*, lle'r oedd cyfarfodydd blynyddol y *Fédération Régionaliste* wedi dechrau ers deuddydd.

—"Bore da...Fe gwrddwn ym *Mhontivy* ddydd Sadwrn."

—"Kenavo!"

\*\*\*

Dyma'm trên i. Prynu papur, ac esgyn. Llawnder ar orsaf *Rennes*...ond dim mwy nag arfer. Yn y trên, distaw iawn...dim gair gan neb am ddau ddigwyddiad y dydd. Taith esmwyth ...gwlad wastad, undonog, llawn coed heb eu cangau, yn rhoi argraff o ddieithrwech dwyreiniol ar y rhan hon o'r wlad.

10-30. *St. Brieuc*. Cerdded y ddinas...at y *Champ de Mars*, y *Place Du-Guesclin*. Lleoedd gloyw, gwestai hyfryd. Eistedd yn un ohonynt

am gwpanaid o goffi. Bore ardderchog, *St. Brieuc* yn harddach nag y gwelais hi erioed. Y mae'n demtasiwn imi aros yma! Dim modd. Af i chwilio am y neuadd lle y cynhelir y cyfarfodydd. Dod o hyd iddi a'i chael yn wâg, a'r cyfarfod bore wedi hen orffen. Siom! Efallai y gwelaf rai ohonynt yn rhywle. Cerdded...at yr Eglwys Gadeiriol: dau dŵr fel eiddo castell; y corff yn ddi-swyn. Côr campus; colofnau Rhufeinig a Gothig. Eithaf diddorol. Yn ymyl, dau dŷ neu dri gwir wych-olygus...o'r bymthegfed ganrif... Cerdded a cherdded...a chadw llygad yn agored, yn enwedig ar gyfer pob gwesty.

Wela'r *Hotél Celtic*. A!...gwelaf wyneb Even ...y cyfreithiwr o dref *Renan, Treguier*. Y mae'n brysur yn ymddiddan â dau arall, bob yn ail â chiniawa. Af i mewn heb iddo fy ngweld. Llwyddo! Dyma'r forwyn yn dod â'm cinio imi ...gwych iawn.

Bwyta...darllen...yfed seidr...ac un glust yn gwrando ar Even a'i ddau gyfaill...tipyn i fwrdd ar y dde imi. Siaradant am *Lydaw*...*Llydaweg* ...ei hanffodion...ei ffiniau...ddoe...a heddiw. Even...sy'n ddarllenwr mawr...yn cymharu ei hanes ag eiddo'r *Gernyweg*...a'r *Gymraeg*. Edrydd hanes cyfieithu'r Beibl i *Gymraeg*, ac am hynny'n diogelu'r iaith...y cwbl ar flaen ei fyseidd. Y mae'n demtasiwn imi ymuno â'u sgwrs. Gwell peidio, er mor hir y pery—y mae'n ddau o'r gloch, eisoes!—nes y codant o'r bwrdd. Yna!

Dyma godi oddiwrth y bwrdd...ac Even ar ei ben ei hun. Ymlaen ato..

—"Yr ydych wedi fy anghofio'n llwyr!...Sut ych chi, M Even? A'r wraig a'r plant?"



—“M Bebb! A!...wyddwn i ddim eich bod yma...”

Fy nghyflwyno i'w ddau gydymaeth... M Choleau...gwyddwn am ei enw eisoes, awdur amryw lyfrau ar adnoddau economaidd Llydaw; a Madame Droüart...hi fydd yn annerch cyfarfod y prynhawn. Cerdded gyda'n gilydd tua'r *Salle du Peuple*, gan ymddiddan wrth fynd.

Ystafell helaeth, ddymunol iawn. Yr ydym ymhell cyn pryd. Esgyn Choleau a Madame Droüart i'r llwyfan... Even a minnau'n cydeistedd yn un o'r seddau blaen, ac yn ymddiddan...am y sefyllfa gyd-wladol...am Gymru a Llydaw. Even yn ddig wrth Ffrainc...“pa wahaniaeth pe trechid hi? A phe collai hi Champagne ac Alsas Lorraine? Dim colled i ni yn Llydaw...Ni ddyry ddim i ni!”

—“Sut mae Cymru? Yr Eisteddfod? Ple'r oedd hi eleni? Bûm i ynndi unwaith...yn Abertawe...yn 1903... ardderchog iawn. Bûm yng Nghaernarfon hefyd...cofio gofyn i hogyn yno ai Sais ai Cymro ydoedd. Yntau'n ateb ar ei ben...‘Cymro gwaed coch cyfan’!...ateb a'm gogleisodd hyd heddiw...nis ceid yn Llydaw!”

—“Pa gynnydd sydd yma? Llydaweg yn dal ei thir?...”

—“Ydyw...a...nac ydyw...*colli* o ran ei siarad... yn y trefi... a chan y plant... y rhieni'n siarad Ffrangeg â hwy. Dyna'n drwg ni! *Ennill*... drwy ymdrechion y Gymdeithas er dysgu Llydaweg yn yr ysgol, gan fod yr holl wlad o blaid, i.e., yr holl gynghorau.”

\* \* \*

Cododd y cadeirydd—M Choleau—a chyflwynodd Madame Droüart. Rhifais y gynulleidfa... 12 i gyd! Anerchiad da...iaith dlos...syniadau syml, ond gwir bob un. Trafod Moddion i gadw'r Llydawr yn y wlad, ei ddenu yno rhag mynd i'r dref, ei ail-Lydaweiddio...rhoddi ei urddas iddo... ymwybyddiaeth o'r hyn ydoedd ei deidiau... ei rwymo wrth ei gartref â llinynnau anweledig ei draddodiadau, ei arferion, ei ddefodau...rhoddi ei dŷ ei hun iddo, yn arddull ei wlad, a dodrefn tlws o gelfyddyd draddodiadol; dysgu ei iaith iddo, hanes ei genedl, llên a doethineb gwerin...y syniad o ddyletswyddau, anrhydedd, a chyfiawnder cymdeithasol.

Gallai'r anerchiad fod wedi ei thraddodi yn un o gyfarfodydd y Blaid Genedlaethol...ond bod y geiriau'n fwy dethol...yr arddull yn geinach... yr osgo'n esmwythach...codiad a disgyniad y brawddegau a'r llais yn fwy cerddgar o lawer. Nid oes yng Nghymru ferched a fedr siarad yn hardd ar gyhoedd. Ant i weiddi, i gwynfannu i sgrechain...ych a fi!

\* \* \*

Allan. Even yn gofyn imi: “I ble'r ewch chi nesaf?”

—“Paimpol. I ba gyfeiriad yr ewch chi?”...

—“Mi gewch ddod gyda mi yn y cerbyd...”

—“Diolch yn fawr...ond yr wyf am fynd i weld *Kermaria—Nisquit*.”

—“I weld y *Danse Macabre*?”

—“Ie.” “Mi af i heibio...dim trafferth...Byddaf yn cychwyn am bump o'r *Champs de Mars*.”

c



Pump o'r gloch. Wele Eved a'i ferch...a'r cerbyd. Cychwyn...troelli drwy'r dref—allan i'r wlad. Dyffryn del dros ben...llawer o gerbydau ar y ffordd, y gawod ymfudwyr ar eu gwyliau'n dechrau llifo'n ôl i Baris...effaith gyntaf newyddion y bore...Dynion diwyd yn y meysydd...llwythi yd ...&c. Dyma fo'r capel bach—cyfrwys ei glochdy a'i borth...Oddi mewn...ar draws y muriau, wele anferth ddarluniau...y *Danse Macabre*...Angau ar ffurf cyrff marw ac ysgerbydau, yn neidio ac yn dawnsio'n erchyll mewn cylch, gan arwain gydag ef, law yn llaw, y byw o bob rhyw, pob gradd, pob oed—y Pab, yr Ymherawdr, y Cardinal, y Brenin, yr Esgob, yr Abad, y Meddyg...Saith a deugain o ddarluniau anferth eu maint a'u diriaeth...pob un yn mynegi'r ofn a'r cywilydd, y boen a'r gofid a wedda i'w gyflwr. Tan bob un y mae ymddiddan rhwng yr Angau a'r Byw!! Erchyll o fyw—iasau yn cerdded...dychmygaf weld y ddawns hon uwchben gwledydd Ewrop...yfony!

Gweled amryw o dlysau diddorol eraill yno, ond nid dim i'w cyffelybu â'r Ddawns arswydus hon—y Brenin Angau yn chwarae â'i deganau o gig a gwaed, yn chwerthin am eu pennau, yn crechwen, ac yn eu gwatwar. Yma, ni ellir gofyn ...'O angau! pa le mae dy golyn?' Y mae'n ysgrifenedig yma Eiddot ti yw'r fuddugoliaeth yma.

Troi allan, ac i'r ffordd, ac yn ein blaen tua *Paimpol*. Even yn fy nghollwng i lawr yno—yntau'n gyrru tua thre. Chwilio am lety, a'i gael ar gyfer yr orsaf...yr *Hotél de Bordeaux*! Am dro cyn swper—drwy'r dre, at y porthladd, i'r wlad, ymlaen at *Dŵr Keroc'h*, heibio'r plasau a

edrychai allan dros eu gerddi drwy frig y coedydd. Distaw iawn...y môr wedi treio ymhell...gwlad o gaeau gwyrddion yn dynesu i gysgu at gyrrau'r dref. Troi'n ôl drwy'r myllni tawel, a'r dydd yn britho. Yn y gwestai, tawelwch, a'r morynion yn codi'r cadeiriau i ben y byrddau dros y nos. Ychydig o siarad Llydaweg a glywaf, er y gŵyr pawb hi—hi a sieryd y rhieni â'i gilydd, ond Ffrangeg â'u plant.

Yn ôl i'r gwesty: hynod o wâg: pobl wedi dylifo i ffwrdd heddiw ar ôl darllen newyddion y bore—yn ôl tua Pharis, tua mis yn gynt nag arfer.

Erbyn deg o'r gloch *Paimpol* yn chwithig o dawel. I'r gwely.

\*\*\*

*Dydd Sadwrn, Awst 26.*

Bore teg, a phelydrau'r haul yn distyll drwy grwybr ysgafn. Pawb a'i bapur: cyd ddarllen a chyd drafod y sefyllfa...ond heb gyffro. "Efallai y bydd rhyfel...ond efallai na bydd. Fe ddysg Hitler oddiwrth osgo Ffrainc yn galw cyfran o'i milwyr...Na...! go brin yr aiff gyn belled â hynny." Dyna a ddywed pawb. Yna! —y Pab yn gwneud ei orau glas. Oni wrandewir arno ef?...a'i ddylanwad yn gymaint yn yr Eidal! A brenin Belgium...a Roosevelt...ie...a hyd yn oed Mussolini? Ni bu erioed y fath weithio i arbed rhyfel. Gorau oll os na bydd rhyfel...ond ...os bydd...gwaetha'i gyd i Hitler! Dyna a glywir ar bob llaw.

\* \* \*

Cododd pob un i ffwrdd yn ei dro, nes bod y gwesty'n gwbl wâg. Ar fy nhraed â minnau tua'r môr...peth prysurdeb yno, ergyd morthwyl yma, cyweiro hwyliâu draw...sŵn cloes ar balmant —lleisiau gwragedd ar bennau'r drysau...dwndwr paratoi cinio yn y *cafés*...clec gwenith yn crino yn y tes...chwyrnelliad peiriant dyrnu dros ysgwyddau'r caeau,...atgof anfelys!

\* \* \*

Gadael, a chyfeirio tua *Threguier*. Cerddais yno lawer tro, ond...nid heddiw. Y mae gormod o bwysau yn fy sgrepan...Dyma drên, trên bach,

a chorn mawr, yn deffro'r wlad dawel o gaeau ac ysgubau, gwenith a llin, gweithwyr a phlant. Cyrraedd *Treguier*—yr hen dref lonydd ar lan yr afon *Jaudy*...toc wedi un. I'r *Hôtel Lalause* am ginio—a'r afon a'r cei a chyrrau'r dref yn fy ngolwg. Llethol o dawel!...Yn y gwesty...ugeiniau o fyrddau gweigion! Un byrddaid o bobl sydd heblaw fi—bwrdd bach, a phedwar o'i gylch! Dyfod y forwyn a'm cinio imi, Llydawes lygat-ddu o'r wlad.

—“Ple mae pawb?”

—“Wedi mynd!...pawb wedi'n gadael ddoe! ...y gwesty'n llawn cyn hynny...trist iawn...colledus i ninnau...diflas dros ben...ac a ddaw hi'n rhyfel?!...A!”

Ciniawa orau gallaf yn y fath unigrwydd...a darllen y papur...pa lesâd? Siarad â'r forwyn fach.

—“Llydawes?”

—“Ie.”

—“Medru'r iaith?”...

—“Gallaf!”

—“A fyddwch yn ei siarad?”

—“I beth?...a phawb yma'n siarad Ffrangeg?”

—“Pawb? Na! nid pawb?”

—“Pawb!...ie pawb...ag eithrio'r hen...efallai ...merched o'r un oed â mi'n siarad Ffrangeg i gyd.”

Siarad Llydaweg â hi...Gwrida...gwena...na! nid gweddus siarad Llydaweg â...!! Newid.

—“Mynd i'r Eglwys?”

—“Na byddaf.”

—“Pam?”

—“...dim amser.”

—“Dim amser?...y Sul?”  
 —“Na!...gormod o waith!”  
 —“Y gaeaf, ynteu...?”  
 —“'R'un fath...dim amser!”  
 —“O'r dre y dewch...neu o'r wlad...?”  
 —“O'r wlad.”  
 —“Ac yn peidio â mynd i'r Eglwys?”...  
 —“Un waith y bûm er pan wyf yma...ers  
 naw mlynedd.”  
 —“Anghredadwy, *Mademoiselle*! Buasai'n  
 gredadwy am Ffrances...ond nid am Lydawes!!”  
 Etyb hithau—“*Mais alors, est-ce que nous ne  
 sommes pas Français aussi?* Onid ydym ninnau'n  
 Ffrancwyr?” Paham y dadleuaf?

\*\*

Brysio. Awr-a-hanner sydd gennyf cyn gadael  
 am *Lannion*. Dringo i fyny at yr Eglwys Gad-  
 eiriol...cywrain ei dau borth a'i mân binaglau  
 addurnol. I mewn:—côr Gothig, a gwaith  
 manwl arno; amryw o gapeli; yn y cefn, y clas  
 ...a golwg ar y Tŵr Rhufeinig. At ei gilydd,  
 campwaith bychan...ac nid mor fychan! Ar  
 ganol y lle agored o'i flaen, cofadail i Renan  
 ...mab enwocaf y dref hon...a gwrthgiliwr oddi  
 wrth ei chrefydd. Dacw'r tŷ lle y ganwyd ef.  
*Treguier* fu ei unig fyd am flynyddoedd. Cwm-  
 pasaf yr Eglwys...ysbitô eto ar y golofn i feirw'r  
 Rhyfel...*Diwethaf?* sef Llydawes yn wyllo. Ar  
 y chwith wele'r llety oedd gan fy nghyfaill *Sohier*.  
 Bellach wedi marw...yn 35 oed...! fe'i gwelaf,  
 ei wyneb pruddglwyfus, y wisg filwrol a gasai...

Yma y ciniawem...a'r dre a'r wlad yma fu llwyfan  
 ein cwmniaeth fynych...; acw...yr ysgol lle y  
 dysgai!...Un peth arall:—rhaid imi roi tro eto  
 am y golofn i *Anatole le Braz*...a thro'i'n ôl at  
 yr Orsaf. Dacw Even eto...y cloff o droed, yr  
 annwyl a'r syber o natur. Gair neu ddau'n unig.  
 —“Fe'ch gwelaf ym Mhontivy, ddydd Sul?”  
 —“Na...na! Dim cyfarfod!...cael gair heddiw  
 ..na fedrir...ysbiwyr i ddisgyn arnynt, a'u cael  
 i'r ddalfa!”  
 —“Yn wir? Mordrel yn dweyd fel arall...  
 ddoe.”  
 —“Ie: ond wedi clywed sibrydion...Felly  
 ni bydd!!”  
 —“N'enw dyn!”

\*\*

Bras-gamu at yr orsaf, a dal y cerbyd am  
*Lannion*. Difyr o daith, ar draws bro o gaeau  
 bach a chloddiau mawr, nes dyfod y môr i'r  
 golwg, ac ar benrhyn hardd, y dref dlos *Perroz-  
 Guirec*. Y cerbyd yn brysio drwyddi, heibio i  
 westai lliwgar, ac uwchlaw traethau cysgodol.  
 Dim amser i ddisgyn ac ymweled â'm cyfaill,  
*James Bouillé*. Yn ein blaenau, a chyrraedd  
*Lannion* am 5-15. Cymryd ystafell am y nos,  
 ac ymosod ar y dref; dros yr afon a'i rhesi coed  
 yn dechrau rhuddo yn eu brig. Dringo at yr  
 Eglwys, ac at yr hen dai golygus sydd yn ymyl.  
 Yr Eglwys heb ddim hynodrwydd mawr, oddi  
 allan nac oddi mewn. Ei gadael, ac anelu am  
 yr Eglwys arall—Eglwys *Brelevenez*, llai na

hanner milltir i ffwrdd. I lawr i bant gyda heol yn llawn o blant os a phobl hen. Dringo'r rhes faith o risiau at yr Eglwys—gwaith anodd yn y gwres hwn. Ar fin cyrraedd y top, a dal lodes fach un-ar-ddeg oed, a phiser ganddi ym mhob llaw.

- “I ble'r ewch chi, a'ch piseri?”
- “I 'mofyn dŵr.”
- “A phle mae'r dŵr? Yn y fynwent?”
- “Ie.”

\* \* \*

Cyrraedd. Eistedd ar y mur, ac edrych i lawr ar *Lannion*—tref yn ymestyn dros waelod dwy ddôl, ac i fyny'r codiad tir sydd rhyngddynt; yna i lawr at yr afon. Dyma'r olwg orau arni—edrych yn hardd, ac yn ddengar iawn. I'r Eglwys—hen iawn, ei cholofnau yn gwyro. O'i chwmpas, mynwent lawn hyd at y muriau, a dau esgyrny. Yn ôl i eistedd ar y mur. Myllni tawel, trwm, myfyrgar. Toc dyma ferch fach arall yn rhedeg i fyny'r grisiau, i chwilio am y gyntaf.

- “Tyrd i'r tŷ!...Dada newydd gael teligram! ...ma' fe'n gorfod gadael heno ar ôl swper!”
- Dyna 'i gyd! Dyna ormod!
- “Faint o blant ydych chi?”
- “...Pump...pedair geneth...un bachgen.”
- “Pwy yw'r hynaf?”...
- “Y bachgen...14 oed.”
- “Faint yw 'ch oed chi?”
- “Un-ar-ddeg.”
- “A chi?”

- “Wyth.”
- “A'r lleill yn llai?”
- “Ie, syr.”
- “Faint yw oed eich tad?”
- “Deugain namyn un.”
- “Ydy'n ddrwg gennych weld eich tad yn mynd?”...
- Gwên o swildod plant...yna'n hyf.
- “Ydy'!”

\* \* \*

Erbyn hyn yr oedd hi'n hen bryd imi dynnu at fy llety, a swpera...I lawr...plant yn chwarae... rhieni'n bwyta...y dref wedi troi i mewn i'w thai. Eistedd am ychydig o flaen y gwesty cyn mynd i mewn. Dyfod gŵr a gwraig a merch tuag ugain oed, a rhoi eu pwys i lawr ryw bedair llath oddi wrthyf—y tri wedi eu gwisgo'n llawer gwell na'r cyffredin, a'r merched yn foethus. Golwg bell, hiraethus a di-galon arno ef. Wylai'r fam yn hidl...ddistaw...yn ddistaw ac yn hidl. Edrychai ei merch yn druenus drist—weithiau ar ei mam...weithiau i'r awyr a gysgodai'r dre. Diau iddi geisio cysuro ei mam...yn ofer. Ciliais i'r tŷ.

\* \* \*

Ar bryd swper, deëllais mai myfi oedd yr *unig un* a arhosai yno—pawb wedi gadael, heddiw a ddoe...a'r un modd ym mhob gwesty. Drwy ddau



ddydd, bu cawodydd o ymwelwyr yn ffoi, ac yn ei gloywi hi'n ôl am Baris...i ddanfon eu bechgyn, neu i'w galw ynghyd o rannau eraill o Ffrainc. Un testun oedd i bob ymddiddan heno...Rhyfel! A fydd? A ellir ei ysgoi? Pa fodd? &c., &c. Ar y cyfan, y farn oedd na byddai rhyfel. Paham, ni wyddent. Rhyw gred esmwyth, foddhaus a diog. "Na! rhyfel yn amhosibl!...fe ddadrysir y cwbl!" Eraill—ychydig...yn well ganddynt gael sicrwydd o ryw fath—ie, sicrwydd rhyfel, yn hytrach nag ansicrwydd rhyfel neu heddwch. Yr un pryd, dim cynnwrf o gwbl. Dim awydd am ryfel...dim ofn ychwaith...os rhyfel a fyddai.

\* \*

Wedi swpera, eisteddaf o'r tuallan i'r gwesty, i yfed cwpanaid o goffi du. Y mae hi tua hanner-awr-wedi-wyth. Yn union o'm blaen y mae'r orsaf,—Gorsaf *Lannion*. Mymryn go lew o fynd a dwad yno. Yna, wele gerbyd mawr yn rhedeg i mewn, a'i lond o bobl—ac un arall ar ei ôl. Holi'r gwas:—

—“Beth yw hyn, *garçon*?”

—“Yr ymwelwyr yn mynd yn ôl i Baris...ddoe a heddiw drwy'r dydd, yr un fath...cannoedd ar gannoedd yn heigio tua chartref...o *Berros*, *Ploumanach*, *Trégastel* a'r *Port Blanc*, &c.

\* \*

Cerbyd arall eto...ac un eto...ac eto...un arall o'r tu ôl...a thrachefn un...a dau...a thri...o *Drégastel*, *Perroz-Guirec*, *Penvenan*...*Ploumanach*. Disgyn yn lluoedd...ar sodlau ei gilydd...

—“Beth?...Na...nid ymwelwyr, *garçon*? Bechgyn o'r wlad yw'r rhain...ynte?”

—“Gwir iawn...milwyr yw'r rhain...wedi eu galw i fyny...ateb yr alwad. Rhai wedi mynd ddoe...eraill heddiw...yfory eto; rhai'n cael neges i'w cartrefi, eraill yn cael eu galw yn un fintai.”

Mae'n dechrau tywyllu...Deil y cerbydau i gyrraedd...cerdda'r bechgyn tua'r orsaf a phob un ag ysgrepan ddu ganddo yn ei law dde. Geilw rhai yn y *café* i gael diferyn gyda'u cyfeillion. Bechgyn cryfion o'r wlad...meibion a gweision ffermydd...gynnau'n gweithio ar y tir, holl oriau'r dydd. Mynd o'r fedel i'r frwydr. Llon—llawen—go uchel eu cloch gyda'i gilydd.

\* \*

Ar y dde imi, eistedd perchen y gwesty yn llewys ei gryd—a'i wraig—yn ddwys-fyfyrgar, heb ddweyd gair o'u pen...a'u breichiau ym mhleth,

—“Yr ych chi'n cofio dyddiau cynnar 1914?” ebr fi. “Tebyg i hyn oedd hi?”

—“Nage...mwy o frwdfrydedd yr adeg honno...dim brwdfrydedd yn awr...Mynd? Ydyn'... o'u bodd...ond am fod rhaid...Dim brwdfrydedd... y rhyfel diwethaf yn rhy agos...rhy fyw yn y cof.”

Y mae'r holl le'n ferw, a lleisiau'r bechgyn yn siarad â'i gilydd, yn ffarwelio â'i cyfeillion...



brodyr, chwiorydd, gwragedd—yn llenwi'r awyr. Y gwragedd...mor ifainc!—yn drist iawn, a rhai'n crïo'n wylofus. Eraill yn eu cysuro drwy ddweyd... "*il n'y aura pas de guerre!* ni bydd rhyfel!" Naws gwell! Crïo a wnant.

Naw o'r gloch. Bron a bod yn amser i'r trên fynd i ffwrdd...eleni y mae pob trên yma'n cadw ei amser i'r funud. Gorlawn—a'r lluoedd yn llenwi'r orsaf, i mewn ac allan...pobman. Cerdded drwy eu canol, ôl a blaen, gydag ymyl y trên. Y dorf megis un teulu—siarad trwy'i gilydd—gweiddi, annerch, galw, ateb, Llydaweg a Ffrangeg...Chwiban y trên...siffrwd o gamu oddi wrtho...coedwig o freichiau'n codi—môr o leisiau'n chwyddo i'r lan...*Kenavo! Kenavo! Au revoir!*

Wedi diflannu!—i'r pellter, i'r gwacter! A'r dorf mewn tipyn o syfrdandod. Ni phrysura i ffwrdd ar unwaith, ond dechrau ymddatod oddi wrth ei gilydd...yr hynaf tua thre, yr ieuainc tua'r ddau gaffé yn ymyl...y plant yn gwau drwy'i gilydd a rhwng pawb...y merched yn codi calonnau ei gilydd...a'u llygaid yn gochion, a'u crïo wedi boddi...Symudaf yn eu plith...cerddaf o'r tu allan i'r cwmnïau sydd bellach yn ymffurfio...ymlaen at y bont. Sŵn yr afon yn araf lonyddu—glas y coed wedi troi'n ddu...golau'r *Hôtel de France* yn diffodd yn y naill ystafell ar ôl y llall. Deuoedd a thrioedd...yn drymllyd...yn dianc yn ôl i'w tai. Lloer lawn, garüaidd—gwelais hi dros awr yn ôl...wybren las, lân...un cnu o gwmwl gwlanog, gwyn. Glas...a gwyn...mor brydferth! mor dyner! mor ymgeleddgar!

\*  
\*  
\*

Esgynnais i'm llofft i ymddihatru. O gaffé bach, rywle yng nghefn y dre, yr oedd sŵn gweiddi a chanu, gofid yn ceisio'i gladdu ei hun mewn gwin, a chwmmi a chân. Lleisiau wedi crygu, calonnau wedi rhwygo; a cherddi Llydaweg a Ffrangeg yn fy suo i gysgu fel pe baent hwiangerddi.

\*  
\*  
\*

*Dydd Sul, Awst 27.*

Bore brith-gymylog, a'r nos wedi llenwi llynnoedd bach o law ar y ffordd o flaen fy llety. Y gŵr eisoes yn llewys ei grys. 8-30: am y trê, i fynd tua *Morlaix*. Mintai fechan o fechgyn heddiw eto. Yn yr orsaf nesaf, dyfod rhagor i mewn—ac un wraig yn crïo'n ddolefus annisgrifiol. Ei hochenaïd yn llenwi'r awyr ac yn rhwygo calonnau—pobl yn fud! Cyrraedd *Plouaret*, a disgyn. Mwy o filwyr, rhai'n teithio tua Pharis, eraill tua *Brest*.

\* \* \*

Dwy awr gennyf i aros yma. Felly, cerdded tua'r pentref...yn araf bach, wrth fy mhwysau. Gair â hwn ac â'r llall, merched gan amlaf...ar y ffordd, ac yn ffenestri eu tai. Pob un braidd yn medru Llydaweg, eto'n siarad mwy o Ffrangeg â'i gilydd—hyd yn oed yn y pentre bach, gwledig hwn.

—“Llawer o filwyr wedi mynd oddi yma?”

—“Oes...amryw byd...dros gant eisoes...eraill wedi eu galw.”

—“Perthnasau i chwi?”

—“Ie! brawd...gŵr...dau frawd...mab...meibion!”

Yma yn rhywle yr oedd y bardd Llydewig, Nikol, yn byw.

—“Ydy' e yma?”

—“Na!...wedi marw...tua thri mis yn ôl!”

\* \* \*

Ymlaen...canol y pentref. Ar y dde, colofn i feirw'r Rhyfel *Diwethaf*...ar y chwith, colofn i Luzel, un o Lydawiad mawr y bedwaredd ganrif ar bymtheg, awdur llu o lyfrau—*Gwerziou Breiz-Izel; Soniou Breiz-Izel; Legendes Chrétiennes et Contes Populaires de la Basse-Bretagne, &c.* Eu henwau i gyd ar y maen...ond yn aneglur. Tu ôl iddo, yr Eglwys...hardd, a thŵr mirain. Esgyn grisiau, ac i mewn. Gwragedd wrth eu defosiwn; y clochydd yn glanhau. Prif ffenestri lliwus, tlyision, pulpud a phaentiadau arno; colofnau ysgeifn wythongl; bwrdd y brif allor o un maen—dolmen yn ddiau! Mor nodweddiadol o Lydaw! Cristioneiddio hen feini paganaidd o bob math—dolmen, maen-hir; adeiladu heb ddinistri, tynnu ei gwe allan o fol ei gorffennol. Llydaw am byth!

Yn ôl bob yn gam, a mwynhau tawelwch y pentref, diwydrwydd di-dor y pentrefwyr, gwedd hardd-drist y fro o boplys a helyg. Eistedd mewn *café* o flaen yr orsaf, a syllu ar osgo'r fforddion—milwyr mewn glas, gwragedd mewn du dan do o gapanau gwynion. Mor gynnes at ei gilydd, mor frawdol! I ddefnyddio gair o Sir Aberteifi, mor ffril-ffral!

11-30. Wela'r trê yn dod â'n dwg i *Forlaix*. Cyn pen yr hanner awr, dyna ni yno. Di-gynnwrf iawn. Ni welais erioed lai o bobl yn yr orsaf—nac oddi allan, rhyngom â'r *Hôtel Bosellec*. Tri cherbyd yn disgwyl gwaith cludo...yn ofer! Troelli gyda heolydd y dref ac i lawr i'r gwaelod—dan fwâu campus y bont odidog. Llawnder pobl—gwragedd o'r wlad bron i gyd—yn gwerthu eu nwyddau—wyau, ymenyn, ieir, afalau, a llu

o ffrwythau'r gerddi a'r perllannoedd. Llydaweg yw eu hiaith bob un—Llydaweg naturiol, cyfoethog, byw, a blas y tir arno!

Chwilio am fy nghyfaill, Gourvil, un o'm pennaf cyfeillion yn Llydaw i gyd—Llydawr gwych, ieithydd da, newyddiadurwr cyfarwydd, awdurdod ar ei iaith, ac ar bob modfedd o dir ei wlad, awdur amryw o lyfrau. Na! nid yw yma...ar ei wyliau yn Nhrégastel. Siom fawr—fawr iawn! Y mae newydd droi un o'r gloch, a minnau wedi bod yn mynd a cherdded arna i yn y gwres llethol. Mynd i *La Tour D'Argent* am ginio. Tynnu côt a bwyta...yn gampus! Darllen yr *Action Française*, Maurras yn dal i ddadlau yn erbyn rhyfel. Gadawer i Hitler gyhoeddi ei ryfel—os yw'n dewis. Ond na chymered Ffrainc na neb arall y cam cyntaf...mewn gair na gweithred. "I lawr â rhyfel!"

\*\*\*

Gorffen fy nghinio a mynd o'r neuadd ginio i'r *café*, yn yr un lle o hyd. Pwy a welaf ond dau neu dri chyfaill imi—M. Le Goz, o *Gemper*, a Darzal, sy'n athro coleg ym *Morlaix*. Eistedd—siarad—yfed coffi—cynnau sigaretau...hir o ymddiddan...am y sefyllfa...am Fudiadau Llydaw—Le Goz yn dweyd ei fod wedi hen laru arnynt hwy a'u hymrannu...a'u gelyniaethau...a'u gwenwyn at ei gilydd, &c. Beirniadu hwn a'r llall... Mordrel...ond yn enwedig Taldir; canmol Gourvil a Loeiz Herrieu. Darzal yn gofyn imi i ble'r awn nesaf? Ateb: *Rosco*. Pryd?...yfory...eisiau

gweld Gourvil. Fy nghymell i fynd gydag ef i *Locquirec*...“'rwy'n meddwl fod Lainé yno!”... O'r gorau. “Ond...beth am y gynhadledd flynyddol?”...“Na!...na!...wedi gorfod ei gohirio...siwr!” “O'r gorau!...Ond ddowch chi heibio'r orsaf?...mae fy ysgrepan i yno.”

\*\*\*

Daeth ei wraig ef â'i gyfaill yno. Mynd...at yr orsaf. I mewn â ni i gyrchu'r sgrepan. Ar fy nyfod allan...amnaid...a sibrwd...

—“Wel'di...un ohonom ni...rhwng dau blismon...a chyffion am ei ddwylo...deunaw oed!...Wedi bod o flaen ei well...ac yn ôl i'r carchar!...yn unig am roi dalennau'r *Breiz Atao* ar furiau... tri ohonom yng ngharchar yn awr!”

Iasau oerion...Ffiaidd!

\*\*\*

Ar y ffordd, sibrydion eraill...am y tri oedd mewn cadwynau. Y wlad yn dirion...pentrefi bach a mawr...yn drwyadl Lydewig...a di-gyffro. Haul ar flodau...ar dyrau'r eglwysi...ar fôr di-grych... Ond yr ias...y naws oer, ddieithr...yn aros.

\*\*\*

Cyrraedd *Locquirec*—pentref bychan o dai gwynion, gwasgarog, ar lan y môr. I'r tŷ, a Madame Darzal yn tywallt coffi i ni oll mewn bowlenni mawr. Eistedd o gwmpas y bwrdd... dal i sgwrsio. Darzal yn fachgen annwyl iawn, siaradus dros ben...llawn cynlluniau am ysgrifennu...ond clywodd sibrwd eisoes ei fod wedi ei alw... efallai mynd heno! Poeni? Dim! Dangos ei lyfrau...ar Lydaw...rhoi benthyc un imi dros y Sul...“A wyt ti'n ysgrifennu?”...Mynd i gwprdd—tynnu llyfr allan...bron yn llawn.

—“Beth ydyw?” “Hanes Morlaix.” “Wedi ei orffen?”

—“Na!...bron a bod...cyn diwedd y gwyliau hyn...efallai! Ond...dyna! 'rwyn gorfod mynd, wel'di.”

Dyna'r sibrwd...ond dim gair wedi cyrraedd i'r tŷ. Awn allan i gael gweld.

\*\*

Allan. At neuadd y pentref. Newydd? Dim. Hwn a hwn wedi ei alw heddiw...a hwn...a'ch brawd...a Hervé...a Le Bihan...a...a...! Bwhwman o gwmpas...i lawr at y porthladd bach. Plant yn chwarae'n ddyfal yn y môr, aml longau hwyliau.

—“Weli di honna!...y llong hwyl...fanna? Dyna hi!...ust!...isel...Pythefnos yn ôl...papurau'n dweyd bod llong...yn *Saint-Aubin*, *Jersey*...a blwch ynddi'n llawn...dalennau...yn erbyn i Lydaw ymladd dros y Pwyliaid...wedi eu hargraffu yn...yr Almaen, meddant hwy. Byth er hynny

y papurau'n ddistaw...dim gair...Ynglŷn â hyn y mae'r bachgen yna yng ngharchar...drwgdybio eraill...d'wn i ddim pwy...*Dyna'r Llong*!”

Cyd-eistedd ar fur y porthladd. Edrych ar y plant yn chwarae, ar y llongau llonydd a'r un llong ag “ystyr hud” iddi. Cylch bach o longwyr yn eistedd yn y cysgod; merched ac ychydig ddynion yn cerdded yn drymion yn y gwres. Pob un â'i stori. Wele wraig fach lon, ifanc—newydd droi ugain oed...a llygaid brithion ganddi. Dyfod at ein cwmni ni. Fy nghyflwyno iddi—“Madame Geffroy.”

—“Myfi oedd i alw amdanoch chi, i'ch dwyn i'n cynhadledd...ond cefais air heddiw na ellid ei chynnal.”

Adrodd ei helyntion: y plismyn wedi bod yn ei thŷ...yn chwilio a chwalu popeth...Onid oedd hi wedi gwerthu *Breiz Atao*? A wyddai hi rywbeth am y llong? Ei bygwth...f'ei rhoent yng ngharchar. Am beth? Dim prawf o ddim yn fy erbyn...O'r diwedd, phonio ohonynt i Morlaix. Ateb oddi yno nad oedd ganddynt amser i ymboeni â'r fath helynt...Tafu papurau i'w hwyneb...a'i gadael!

\*\*

Adrodd ei stori'n frysiog, heb ystumiau, a heb awgrymu bod dim yn arwrol yn ei phrofiad. Arwres, er hynny, dawel a di-ymffrost. Gwahoddodd fi i'w thŷ—i weld ei gŵr...ac un arall...y gŵr a enwir bob amser mewn sibrwd...Lainé. A oeddynt yno?...Na!...*en route*, “ar gered,”



ar daith...yn ôl wedi canol nos...efallai.

—“Diolch yn fawr...ond yr wyf wedi cymryd ystafell yn yr *Hotél des Bains* am heno. A fydd modd imi weld eich gŵr yfory?”...

—“Efallai.”

\*\*\*

*Pump o'r gloch.* Dechrau dygyfor o'r bobl. Y *gendarme* sy'n dod...a phapurau'r Llywodraeth ganddo...gwynion mawr...tri ohonynt. Dyma'u gosod i fyny ar y mur. Tyrru o'u cwmpas. Galwant y dosbarthiadau 1 : 5 : 6...heno!

Yngom fywiocach na chynt...“Dyna ni'n gwybod yn awr...fi...tithau...a'ch brawd...a...a”...Deffrôdd y lle bach o'i gysgadrwydd hir brynhawn ar unwaith ... tafodau'n rhyddach ... y symudiadau'n gyflymach...y siarad yn uwch...un frawdoliaeth. Neb yn drist...neb yn poeni...neb rhwng dau feddwl...neb yn ymfrostio. Derbyn y dynged...heb amau dim. Yr oedd fy nghyfaill, Darzal, yn dyfod yn naturiol dan un o'r dosbarthiadau a elwid mor ddi-gyngor. Ni pheidiodd ei wyneb llyfngrwn â dwyn gwên ei ddau lygad chwareus. Ei wraig yn ei ymyl...heb newid dim o'i gwedd hithau.

—“Pryd ei di?” Meddai hi.

—“Gyda'r trên wyth...i gyrraedd *Brest* heno.”

—“Gwell imi fynd i'r tŷ...i baratoi...a gwneud swper.”

Minnau : “Sut wyt ti'n teimlo?”

—“O !...yn iawn...rhaid imi fynd...fel pawb arall...d'oes dim dau ddewis gen i...Heblaw...”

efallai y byddwn ni'n ôl...mewn wythnos...neu ddwy.”

—“Gefaist ti dy alw ym mis Medi llynedd?”

—“Naddo !...na ! mae mwy wedi eu galw y tro yma...eisoës. Mae pethau wedi mynd ym mhellach na llynedd...ac efallai y daw'r *Alwad Gyffredinol, Mobilisation Generale*. 'Cha'i ddim gorffen fy ngwaith yn awr !...Trueni hynny...” Gyda'n gilydd yn ôl at ei dŷ. Ysgwyd llaw...  
*Kenavo !...Kenavo ar c'henta !*

Cyn pen yr awr byddai wedi mynd !

\*\*\*

I'm gwesty...mawr, braf...digon o le i ddau gant...ond dim ond rhyw ugain sydd yma,—merched a phlant a gwragedd gan amlaf. Wedi swpera, pawb yn gwrando'r newyddion yn astud. Daladier wedi danfon neges at Hitler...gobaith. “*Non !...il n y aura pas de guerre !*” Amhosibl yng nghanol yr ugeinfed ganrif ! Dyma'r gred gyffredin yma.

\*\*\*

*Dydd Sul, Awst 27.*

Codi'n fore, a gwneud tipyn o waith cyn disgyn am fy mhryd bore. Sŵn y mor oddi allan i'm ffenestr, haul ar gynnydd melyn yn cynhesu fy ystafell a'm dillad sydd yn hongian ar y muriau. Gorffen...ac i lawr.

—“Bore da, *Mademoiselle*. A alla'i gael fy nghoffi allan...mae mor braf?”

Symud un o'r byrddau bach o ganol y lawnt helaeth, a'i osod wrth ymyl y drws. Lle perffaith...môr, haul, pinwydd...cefn yr Eglwys yn y golwg. Madame a'r ferch yn mynd i Offeren wyth o'r gloch...ac eraill ar eu holau—y rhai canol oed. Merched ieuainc yn dechrau codi allan...at ymyl y môr...eu cefnau a'u coesau'n noethion; lluniaidd iawn, yn enwedig un. Gwallt melyn ganddi...a'i gwddf a'i chefn, ei breichiau a'i choesau o'r un lliw. “A'i plisg y gneuen wisgi?” Campwaith y cnawd!

\* \* \*

Papur? Na: ni ddaw'r *Action Française* yma. Y *L'Ouest d'Éclair*, os mynnwch! Agor...dim newid er ddoe...sefyll bawb yn yr unfan...a Heddwch rhwng y cŵn a'r brain. Cynnig—a gwrthgynnig, dyna'r cwbl. Codi, a mynd allan hyd lonydd bach cul, a'r cloddiau'n esgyn yn uwch na'm pen. I ben' y clawdd: golwg lân ar dai gwynion, yn nythu wrth benrhyn, ar binwydd yn cuddio'r môr rhwng eu dail; a'r bentrefi aml yn y pellter. Yn ôl tua'r pentref. Y gloch yn galw

i Offeren deg o'r gloch. I'r Eglwys—hynod lawn...merched yn amlach na neb. Un plentyn yn crío dros y lle, er difyrrwch i fechgyn bach rhyw wyth a deg oed. Ei fam yn mynd ag ef allan. Cyn bo hir, allan â minnau, ac i'm hystafell hyd amser cinio.

\* \* \*

Wedi cinio, yr oeddwn yn disgwyl M Geffroy a'i gyfaill, ac felly nid euthum allan. Dau lyfr gennyf i'w darllen: *Vingt Ans D'Europ (1919—1939)* gan Charles D' Ydewalie, a *Histoire de la Bretagne avant le 13 Siècle* gan A Chaboseau. Y cyntaf yn odiaeth o dda...gan newyddiadurwr o Felgiad. Hanes cyffrous, disgrifiadau byw o bersonau a digwyddiadau a welodd. Safbwynt Cristion a Phabydd...a gŵr wedi ei gynysgaeddu â'r clasuron. O ganlyniad, gwir gyfraniad i Hanes Ewrop heddiw—a dehongliad cywir o'r sefyllfa bresennol. Fel hyn yr ysgrifennai Jacques Bainville, pe byddai byw heddiw, druan—ac yntau wedi rhagweld cymaint o'r drygau a ddisgynnodd ar Ewrop. Mor hawdd fuasai arbed y cwbl...mewn iawn bryd! Gorffen y llyfr...gan imi ddarllen pennod ohono bron bob dydd wedi ei brynu ym Mharis. Y llyfr arall heb fod cystal...o dipyn. Nid enillodd fy ymddiried...ond darllen y rhan fwyaf ohono.

\* \* \*

Troi allan. Beth am Geffroy? Dim sôn amdano. Gweld y forwyn—a wyddai hi rywbeth? Gwyddai...ef a Lainé wedi mynd yn y cerbyd.. i...ni wyddai i ble...*en route!* Diau nad oedd hi i wybod i ble.

—“Dywedwch wrthynt y bydda'i 'n mynd oddi yma fore 'fory.”

\* \*

Y dydd yn llusgo'n araf. Wedi swper, mynd i glywed canu'r gosberau...yr Eglwys yn rhyw hanner llawn...y canu'n llaesu poen y meddwl... y goleuadau'n dyner i lygad. Tangnefeddus! Cerdded at lan y môr...at y porthladd...ôl a blaen...blaen ac ôl—am oriau! Mor arddunol! Lleud naw nos olau—gannaid, gyflawn...ffurfafen las ac afrifed sêr yn ei cherdded...Môr llonydd yn ymbellhau, mân donnau'n mynd yn grychion, crychion mân yn fanach, crychion manach yn ddiferynnau'n ymgolli yn y graean, ac yn diflannu. Llongau bach, “ystyr hud” neu beidio, yn colli eu gwely dyfrllyd, yn glynu'r orweiddiog wrth y tywod, a'u hwylbrenni ar wŷr tua'r wybren. Trigolion ac ymwelwyr yn methu blino ar gerdded a syn-ysbio, a synhwyro rhyfeddodau'r greadigaeth. Felly, yn hwyr oediog y caeodd nos olau am gartrefi dwys—dawel, am y gwestai hanner gweigion, yn *Locquirec—y nos Sul olaf mewn Heddwch!*

\* \*

*Dydd Llen, Awst 28.*

Wedi bod yn y môr yn ymdrochi, a gwisgo, a disgyn. O flaen y gwesty, eisteddaf wrth y bwrdd bach i fwyta'r pryd cyntaf, o goffi a bara ac ymenyn.

Dacw'r *gendarme*—y plismon—yn dod. A i mewn i'r gwesty yna daw allan...ac ataf i. Beth a fyn?

—“Bore da!”

—“Ga'i weld eich Trwydded chi?”

—“Cewch...ond ei bod i fyny yn fy ystafell...”

Cynnig mynd i'w mofyn.

—“Na!—dim eisiau...os oes rhyw bapur arall gennych.”

—“Dyma'r *Carte de Voyage*...wna hwn y tro?”

—“Gwna!...ga'i edrych e?”

—“A chroeso!”

—“Beth yw rhif eich Trwydded chi?”

—“Dyma fo: 321982.”

\* \*

—“Sais ydych chi?”

—“Nage! Cymro.”

—“Cymro?...A! 'R'ych chi'n deall Llydaweg felly?...Y ddwy iaith yn debyg, medden' nhw.”

—“Ydyn'...fel dwy chwaer...a llawer o eiriau yr un fath yn union: tad, mam, tân, chwaer, &c.”

—“Ydych chi'n 'nabod rhywrai yn Llydaw?”

—“Ambell un...Gourvil, er enghraifft—y canwr.”

—“Rhywun arall”?...

—“Vallée...Taldir...ac yn y blaen.”

—“Wyddoch chi rywbeth am y Mudiad Cenedlaethol?”

—“Gwn—debyg iawn!”

—“Ydych chi'n 'nabod rhai ohonyn' nhw?”

—“Rwy'n meddwl mod i...wedi cwrdd â rhai ohonyn' nhw...Mordrel...Brieler...Debauvais.”

—“O?...felly...!”

Yr oedd yn bur amheus ohonof erbyn hyn. Daliai i droi'r *Carte de Voyage* yn anesmwyth yn ei ddwy law...heb symud oddi wrthyf.

—“D'ych chi ddim yn fodlon, gallwn feddwl? Mi af i 'mofyn y Drwydded.”

Mynd, a dod â hi.

—“Diolch.”

—“Ydych chi'n fodlon yn awr?”

—“Wel...ydw'...am wn i...Diolch. Bore da.”

Aeth i ffwrdd, ond mi wn nad oedd ei feddwl yn dawel. Beth pe gwyddai ble'r awn i cyn pen ychydig funudau?

\*\*\*

Llai na phum munud wedi iddo fynd ymaith, pwy ddaeth i mewn yn ei cherbyd...ond Madame Geffroy!

—“Welsoch chi'r *gendarme*?”

—“Do...newydd fod yn fy holi i.”

—“Mae un ohonyn' nhw'n galw gyda ni bob dydd,” meddai hi yn hollol ddidaro.

—“Ddewch chi i'n tŷ ni'n awr? Mae M. Geffroy a Lainé eisiau'ch gweld...Fuon 'nhw ffwrdd ddoe, *en route*, a'r bore 'ma y daethant yn ôl.”

Esgyn i'r cerbyd a mynd.

—“Mae'r *gendarme* wrth y Llythyrdy...ni awn ni ffordd arall.”

Gadael y pentref ar hyd ffordd *Morlaix*, troi ar y dde, dilyn ffordd gul a throfaog iawn—a dyna ni wrth dŷ ar ei ben ei hun. I lawr, ac i'r tŷ.

\*\*\*

M. Geffroy!...bachgen ieuanc, cydnerth, go dawedog, tua chwech-ar-hugain oed...cadw tyddyn bach...a llawer o iëir.

—“Wedi'ch cwrdd o'r blaen,” meddai...“ym Mhlougastel!”

—“Cofiaf yn awr...ddwy flynedd yn ôl...ond 'chefais i mo 'ch enw chi'r adeg honno...cwrdd ar ddamwain...yng nghanol y torfeydd.”

—“Fe fuoch chwithau yng *Ngharchar*?...*Rennes*?”

—“Do! bedwar mis!”

—“Amser caled?”

—“Ie, caled...mewn cell fechan...cymaint â hyn (dangos â'i ddwy law ryw ddwy lath sgwâr)... Dim gwaith...bwyd sâl—dau bryd y dydd, cawl tenau y bore...cig a bara caled am bump yr hwyr...Mynd o'r gell am hanner awr y dydd... gweld neb, mwgwd am eich llygaid. Lainé yno hefyd...a thrwy ryw ffordd...deuthum i wybod hynny—a gallu danfon ambell neges at ein gilydd tua'r diwedd. Cawn ysgrifennu dau lythyr bob wythnos...ond ni chawn weld neb...ag eithrio'r wraig...rhy bell iddi hi ddod.”

\*\*\*



Ar hyn daeth Madame Geffroy atom. Clywsai fod plismon ar y ffordd yno. I beth? Ynglŷn â'r *Breiz Atao*? I gymryd gafael yn y cerbyd modur? I wysio'r gŵr i'r fyddin?

—“Gwell iti fynd allan i'r ardd...dywedaf nad wyt ti ddim yma...Beth am guddio'r cerbyd?”

Aethom allan...i'r ardd...i'r cae. Cannoedd o feir yno.

—“Gennyf i y mae'r cae 'gwenith du' yna hefyd ...pe cawn i arian, fe brynwn ragor o dir. Prin ddigon ar hyn o bryd...”

—“A effeithiodd y carchar ar eich iechyd chi?”

—“Naddo ... cynefino â'r caledi ... efallai am ychydig wedi dod allan...dim mwy.”

—“A ydyw hynny yn eich erbyn wrth brynu a gwerthu?”

—“Dim o gwbl! I'r gwrthwyneb! Y bobl yn gefnogol iawn.”

Segur symud o gwmpas—taflu golwg ar yr feir...ar y cae gwenith...ar y *Menez-Bré* a welem yn eglur... Geffroy'n gweld wyau dan eithin...yn y dâs...a'u rhoi i'w blentyn eu dwyn tua'r tŷ.

Nid ymddangosodd y cyfaill arall—Lainé hyd yn hyn.

—“Lle mae e?”

—“Mi ddaw...yn codi...ar y bore arnom yn dod yn ôl o... Dinard. Taith go bell!...”

Mae'r haul yn llosgi...d'oes neb yna...awn i'r tŷ. Eistedd...dangos llyfrau...casgliad go lew; yn eu plith, *La Conspiration de Cadoudal*.

—“Welsoch chi hwnna?”

—“Nadda...”

—“Cymerwch e...”

—“Diolch yn fawr.”

—“Llawen gennyf ei roi...fy anrheg olaf efallai.”

Lainé! Dyfod o rywle a brechdan yn ei law. Bachgen go dal, main: pryd tywyll a llygaid llwyd, a gwên fach annwyl yn cyniwair ynddynt yn gyson. Wyneb lluniaidd, cryf yn lledu i fyny at y talcen. Hwnnw'n weddol llydan ac uchel, a gwallt du wedi ei gribon' ôl yn do. Tua 32 oed, hamddenol, hunan feddiannol, llawn myfyr ac antur—capan du—y *beret* Ffrengig—am ei ben. Siarad yn esmwyth, yn dawel a di-ymdrech, a phibell dew, goesfer yn ei geg. Dim cais i'ch synnu â huawdledd fel Mordrel; ond synnwch yr un pryd—at y llif meddyliau yn dilyn ei gilydd mewn ymresymiad hir, oer, di-freg a di-gynnwrf. A'i argyhoeddiad caled!—bu yng ngharchar ddwy waith eioes, ac fe ai yfory eto dan ganu, neu'n hytrach heb yngan gair o'i ben. A'i lid a'i gas tuag at Ffrainc! Hynny'n amlwg nid yn ei ysgog, nid ar ei wyneb—y mae'r wên dirionaf erioed ganddo'n wastadol...ond yn ei gyalluniau, ei feddyliau, ei fwriadau. Daw o dref fawr *Brest*, yno y cafodd ei addysg—addysg wyddonol—a'i choroni gyda phedair neu bum mlynedd ym Mharis. Yna disgybliaeth y fyddin Ffrengig, a phrofiad o weithio mewn ffatrioedd... Bellach... ei waith yn unig yw rhoddi haearn a dur yng nghalonau ei gyfeillion o'r Mudiad yn Llydaw. A'u disgyblu'n finteioedd o filwyr? Efallai...? Ni wn...ac ni chaf i...na neb...wybod y cwbl.

\*\*\*

Yr ydym wedi dechrau ein hymddiddan. Dau gyfaill arall yn yr ystafall erbyn hyn...yn darllen

papurau'r dydd. Yn ddisymwth, un o'r ddau'n galw ein sylw, ac yn darllen allan: "Papur Llydewig...*Breiz Atao*...yn perthyn i Genedl-aetholwyr Llydaw...wedi ei gondemnio i ddisflannu ddoe!"

—“Y rhifyn diwethaf wedi ymddangos... echdoe!” meddai un. Pecyn ohonynt yn y tŷ, a phob un ohonom yn gofalu am ei gopi...yr olaf a fyddai...byth?...efallai?

—“Gwell iti guddio'r gweddill i gyd” meddai Geffroy wrth ei wraig.

—“Ym mhle?...ple?...dywed ple?”

—“Yng nghanol y cae gwenith” meddai un.

—“Na!...ma' nhw wedi bod yn chwilio hwnnw o'r blaen”

—“Rhyw dwll...ar y llofft...yn y clawdd—rhywle!”

Aeth y wraig fach ddewr i ffwrdd...a chafodd afael ar le...ni wn ym mhle...ac aeth ymlaen i baratoi cinio.

Yr ystafell yn dawel unwaith eto...dau'n plygu uwchben y papurau... Lainé a minnau'n siarad. Medd ef:

—“*Ni bydd rhyfel!* Dyna un peth s'yn sicr.”

—“Ond pam yr ych chi a Mordrel a Debauvais yn dweyd hyn?”

—“Yn gyntaf, am y gwyddom y neidia Hitler ar Boland un o'r dyddiau nesaf...a bydd un wythnos yn ddigon iddo'i gorffen hi. Yn ail, ni ddaw Ffrainc na Lloegr allan. Yr ydym ni mor siwr o hynny ag o'r gosodiad cyntaf.”

—“*Ni...? Sef...Hitler?* Dyna'i dyb ef...onide? Camgymeriad ofnadwy...dyna a'i harweinia dros y dibyn.”

—“Na!...Fe wyddom ni na symuda Ffrainc... mwy nag ym Medi diwethaf...sieryd yn bert... a dyna'r cwbl.”

—“Choeliwch chi ddim ohonof i, mi wn. Yr un pryd...y mae'r sefyllfa'n gwbl wahanol...a Ffrainc a Lloegr...o'r diwedd...nid yn *hollo* barod...ond yn *ddigon* parod.”

—“O'r gorau...cymerwn hynny. Beth a olyga? Ffrainc yn gorfod ymladd yn y Gogledd, Dwyrain, De-Ddwyrain, De...dim gobaith ganddi! Fe'i llethid. D'yw hi ddim yn barod...d'oes ganddi hi ddim dillad i'r milwyr.”

—“Nid felly! Bydd Sbaen yn llonydd...digon o waith arall gan Franco, yn nes adre. Yr Eidal? Ansicr iawn...ond fe gofiwch be wnaeth hi yn 1914. Felly, eich cyfrif chi'n anghywir, i'm tyb i. Gan hynny...??

—“Na!...amhosibl ein bod ni'n anghywir. Credwn ni'n sicr na bydd rhyfel...y tro hwn. Beth a wnawn ni? Mynd...yn ddistaw bach, pan elwir arnom—bob un. Yfory, efallai, y gelwir fi... Mordrel, Debauvais, Brieler. Awn...down yn ôl...toc...heb ryfel. *Ni ddaeth ein hawr ni eto.* Fe'i disgwyliwn...fe ddaw!”

—“Ac wedyn?”

—“Aros dwy flynedd...neu dair. Dyna'r adeg! Daw'r rhyfel yr adeg honno. Fe drecha'r Almaen Ffrainc...a Lloegr...Goresgyn Alsas...ac ymlaen...hyd Baris...a thu hwnt. Fe ddryllia Ffrainc a'i gadael yn wlad fechan, wan... gweddill bach, heb Baris na'r Gogledd...Bydd ar yr Almaen eisiau cyfeillion...cynghreiriaid...a dyna'r lle y down ni i mewn. Llydaw fydd un o'r rheini. Bydd gennym ein hannibyniaeth...o'r diwedd.”

Ni welais y fath bendantrwydd sicr ohono'i hun erioed...na'r fath ddadlau araf, oer, yn fy myw. Ac eto, ni chaledodd na'i lais na'i lygaid. Gwyrth o hunan-feddiant tawel! Fel hyn yr ysgrifennai Machiaveli...y cynlluniai Richelieu! Ar ddydd o haul cras-boeth, ni themlais erioed gyn oered!

Ymlaen. Dadlau yn ei erbyn:

—“Dyma'ch gobaith...ac fe gymerwch eich gobaith fel ffeithiau...eisioes wedi eu sicrhau. Y mae ochr arall. Beth os na ennill yr Almaen?”

—“Fedrwn ni ddim *ystyried* hynny. 'Wnawn ni ddim cymaint â dychmygu'r fath beth. Heblaw...amhosibl!”

—“Camgymeriad arall! Mewn gwliedyddiaeth, rhaid wynebu *pob* agwedd ar bwnc...*pob* posibilrwydd...*pob* cysgod ohono.”

—“I ni, y mae hynny'n llwyr allan o'r cwestiwn. Nid yw'n ddim ond rhyw greadigaeth y meddwl...twyll ddychymyg,—gwâg ystyriaeth, a gwast-raff amser. Ni allwn am funud ystyried y fath bosibilrwydd. Y mae gennym sicrwydd perffaith!”

—“Sicrwydd...oes! Gormod ohono...ond nid sicrwydd mewn gwybodaeth...ni all fod *sicrwydd* am y dyfodol.”

—“Dyna lle'r ym ni'n gwahaniaethu...Beth bynnag...ein gelyn ni yw Ffrainc...a'n dyletswydd yw ymuno â'r Almaen.”

—“Cytunaf...â'r gosodiad cyntaf...ond *nid* â'r ail. Câs gennyf y modd y trinia Ffrainc chi—cywilyddiaf o'i blegid. Ond wedi'r cyfan...a maddeuwch hyn...Ffrainc yw cartref gwareiddiad y Gorllewin, er gwaethaf y cwbl...Am yr Almaen

...imi hi yw *la barbarie*. Ar y pwnc hwn, yr wyf yn gorfod anghytuno â'm cyfeillion yng Nghymru...Ond...yn nesaf...caniatewch fod yr Almaen yn trechu Ffrainc...yn ôl eich gobaith chi...beth am Lydaw? Ydych chi'n meddwl y caech chi lonydd ganddi?”

—“Bydd eisiau Llydaw arni...bydd yn rhaid iddi wrthym. Nyni fydd un o'r cyfeillion y bydd yn dda o hyd iddi eu cael.”

—“Ac fe gredwch y parcha eich annibyniaeth chi—eich iaith...? Unwaith eto, dywedaf fod eich cyfrif a'ch dadl yn methu...Am ysbaid byr, efallai y gwnei hi hyn oll...am ennyd bach, megis gyda'r Tseciaid...yna fe' ch dinistriai—eich gwlad, eich iaith...”

—“Fe gawn ni weld am hynny...pan ddêl... os daw...Hyd yn oed wedyn, gwell fuasai inni orfodi Almaeneg arnom na Ffrangeg. Mi welai'r Llydawiaid mai pethau damweiniol, cyfnewidiol, ydyw Ffrangeg ac Almaeneg—; ac mai Llydaweg...Llydaw...Llydawiaid...yw'r unig bethau o erys...a saif...sy'n hanfodol.”

\*\*\*

Bellach yr oedd hi'n tynnu 'mlaen at hanner dydd, ac yr oeddwn innau am gael un olwg ar Eglwys *Lanmeur*, a'r guddgell—*crypte*—Rufeinig sydd dani. Yr oedd M Geffroy'n fwy na pharod i'm hebrwng yno yn ei gerbyd—rhyw bedair milltir o daith. Deuai Lainé hefyd...ac eisteddodd ef a minnau o'r tu ôl. Adrodd peth o hanes ei garcharu...ddwywaith...

—“Caled iawn,” meddai. “Ond gorau oll yw hynny. Fe'n caleda ninnau...ennyn ynom gâs at Ffrainc...fel na bydd '*solution de compromis*'—cymrodedd...yn bosibl...Ers dwy flynedd, y mae rhywun neu rywrai ohonom o hyd yng ngharchar. Y mae'n beth da...da iawn...fel y gwelwn ni. Dyry esiampl i'r Llydawiaid...esiampl rhai'n dioddef er eu mwyn...er mwyn eu gwlad... Fe ddeallan'...Fe ddeffrôn'!”

—“Pam na wnewch chi bethau eraill—cynnal cyfarfodydd, darbwylo 'ch pobl drwy eu hannerch, ennill seddau er gynghorau, &c., &c., yn lle ymddiried yn *unig* mewn milwriaeth...yn ninistr Ffrainc, a buddugoliaeth Hitler?”

—“'Chawn ni *ddim* gan Ffrainc... gwrthyd bopeth inni!”

—“Faint o ymdrech a wnaethoch chi? Dim llawer iawn, dim digon, beth bynnag... dim dyfalharhau. Llawer ergyd a dyrr y garreg, medd dihareb Gymraeg. A llawer *math* o ergyd...a llawer dull o ennill...llawer! Mi ofynnais i unwaith i Charles Maurras—y mae Mordrel a Bricler yn gwybod hynny—beth oedd ei farn ef am agwedd y Weriniaeth tuag at Lydaw a Llydaweg a pha beth a addawai ef? A dywedodd... 'ynfyd! Dan frenin, buasai Llydaw unwaith eto'n dalaith—'*nation*'...a dysgid ei hiaith.”

—“Geiriau teg! Siarad pert! Ni thwyllir ni felly!

—“Efallai!—ni ddylid eu llyncu...Yr un pryd, egyr ichi un drws...un dull o ddadlau...Y mae eraill...cant a mil ohonynt!”

\*\*\*

Wele dre fechan *Lanmeur*, a'i thai gwynion, a'i heglwys gymharol newydd. Disgyn wrth borth yr eglwys, a mynd i mewn. Sylwaf nad estyn yr un o'm cyfeillion ei fys i'r dŵr swyn, ac nid ymgroesant. Eglwys lanwaith, ond heb y cywreinrwydd a berthyn i eglwysi Llydaw'n gyffredin. Ple mae'r gudd-gell? Cyrchu at yr allor...ar y chwith, dyma risiau'n disgyn. Tua'r gell? Ie. Lainé a ninnau'n disgyn. Drws haearn wedi ei gau. Goleuo...gweld y bwâu... Rhufeinig, henafol, llaith.

\*\*\*

Allan. Y mae'r cyfeillion yn barod i'm hebrwng ymhellach—i *St. Jean du Doigt*. Canys yno caf gerbyd i'm cludo tua *Morlaix*. Yn y cerbyd, gofyn i Lainé onid oedd ef yn Babydd?

“Na!...nid Pabydd...na Christian! 'D'allwn ni ddim bod yn Gristnogion. Ni wedda hi ddim i ni. Cristionogaeth yn gwanhau dynion...yn eu dysgu i ymostwng. Ni fynwn ninnau ymostwng. Rhaid inni wrth grefydd rhyfelgar, arwrol. Awn yn ôl at grefydd y Celtiaid hen. Credwn mewn Duw—Duw Hollalluog, Holl-bresennol, sy'n bod ym mhopeth, drwy'r holl greadigaeth, &c. ...mewn da a...drwg, hardd a hyll, gwynt a glaw, ...heddwch a rhyfel—rhyfel yn enwedig. Popeth yn gyfwerth. Nid yw heddwch yn well na rhyfel...na rhyfel na heddwch...Dibynna ar amgylchiadau. Duw rhyfelgar i ni! Gwelwn ni Dduw ym mhopeth...ynom ninnau—a ninnau ynddo yntau.” Yr un grefydd ag a ganmolai Mordrel! Ond,



gymaint mwy o argyhoeddiad angerddol! Gallwn gymryd datganiadau Mordrel yn hanner ysgafn, oblegid siarad a gwau damcaniaethau yw ei hoffter ...erioed, geiriau a meddylddrychau yw ei fara beunyddiol. Eithr nid felly Lainé. Cyn imi gael nemor gyfle i'w groesholi, yr oeddym wedi mynd ar ein pennau i'r ddôl fechan honno a ffurfir gan boplys a helyg, llwybrau culion a dŵr yn rhedeg, —y ddôl a brydferthir gan eglwys enwog *Saint-Jean-du-Doigt*. Y mae'r eglwys honno, gyda'i thrysorau eraill o ysgyrndai a ffynhonnell, o byrth a thŵr, yn un o ogoniannau Llydaw. Aethom i'r fynwent, a sylwi ar gamp y ffynnon, y capel, y tŵr, yr esgyrndy, ac yna i'r eglwys ei hun. Mi led-dybiaf i nad yw'r cwbl oll yn ddim ond afradlonedd...ar grefydd na thâl hi ddim...ym meddwl fy nghyfeillion. Os na chyfyd hi falchter ynddynt, oherwydd gweled y ddawn a fedd eu cenedl i adeiladu...i addurno...i berffeithio. Y peth a ganmolant fwyaf ydyw y *syniad* o esgyrndy ...y syniad o godi esgyrn y meirw, a'u rhoddi o'r neilltu, i'r byw gael eu gweld...gael teimlo eu bod yn un...yn rhan o'r un treigliad...diddiwedd. "Rhaid atgyfodi'r syniad" meddai Lainé.

\*\*

Y mae o fewn y dim â bod yn un o'r gloch. Dychwel fy nghyfeillion yn ôl tua *Locquirec*. Arhosaf innau yn *Sant Jean*...am ddwy awr, nes daw cerbyd *Morlaix* heibio. Dyma'r *Hôtel Saint Jean* yn union wrth ymyl. Ciniawaf yma. Dyfod

y forwyn...a dechrau hulo'r bwrdd. Ni welaf neb arall yma—neb! Gwelais y lle hwn yn orlawn gan ymwelwyr. Heddiw—dim un! Ciniawaf ar fy mhen fy hun. Erys profiadau'r bore gennyf ...yn gynnes...ac yn oer. Ail-adroddaf resymeg Lainé. Cofiaf rai o'r brawddegau... "yr anrheg olaf!"... "Ni ddaeth ein hawr ni eto!"... "ennyn câs at Ffrainc...ei darnio!"

Onid yw'r bechgyn hyn wedi cerdded ymhell... bell, er pan arferwn i gyd-weithio â hwy? A adwaen i...eu ffordd hwy...bellach?

\*\*

Wedi yfed coffi, bhwman o gwmpas. Drachefn i'r fynwent...ac edmygu'r personau ar y ffynnon yn hamddenol—Duw Dad oddi uchod yn edrych i lawr ar Ioan yn bedyddio'r Crist, a'r dŵr yn rhedeg dros ei wyneb, o enau angylion bychain. Mor gyfrwys! Allan am dro bach...i ben y rhiw sy'n codi tua'r môr. Yn ôl ac i swyddfa'r cerbyd. Siarad â'r ferch...na! y wraig ydyw!—mae'n ddwy ar hugain oed, a phlentyn dwy flwydd ganddi.

—“Llydawes? “Wrth gwrs”! “Medru Llydaweg?”

—“Debyg iawn!”

—“Llydaweg a siaredwch â'ch gŵr?”

—“Nage! Ffrangeg!”

—“Ac â'r plentyn bach?”

—“Ffrangeg hefyd!”

—“Rhyfedd iawn! Pam nad Llydaweg?”

—“Mae e'n rhy ifanc i siarad Llydaweg ag ef eto !...Fe ddysg Lydaweg...wedi tyfu i fyny !!”

\* \* \*

Tri o'r gloch. Dacw'r cerbyd...braidd yn llawn...pob ffenestr yn gaead! Ac y mae'n llethol o boeth !...Ond taith fer...heibio gweithwyr y meysydd, yn rhwymo ŷd, yn cywain gwenith a llin; ac ambell ferch a gwraig yn bugeilio buwch neu ddwy—golygfa gyffredin yn Llydaw.

\* \* \*

*Morlaix.* Tair awr i aros yma. Af i ofyn a oes llythyr imi. Oes—llythyr oddi cartref. Rhywbeth arall?...Teligram oddi wrth fy ngwraig...am imi fynd adre ar unwaith! “*Y sefyllfa'n ddifrifol!*” Y llythyr wedi ei ysgrifennu Ddydd Mercher, a'r teligram Ddydd Gwener. Mynd adre? Amhosibl! Heb orffen fy ngwaith yn Llydaw eto. Dyma fi ym *Morlaix*—a heb weld Gourvil eto, a heb fod yn y De! Af i'w geisio. Na!...ar ei wyliau o hyd. Beth am bapur? Maent newydd gyrraedd o Baris. “*L'Action Française?*...Wele.” Ei agor...yr argen fawr!...yr hanner tudalen gyntaf yn wen...ysgrif Maurras i gyd bron wedi ei dileu! ac un gair mawr ar draws

(CENSURE).

Maurras o bawb!...Pa arwydd yw hyn? Nid da...gan ei fod ef wedi dal i ddadlau dros hed-

wch. Teimlo'n anesmwyth. Gair i'm gwraig...i'w sicrhau bod popeth yn iawn...Ac yna i *Roscoff*. Cael trên am 6-17, a chyrraedd yno cyn saith. Ar y ffordd o'r orsaf i'r gwesty, gweld dau neu dri yn gwrando'r newyddion. Pa newydd? “Dim!...yr un fath...r'un fath o hyd.”

Nesu at y gwesty...*Hôtel Talabardon*. Y wraig foch-goch ar ben y drws, yn fy adnabod, a chyfarach gwell. Yn nesaf, dyfod ei gŵr, o ganol gweini'r cinio. Gofyniad cyntaf—

—“Beth am y digwyddiadau?...Eithaf drwg, ynte? Be ddaw ohoni?...y bechgyn wedi mynd oddi yma...a'r ymwelwyr...Cant-a-hanner o fechgyn yn mynd o *Blouguerneau*<sup>(1)</sup> y dydd o'r blaen, dan ganu'r *Marseillaise!*”

\* \* \*

Wedi esgyn i'm llofft, ac ymolchi ar gyfer swper, deuthum i lawr...ac i'r ystafell ginio. Arferai fod yn llawn. Heno, prin ddwsin ar y gorau, gwragedd a phlant yn bennaf. Cinio gwych, yn ôl arfer y lle. Pan oeddym ar ei ganol, dyma'r gŵr yn rhoddi ei ben i mewn drwy'r drws bach lle estynnai'r seigiau i mewn.

—“Gwasanaeth teligram a theliffon wedi peidio! R' wy'i newydd fod yn ffonio i *St. Pol de Léon*...a dyna ddywedwyd wrthyf...ni chaiff neb deliffonio mwy.”

Tipyn bach o siffrwd yn y neuadd ginio. Llais gwraig yn y pen arall: “*C'est bien grave, alors!*...y mae'n o ddifrifol, ynteu!”

Clywed wedyn fod y Saeson yn rhuthro tua'u gwlad...a bod wyth gant ohonynt wedi eu gadael ar y cei yn *St. Malo*...dim lle iddynt yn y llong.

(1) Pentref bychan ym mhell i'r gorllewin yw *Plouguerneau*.

*Dydd Mawrth, Awst 29.*

Gadael *Roscoff* gyda'r trê'n wyth, i gael rhyw dair awr yn *St. Pol de Léon*. Y wlad yn loyw gan yr haul cynnar, a'r caeau'n effro gan weithwyr—gŵr a gwraig ar eu gliniau'n tynnu tatws, gwraig a'i dwylo ar gyrn yr aradr, a gŵr yn arwain y ceffyl, dwy ferch yn gwasgar tail. Eisoës y gwragedd yn cymryd y tir i'w gofal! Onid ydynt gyfarwydd?...a'u gwŷr a'u brodyr yn treulio cymaint o'u hamser yn gwerthu'r cynnyrch...yng Nghymru, Lloegr...yr Alban...&c.?

*St. Pol de Léon*. Gorsaf lawn, bechgyn yn mynd, ac eraill wedi bod i'w hebrwng,...hwythau i fynd...yfory...drennydd! Yn y cyfamser, trônt yn ôl tua'r dref, bob un i'w faes ac i'w farchnad. Dilynaf innau hwy, a chlochdy'r *Kreisker*—un o ryfeddodau Llydaw—yn estyn ei gysgod trosom. Nesu tuag ato ar hyd y ffordd balmantog, anwastad, heibio tai newydd a hên, ambell ardd wllithog a chyfoeth o dri-lliw-ar-ddeg. Dyfod i'w ymyl, i'r lle agored. Ceir yn cyrraedd, gwragedd yn disgyn ohonynt, yn llwythog o fasgedi...llawn wyau, îeir, ymenyn, a ffrwythau'r gerddi. Diwrnod marchnad, mae'n amlwg. Edmygu tŵr y *Kreisker*, ei ryfeddol uchter, ei gampus ysgafnder, cysondeb gwiw ei fân dyrâu a'i fil agoriadau,—balchter Llydaw! Bûm ar ei ben unwaith, ond nid af heddiw. Dim gormod o amser; ac yr wyf am weld tri o hen gyfeillion.

I mewn i'w gapel, er hynny. Ac yna at yr Eglwys Gadeiriol sydd gerllaw. Eglwys odiaeth hithau, dau dŵr hynod o hardd, pulpud celfyd oddi allan—hoffaf y syniad o bulpud oddi allan

fel yn *Vitry*—tu mewn lluniaidd, yn gorff ac yn gôr; un ffenestr odidog, pulpud a gwaith da arno, ac amryw o feddfeini campus. Fe'th welais yn doreithiog lawn ar fore Sul. Heddiw, wele ambell Lydawes yn plygu glin ynot cyn mynd i'r farchnad i werthu ei nwyddau. Y syniad tlws! Deuant i mewn atat ti o bobman, megis at gyfaill...cyfaill cyfarwydd...heb eisiau ymgyflwyno iddo.

Allan, ac i chwilio am fy nghyfeillion...os ydynt i'w cael...bellach. Holi siopwr bach blewog...ple mae Le Disses yn byw?...“Ar y ffordd tua *Roscoff*...trowch ar y dde...syth ymlaen wedyn...yno ar y chwith...yna!” Mynd, troi, troelli...holi wedyn...a dod at y tŷ. Dyma fo, ar ben y drws yn darllen ei bapur,...yn yr haul, a'i het fawr—*tog kerné*—am ei ben. Yr un ffunud ag oedd...dros ddeuddeng mlynedd yn ôl. A'i wraig yn llond tŷ o wraig groesawgar...ac yn gofyn ar drawiad:

—“A oes rhyfel i fod?” “Un mab inni wedi mynd heddiw!” meddai'r ddau.

—“Chwithig ei weld yn mynd?”

—“Ie...wrth gwrs!...Ac eto!...po fwyaf a aiff...mwyaf oll y gobaith am heddwch.”

\*\*\*

I mewn i'r tŷ, ac eistedd o gwmpas y bwrdd. Estyn seidr...a'i dywallt. Ymddiddan.

—“Sut fyd sydd ohoni yma...erbyn hyn?”

—“Dal i fynd! Rhygnu arni! O'r diwedd, cael rhoddi un wers mewn Llydaweg bob wythnos yn neuadd y dref.”

—“Beth am y cwmni drama oedd gennych yma?”

—“A! ... wedi darfod! Wedi ... troi ... yn Ffrangeg!”

—“A yw'r Offeiriad annwyl hwnnw yma... M Leon?”

—“Na! ... tipyn o helynt... ac yn y diwedd... bu farw!”

—“A'r cyfaill pybyr a gwyllt arall ... M Nickolas?”

—“Wedi mynd i fyw i *Nantes*.”

—“Y Llydaweg yn dal ei thir yma?”

—“Ydy'... yn lled dda... ond bod y rhieni'n mynnu siarad Ffrangeg â'u plant... iaith yr ysgol ... bywyd swyddogol... y ffordd i ddringo... sefyllfa ... clod! Y fath ffolineb! ... Pump o blant gennym ni... pedwar mab, un ferch... ac ni siaradwn ddim ond Llydaweg... Pe bae pawb yn gwneud hynny!”

Gorfod torri'r sgwrs ar ei hanner, gadael yr hen fachgen piwr, syml, a'i blant hoffus... a brasgamu'n ôl at y dref... ac i'r orsaf.

\* \* \*

Tua *Morlaix* unwaith eto. Trên bach distaw ac esmwyth, a nifer o Lydawesau gweddol ifanc ynddo. Siaradant Lydaweg â'i gilydd. Y mae plant bach ganddynt. Siarad Ffrangeg â'r rheini, bob tro!

\* \* \*

Cyrraedd *Morlaix* tua hanner dydd, a cherdded gyda'i phlethi heolydd, rhwng cysgodion tai canrifoedd oed. Ymhoffi yn y cwbl... am yr ugeinfed tro?! Cyfeirio at y *Tour d'Argent* am ginio. Cyn cyrraedd y drws, clywaf lais sy'n gynefin imi—y llais yr wyf am ei glywed, llais Gourvil! ... Efo! “Tri chynnig i Gymro! Dyma'r trydydd tro y deuthum yma i chwilio amdanoch. Y ffawd dda!”

\* \* \*

Ciniawa gyda'n gilydd, a siarad yn ddi-dor—bron yn gyfan oll am Lydaw. Gŵyr Gourvil fwy na neb amdani... ei thrysorau o lèn gwerin, o gapeli ac eglwysi—bron bob maen ynddynt!—ei hanes a'i cherddi, ei gwisgoedd a'i dawnsfeydd. Tywysydd digymar! Ac yn mynnu siarad yn Gymraeg, gyda rhwyddineb sy'n syndod imi bob amser. Am beth y soniwn? Afrifed bynciau. Y mae gennyf i ddegau o bethau i ofyn iddo... am sgrin (jubé) y fan a'r fan, am gangell St. Herbot, am y ddawns angau yng Ngher Maria, am fywyd Llydaw yn yr Oesoedd Canol, am ei llên. Paham nad oes llên Lydaweg cyn y bymthegfed ganrif? A oedd yn bod? A gollwyd? A ddinistrwyd? Ar y cwbl hyn y mae gan fy nghyfaill parod oleuni i'w daflu. A phan ddywed na ŵyr, teimlaf yn bur sicr na ŵyr neb arall ychwaith. Carlamu i fyny ac i lawr dros y canrifoedd, ac aros gyda llenorion y ganrif hon a'r ddiwethaf. Nid da ganddo ymdrech Vallée a Ropaz Herno i geisio ysgrifennu Llydaweg...



wel...academaidd, llyfr...a heb wraidd yn yr iaith fyw;—beirniadaeth a glywir yn bur fynych, ac sy'n debyg o fod yn gywir. Prin gyffwrdd a wnaethom â digwyddiadau'r dydd, ond ofnaf fod fy nghyfaill Gourvil yn credu bod y Mudiad Llydewig...rywsut...dan nawdd Hitler!

\*\*\*

Ar ôl cinio, mynnai Gourvil imi fynd i'w dŷ, ac yno y buom yn parhau ein hymddiddan hyd bedwar o'r gloch. Y mae dros ei ben a'i gjustiau mewn gwaith...llyfr ar *Villemarqué*, a llyfr, llyfrau'n hytrach—ar enwau lleoedd, a theuluoedd. Casglodd eisoes gannoedd—miloedd—ohonynt, a'u gosod yn eu trefn. Gwelais gypyrddaid ar gypyrddaid ohonynt. Gwaith mawr, yn ddiâu, ac yn gofyn hir-amynedd, dyfalbarhad...ac yn gymaint â dim, amser...a Heddwch. Onide...dyma waith arall yn Llydaw a ohirir...ac... Na ato Duw hynny!...a gollir.

\*\*\*

Gadael Gourvil, wedi mwynhau pob munud o'i gwmmi. Dyma gawod wyllt o law taranau. Cysgodi mewn *café*, a'r *garçon* yn estyn y llen allan drosom. Hindda eto. Dringo'r grisiau hirion i fyny at yr orsaf. Gadael *Morlaix* yn derfynol, a chyfeirio am y De,—i *Landerneau* dros y nos heno. Dacw'r trên...llawn bechgyn, yn pwyso allan drwy'r ffenestri,...yn gweiddi ar ei

gilydd...codi dwylo...cyfarch. I mewn i'w canol... i'w sŵn, i'w hanadl... Mor boeth! Eisteddant, codant, siaradant ar draws ei gilydd, Llydaweg, Ffrangeg...yn uchel eu cloch. Chwŷs mawr. Glaw...anferth o gawod...yn cau am y wlad, y tren a'r bechgyn, a'u chwŷs, a'u sŵn. Dylifa i mewn drwy'r ffenestri;...a gaeir ar ffrwst. Môr o barablu...o chwysu...o feddw ganu aflafar. Codi i chwilio am eu hysgrepanau duon, am fara, *kig sall*, rhol o *silsig* hir, potel o win coch, y naill yn rhannu â'r llall. Brodyr i gyd,—o'r un ardal—oedd, pentrefi, cartrefi—o'r wlad bob un...ac yn wynebu ar y *caserne* yn nhref *Brest*. O gartrefi...i'r gwersyllty...ac i...Duw a wyr! Ni phoenant...ni phryderant. Pa ddychyrn sydd iddynt hwy mewn gwersyllty?—a hwythau eisoes wedi ei brofi. Gwyliau?...a difyrwch...y dref fawr! Chwarddant! A chwardd y glaw oddi allan, gan lenwi ffyrdd, pydewau, a chaeau bach â'i ddŵr coch.

\*\*\*

7-15. Cyrraedd *Landerneau*,—tref o ryw saith neu wyth mil o breswylwyr, mewn dyffryn iraidd, ar lan afon *Elorn*. Chwilio am lety yn yr *Hôtel des Voyageurs*.

—“Ystafell ar osod?”

—“Oes...un, dim ond un, un fechan, heb ddwfr rhedegog ynddi. Ond mi gewch ddwfr poeth yn y bore. Pob ystafell arall wedi ei chymryd. Yr ydym yn llawn...swyddogion y fyddin yma ar hyn o bryd.”

—“O'r gorau ; mi a'i cymeraf. Diolch.”

Profiad newydd sbon y tro hwn oedd clywed am westy llawn. Dringo i'm hystafell am ennyd, ac yna allan—gael gweld be welwn i. At yr afon, heibio rhyw ddau neu dri o hendai purion da. Milwyr ...yn ddeuoedd a thrioedd, a thyrrau,—ar yr heol, ...mewn *café* neu ddau, dim cymaint â hynny. At eglwys Sant Thomas o Gaergaint, —plant yn chwarae o gwmpas. Ar y dde imi, esgyrnyd. Beth? ... eithaf gwir...wedi ei droi'n dŷ byw! Edrych yn hir arno...mewn syndod...ac arswyd. Y byw yn trigo yn nhŷ'r meirw! Anhygoel!

Ymaith...dros y pelmynt...sŵn clocs ar heol, llestri a chyllyll yn y tai. Blino...syrffedu. Na d'oes dim modd imi ymhoffi yn y dref hon. Ni wneuthum erioed.

\*\*\*

Swpera yn y gwesty. Neuadd lân, hanner llawn. Ar y dde imi, swyddogion y fyddin, chwech, saith ohonynt ar un bwrdd, ieuainc gan mwyaf, un neu ddau tua'r canol oed, Rhydd ymddiddan rhyngddynt—tawel, parabl-isel, gwengar, cartrefol. Dim cysgod militariaeth yn eu gwedd, eu hystum. eu hymgom, eu gweniaith brydferth, chwerthinog. Ar fyrddau eraill, deuoedd ohonynt, ac un gyda'i wraig. Gweddus i gyd, gwylaidd hyd yn oed. Dim ymffrost, dim chwyddo, dim codi llais! Hunan-ddisgyblaeth ddistaw, ddi-orchest. Mor wahanol i'r bechgyn gwinglyd yn y trê!n!

\*\*\*

*Dydd Mercher, Awst 30.*

Pan godais heddiw, ni welais ddim cysgod o'r swyddogion milwrol. Wedi codi allan?...neu heb? D'oedd hi ddim yn wyth o'r gloch...ond anghofiais ofyn i'r forwyn.

Ar fy nghodiad, darllen y *l'Ouest Eclair*...ef, fel y tlodion, gyda phawb yn Llydaw. Newyddion? Man a man â ddoe! Y Pwyliaid a Hitler... Hitler a'r Pwyliaid. Neges o Loegr at Hitler... a neges yn ôl. Pa beth a dâl hyn?

\*\*\*

Allan i chwilio am ŵr a fu unwaith yn weithgar gyda'r mudiadau Llydewig. Curo. Heb godi. Ond mi ddaw i lawr toc. Disgwyl. Ar y gair, efo ei hun,—wyneb mor wyn â'r galchen, rhwng barf a gwallt a fu gyn ddued â'r muchudd,—ond bellach wedi glasu 'mhell. Yntau...?...Wedi hen anobeithio!

—“Dim diddordeb yn y Mudiad Llydewig...”

—“A ydyw'r iaith yn dal ei thir yma?”

—“D'wn i ddim...byth yn mynd allan o'r tŷ! ...wedi mynd yn hen...yn rhy hen!”

Yr anobeithiwr! Y tyngedfennydd! Y mae gormod o'i debyg yn Llydaw.

\*\*\*

Gadael, a chymryd trê!n i gyfeiriad *Quimper*, un o'r teithiau hyfrydaf yn Llydaw. Troella'r

trên am *Landerneau*, ac ymddengys y dref a gefais, fel arfer, heb ddengarwch, yn swynol iawn ...o hirbell. Anwesa'r haul hi, a phair iddi edrych mor hardd â'r dyffryn sydd o'i chwmpas. Eistedd-af uwchlaw iddi, gwelaf afon, a môr, llyn neu ddau, dillad gwynion ar berth a chae; ac, yn nes ymlaen, cefnennau, clogwyni, grug yn eu blodau, gwragedd mewn buarthau, ac ar eu gliniau wrth lyn-golchi; plant bach yn eistedd yn dyrryn mewn caeau, gan esgus bugeilio'r gwartheg; creigiau, trumiau, gwrychoedd o gyll—nid o eithin, diolch!—capeli, eglwysi, pentrefi a threfi,—*Daoulas Quimerch, a Chateaulin*,—yr olaf yn ymestyn yn hir mewn dôl werddlas, a'i thai gwynion yn disgleirio fel gemau yn yr haul, a'i chapel *Notre Dame* yn rhodresa ar ei sylfaen o graig. Ar i waered yna hyd ddyffryn afon *Aulne*, yn llawn coed a llenyrch am y gwyrddaf, heibio *Quéménéven*. Dyma droi un-ar-ddeg o'r gloch, ac arafu yng ngorsaf *Quimper*.

\*\*\*

Cymryd ystafell yn yr *Hôtel Moderne* yn ymyl, a brysio tua'r dref a hoffaf yn fwy na'r un yn Llydaw. Henffych well iti oll—ac i'th Eglwys Gadeiriol yn enwedig! Teimlaf yn gartrefol, yn gysurus, yn ddiddig, ar dy ddaear bob amser. Hen gyfeillgarwch...a gryfheir bob tro yr ymwelaf â thi! Cerdded fel rhedeg ar dy heolydd di! Dyma fi yn y *café—Café de l' Epée*—yn cymryd cwpanaid o goffi wedi taith y bore. Cyfle i ysgrifennu hefyd...a darllen...a myfyrio...a gweld

*Quimper* yn cerdded heibio. Fel yr hoffwn fod yma am ddyddiau lawer!

\*\*

Codi a cherdded,...at y siopau llyfrau...siopau celfyddydau Llydaw...at y farchnad, yr hen dai a'r delwau ar eu conglau,...heibio i'r Eglwys ddi-gymar,—y cwbl oll cyn cinio, Eisiau bwyd, a throi i mewn i'r *Hôtel du Parc*. Ystafell fawr—fawr iawn, lanwaith dros ben. Byrddau gweigion...ag eithrio tri, un ar y dde imi, un ar ganol y llawr, ac un o'm blaen. Dim ond un sydd wrth hwnnw—ac Americanes yw hi. Y ffenestr ar fy chwith yn agor i'r heol, lle y llusga ambell rai o bobl *Quimper* heibio, gan dorri gair â'i gilydd...am y gwres, yr ymwelwyr sydd wedi hen ymadael, digwyddiadau'r dydd, "*les événements*," y rhain yn fwy na dim. Prynhawn mwell, ac ni cherdda llais ym mhell, ond daw ambell air i mewn i'r ystafell weithiau, megis hwn. Dwy wraig yn parablu'n ddwys â'i gilydd. Yna'n gwahanu yn uwch-barablu, ar y geiriau...

—“Y rhagrithiwr 'na! y cnaf! y celwyddgi! *le chien enragé*, y ci cynddeiriog.”  
Hitler, wrth reswm!

\*\*

Wedi cinio, dyma fi'n mynd gyda'r cerbyd i weld *Douarnenez*—am y pedwerydd tro! Eisiau bywhau ac adnewyddu fy argraffiadau o'r môr,

a'r bae, y llongau hwyliu a'r morwyr. Cyn imi gerdded canllath, pwy a gyfarfyddaf ond y Doctor Cornic. Gorchest o groeso! A rhaid mynd i'r tŷ—i weld y wraig, a'r pedwar plentyn. Hithau yr un mor groesawgar. Canu Cymraeg ar unwaith! Seidr i'r bwrdd...siarad, am Gymru, Llydaw. Cornic yn ceisio cerdded y ffordd ganol, meddai ef...gyda'r *Bleun Brug*. Dig iawn wrth Daldir...a'r *Breiz Atao*.

—“Ni ddilynaf i mo Daldir, sy'n cerdded gyda Gweinidog Addysg Ffrainc—na'r *Breiz Atao*...sy'n cyd-ymdaith â Hitler! Byth!...byth! ...rhaid peidio!—ar bob cyfrif!”

Gair neu ddau â'r plant.

—“Siarad Llydaweg?...Na!”

—“Ydyn'...ma' nhw'n *deall*...yn iawn...mi ddon' i'w *siarad*...dysgu gyda'r forwyn.”

—“Mae'r morynion yn gwrthod siarad Llydaweg â'r plant” meddai'r wraig. “Ac felly ma' nhw beth ar ôl.”

—“Ond beth amdanoch chi...y rhieni? Ffrangeg...â'r plant?...a gadael y Llydaweg...i ofal y forwyn?”

—“Mi ddysgan',” meddai'r ddau gyda'i gilydd.

—“Gyfeillion annwyl!...ni byddaf i na'r wraig yn siarad un gair o Saesneg...byth...â'n plant ni! ...dim poeni dim am eu Saesneg.”

Yr oedd hon yn ddysg ry ryfedd i'm cyfeillion! Tipyn o syndod imi...a minnau wedi arfer tybio ei fod ef yn Llydawr eiddgar...wedi bod unwaith yn Llywydd y *Bleun Brug*! Y forwyn i siarad Llydaweg...a hwythau Ffrangeg!

\*\*\*

I lawr tuag at y môr. Fe'i gwelais yn lasach lawer. Y cannoedd llongau a'u hwylybrenni fel coedwig, a'u hwyliu gwyrddion, a'u morwyr mewn rhudd a glas a chapanau fflat...yn olygfa a dâl am ei gweld bob tro. Y diwydrwydd morgrugaid! A'r fath amrywiaeth o liwiau, ystumiau, ysgogiadau, oedrannau, galwadau, lleisiau!

\*\*\*

Yr wyf yn ôl yn y *Cafe de l'Épée, Quimper*, yn oedi yfed coffi wedi swper. Rhwng wyth a naw o'r gloch. Y ffrwd o gerdded heibio wedi dechrau, ac yn awr ar ei lawn hwyl...yn cynnwys dynion a merched, fraich ym mraich; hogiau a phlant, law yn llaw; hen wragedd arafgam yn eu gwisgoedd Llydewig; merched ieuainc sbonclyd wedi ymdecáu hyd at ewinedd eu traed,...*Quimper* i gyd wedi troi allan i ymddangos yng ngŵydd ei gilydd...yr un fath ag arfer...ond bod yma lawn mwy o filwyr. Llond yr heol hir o bobl foddog, gysurus, chwerthinog, cystal ffrydlif o bobl ag a ellid ei gael...a'i ddymuno—ym Mharis neu unrhyw dref neu ddinas arall. Myrdd o dramwy! Tu hwnt y mae'r afon—Odet, ac aml bont yn ei chroesi i'r lle agored sydd yr ochr arall iddi. Yno y bydd cynnal ffeiriau *Quimper*, a gwelais sbleddach lawer yno cyn heddiw. Heno y mae'r holl le hwnnw'n perthyn i'r milwyr a'u meirch a'u gynnu; ac o dro i dro clywir swm tresi'r meirch yn tynhau, yn rhyddhau, ac yn disgyn ar y ffordd; dwndwr cerbydau trymion yn croesi'r



bont, trydar traed ar balmant...y cwbl yn rhyw drybestod maith, ac yn gefndir i'r we pobl ar yr heol, rhywle yn y tywyllwch islaw'r coed...ac wrth droed Bryn Frugy.

\*\*

Arafa'r cerdded, tynn y milwyr fwy o sylw, try'r ffrydlif cerddwyr yn gylchoedd bach yma a thraw, gan nesu at y bont—a throsti...ac edrych ar ddiwydrwydd distaw'r milwyr. Af innau i'w canol. D'oes fawr o ddim i'w weld...dim ond milwyr yn y frithnos...yn brysur fel lladd nadredd...gorffen gwaith y dydd, ac yn mynd tua'u gwersyllty...y mwyafrif mewn *Khaki*, rhai mewn glas. Mor fychain yw llawer ohonynt...mor annhebyg i filwyr! Ac eto!...hwy yw rhai o filwyr gorau Ffrainc, y dewrion bychain hyn! Nid oes lle iddynt oll yn y gwersyllty. A rhai ohonynt i orwedd mewn cwt fan yma...a llu o blant bach, a ddylai fod yn eu gwely, yn syllu arnynt...mewn edmygedd plentynnaidd. Y maent yn ben cyfeillion...Gadawaf hwy...bwhwman tipyn...ac yn ôl tua'm llety wrth yr orsaf...gan ddweyd nos da wrth yr Eglwys Gadeiriol, ei dau dŵr mirain, y mân binaglau yn dringo, yr ysgeifn ategion—y cwbl yn eglur ysblennydd yng ngolau'r lloer. Nos dawch!

*Dydd Iau, Awst 31.*

Ar forebryd heddiw, meist'r y gwesty'n dweyd wrthyf fod yr holl Saeson yng *Nghemper* wedi ei hedfan hi ers deuddydd neu dri. Dim un ar ôl, meddai. Ambell Americanwr, dyna'r cwbl.

—“A chwithau?”

—“Nid Sais mohonof i, welwch chi! Heblaw...yr wyf mor ddiogel yma â phe bawn i gartref.”

—“*Vous avez raison, Monsieur*; yr ych chi'n iawn, Syr!”

—“Pa newydd heddiw? Ydych chi wedi gweld y papur?”

—“Do!—ond beth dâl? 'Ddywedan' nhw mo'r cwbl! Yr un fath heddiw a ddoe...ac echdoe...ers dyddiau. Neges o Lundain i Berlin...Berlin i Lundain...ond beth *yw'r* neges? Mae'n bryd inni gael gwybod. Onid e...rhyfel...ar ein pennau. Be mae M Bonnet yn ei wneud? 'D'oes 'ma neb eisiau rhyfel. Rhyfel?...A'r llall heb fynd o'n cof! Mae'n arswyd i feddwl.”

\*\*

Cerddais allan, ac ar hyd yr heol fawr gyda'r afon—lle y tramwya bywyd y dref. Mor effro a bywiog ag erioed! Merched yn glanhau'r ffenestri, siopau'n disgleirio lluniau Llydewig ym mhobman. Nid oes modd peidio â mynd i mewn i'r siopau, a glynu'n hir wrth eu dewis o gelfi a llestri digon o ryfeddod. Prynu...i gael darnau o Lydaw o flaen fy llygaid yn y tŷ gartref...i gadw atgofion yn fyw...i gynhesu'r gaeaf...O

dipyn i beth, cyrchu at siop lyfrau Le Goaziou, y siop lyfrau orau yn Llydaw. Ai pherchennog yn ŵr mor rhadlon. Caf ymgom hir ag ef bob amser—yn ei ystafell o'r tu cefn i'r siop. Felly heddiw eto—am ran orau o'r bore. Llydaw fydd ein prif destun, bob tro,—Llydaw'r ganrif ddiwethaf a'r bresennol. Y mae Le Goaziou'n lled gartrefol yn y ddwy ganrif hon, ac yn hoff iawn o dreulio misoedd i olrhain datblygiad ambell fudiad a pherson. Ddwy flynedd yn ôl François Rio oedd ei ddiddordeb mawr, eleni Le Gonidec. Ac felly y symuda ar gyrch ysgafn o'r naill ŵr enwog i'r llall, fel gwenynen o flodeuyn i flodeuyn. Hela tipyn o fêl, ac yna, mynd ymlaen drachefn. Ddwy flynedd yn ôl, pan ddaliai i son am François Rio, ceisiais ei berswadio i ysgrifennu ffrwyth ei ymchwil...ac erbyn heddiw...tair wythnos yn ôl, pythefnos cyn imi ei weled eto,...y mae Americanes wedi cyhoeddi llyfr cyfan arno! Eleni, dyma bwyso arno ysgrifennu llyfr ar Le Gonidec. Cefais addewid bendant y gwnâi...a bod M Dujardin ac yntau eisoes ar gychwyn! Newydd da iawn. A gyflawnir yr addewid? Arhoswn i gael gweld. I Lydawr, y mae cynllunio, a darllen, a siarad...yn llawer haws na mynd ati o ddifrif i roi ffrwyth y darllen a'r ymchwil ar bapur. Trois allan o ystafell fy nghyfaill, a'i addewid yn seinio yn fy nghlust, a'i law yn gynnes yn fy llaw innau.

\*\*\*

Ar fy union i'r *Café de l'Épée*, i gael cwpanaid o goffi ar ganol y bore. Go wag yr adeg honno

o'r dydd, a neb yn aros yn hir. Tri Americanwr : eisiau gwybod beth sydd i'w weld yma, ac yn y cyffiniau. Wedi bod yn *Chartres* dridiau'n ôl... ond y gwydrau wedi eu tynnu o'r ffenestri, a'u cuddio. Un Sais, a'i wraig a'i ferch. Yn aros yn *Benodet*, ac ef yn disgwyl ei alw adre—os bydd ei eisiau. Gŵyr yr awdurdodau ei gyfeiriad, meddai.

Y lle'n wâg. Ysgrifennu cerdyn neu ddau...a ...Codi pen ac edrych allan, a phwy a welaf ond Youenn Drezen, cyfaill na welais ers naw...deg ...ac efallai fwy o flynyddoedd. Edrych fel o'r blaen, llencyn hir o bryd tywyll, sionc.

—“Wel!...wel...wel! ti? O ble dest ti?”

—“O grwydro'r byd...a Llydaw...fel arfer. A thithau?...Dim disgwyl dy weld yma?”

—“R'wyn byw yma'n awr. Wedi gadael *Brest* ...a phriodi. Un plentyn...ond y wraig yn wael... Cyfrifoldeb!...yr hen ddyddiau diddan wedi mynd; 'rwy'n tynnu ar ddeugain oed, 'ngwas i!”

—“Dyddiau diddan wedi mynd!...gen i bedwar o blant...ac wedi troi deugain oed! Mae bywyd mor ddiddan ag erioed. Beth yw'r sôn am heneiddio sydd arnoch i gyd!? Eistedd i lawr...am ymgom...Be gymeri di?”

\*\*\*

Ymgom hir, a dyfal a hoenus,—am y dyddiau difyr a fu, dyddiau cynnar y *Breis Atao*, dyddiau'r Genhadledd Geltaidd yng *Nghemper*...dringo i ben yr Eglwys Gadeiriol, tynnu lluniau yno. Gorymdaith Lydewig, a baneri...a...a!—cant a mil o bethau.

—“Y mae llawer blwyddyn er hynny...a'r Mudiad wedi cynhyddu. Adfywiad llenyddol, cylchgrawn Nemo, *Gwalarn*,...ie, a llyfrau. Wedi cael colled hefyd. Sohier wedi marw...rwyd ti'n cofio Sohier yn iawn? A Jakes Riou...druan ag yntau!...yn 36 oed...ar y 14eg Ionawr, 1937.”

—“Chwith iawn, iawn...be gafodd e?”

—“Clefyd yr ysgyfaint...fel llawer ohonom ni, Lydawiad.”

—“Be ddaeth o'i lyfr e? Y tro diwethaf y gwelais yr oedd ei ben yn llawn cynlluniau...am nofel hir...a' *la Balsac*, chwedl yntau.”

—“Mi gyhoeddodd ddau—lyfr o ystorïau, a chomedi...a gadawodd ddau ar ei ôl, un ohonynt yw'r nofel. Maent gennyf i...i'm gofal i y rhoddodd i'w cyhoeddi.”

—“Wyt ti am wneud?...ydyn' nhw'n dda?”

—“Ydyn'...r'oedd ganddo ddigonedd o ddawn. Mae'r cwbl yn barod gennyf. Ond os daw hi'n rhyfel...! Be alla'i wneud? R'wyn' disgwyl fy ngalw bob dydd...Yna, mae gen i nofel fy hun...fawr...am fywyd Llydaw heddiw, yn fy nhref i, *Pont l' Abbé*...yn barod...arch barod. Costio 30,000 franc i'w chyhoeddi!...ond eisoes wedi hel tri chant o danysgrifwyr. Yr wyf wedi cyhoeddi dwy fechan yn barod...Mi dangosa'i nhw iti”...

—“Beth am ddod yn ol yma...neu i'r *Café de Bretagne* ar ôl cinio? Rhaid imi fynd i'm llety am ginio...i bacio...”

—“O'r gorau...dau o'r gloch, yn y *Café de Bretagne*!”

\* \* \*

Ciniawa yn y gwesty, er mwyn eu rhybuddio na fedrwn aros y nos yno. Rhyfeddol o ystafell fawr, byrddau gweigion i gyd ond dau, a bwrdd y teulu eu hunain oedd un o'r rheini! Yr ystafell weddw! “Ple mae eira llynedd?” Yr oedd yn dda gennyf gael bod unwaith yn rhagor ar y ffordd, lle'r oedd meibion a merched, hogiau a henwyr, symud a siarad. Cyrhaeddaf i'r *café* fymryn bach o flaen fy nghyfaill, a welaf yn dod â chodaidd lawn tan ei fraich. Parhau'r ymddiddan uwchben y coffi du. Yna tynn allan o'i god y llyfrau a fydd eu dangos imi.

—“Dyna ddau lyfr Riou—*Geotenn ar Werc'hes*...a...*Gorsedd Digor*...drama'n gwatwar Taldir a'i Orsedd!”

—“Chwarae teg iddo!...Kreston wedi gwneud darluniau ar gyfer y gomedi...da iawn hefyd!”...

—“A dyma un o'r ddau sydd heb eu cyhoeddi...*Nomenoe-oe*! A'i nofel,—fe weli fod gen i waith o'm blaen”...

—“Beth am dy lyfrau di?”...

—“Dyma iti...*Kan da Kornog*... nofel fer, cyhoeddwyd yn 1932...Lluniau gan Kreston eto...”

—“Darluniau gwydion iawn...a drud...?”

—“Ydyn'...y gorau posibl...i roi urddas ar lyfrau Llydewig...A dyma'r ail lyfr, *An Dour en-dro D'aninisi*. Hoffwn iti gyfieithu hwn i Gymraeg...os oes amser gennyf...wnei di?”...

—“Rhaid imi ei ddarllen yn gyntaf...cawn weld...”

—“Ac yn awr, dyma'r nofel hir...heb ei chyhoeddi...ond yn gwbl barod—testun, darluniau, popeth. Cerdd drwyddi...dyma'i henw,—*Itron Varia Garmes*...tri chan' tudalen...yn arch barod!

...Araf bach...un llun wedi ei basio heibio...hwn..."

Bu'n rhaid imi droi ei dudalennau'n ofalus, fel na chollwn yr un o'r trigain darlun cerfiedig oedd ynddo, pob un yn waith celfyddwr tan gamp, ac wedi ei osod yn drefnus yn y testun...a'm cyfaill yn egluro imi y stori a oedd yn gefndir i bob un.

—"Ymddengys imi yn waith diddorol iawn...ac yn sicr yn waith hardd—campus hardd! Mi ddywedaf y gwir yn onest wrthyt—nid ydym ni yng Nghymru yn troi allan lyfrau wedi eu darlunio mor gain. Llongyfarchiadau!"

—"I gyd wedi ei orffen, weldi...yn fwy na pharod. A'r digwyddiadau hyn!...disgwyl fy ngalw bob munud—efallai wedi mynd yfory...a rhyfel?! R'wy'n flin, r'wy'n flin! Onid yw hi'n siomedig? Gadael gwaith...wedi ei orffen...heb iddo weld golau dydd! Blin!"

\* \* \*

Er mor flin oedd fy nghyfaill, yr oedd yn sionc hefyd. Wedi'r cyfan, efallai na byddai rhyfel... efallai! Ac efallai y cai ddyfod yn ôl at ei waith .. yn fuan. Pwy a wyddai...yn iawn...eto? Beth bynnag, fe ai y prynhawn hwnnw i *Chateaulin* ...i gael ychwaneg o danysgrifwyr. Awn innau yn fy mlaen...tua...*Quimperlé*, gan alw ar fy ffordd yn...*Concarneau*...a *Pont Aven*. Yn y cyfamser, cyn gadael *Quimper*, yr oeddwn am fynd heibio i gyfaill arall—Bricler.

—"Lle mae e'n byw 'ma?"

—"Yn ymyl...ar ben yr heol hon...os yw yna.

Mi glywais ei fod ef wedi mynd."

—"Mi af i gael gweld. *Kenavo!* gyfaill annwyl, *Kenavo!*"

—"Kenavo! Rhaid gobeithio'r gorau."

Cerddais yn fy mlaen ryw drigain llath, a throi i mewn islaw'r Banc, fel y cyfarwyddodd Drezen fi. I fyny, r grisiau hyd y drydedd lloft. Canu'r gloch...unwaith...dwy. Daw'r forwyn i'r drws.

—"A ydyw M Bricler yma?"

—"Nac ydyw! Wedi ei alw i fyny...ers rhai dyddiau."

—"A ydyw Madame Bricler i mewn?"

—"Na!...hithau wedi mynd allan."

\* \* \*

Felly y diflanna fy nghyfeillion bob yn un ac un!...Ple mae Mordrel erbyn hyn? A Debauvais? ...Geffroy?...Darzal? Ac yn enwedig Lainé...? Beth a ddaw o obeithion Llen newydd yn dechrau blaguro...yn nwylo Riou, Drezen, Nemo aceraill? A leddir hithau?

\* \* \*

Yn ôl tua'm llety, yn bendrist braidd...gan ffarwelio â mwy a mwy o wrthrychau hoff, bob cam o'm ffordd hyd yno. Am bump o'r gloch cerbyd *Quimperlé* yn dyfod heibio. Rhwyddlawn o deithwyr diddan—ag eithrio un plentyn bach yn beichio crío. Ceisio'i gysuro...bawb drwy'i gilydd, a'i nain yn fwy na neb. Dod ato'i hun



wedi cynefino â sŵn a symud y cerbyd. Hanner digio wrtho'i hun, yswilio, di-ddigio, gwenu, a chwerthin. A phawb yr un modd—a'r wlad go goediog y canai'r cerbyd ei ffordd drwyddi, gan ddeffro'r bythynnod tawel, a'r gwartheg lliwgar yn disgwyl amser godro. I lawr y gward i *Goncarneau*, heibio tai gwynllwyd, ac ymlaen i ymyl y *Ville Close*, yr hen dref gul rhwng ei muriau cedyrn, llydain, a than warchae ei thyrau a'i heglwys. Dim amser i ddisgyn heddiw, i gerdded dy gyfyng heolydd, a synhwyro dy arogleuon, ac i sbio'n hir oddi ar dy ragfuriau ar y bae...a gwrando chwyth anadliad dy longau hwyl yn tynnu tuag adre.

Ail-gychwyn, a mynd yn droell am y dre, gan roddi imi yr olwg orau a gefais erioed ar y *Ville Close*. Nid erioed o'r blaen y gellais dy gymharu di â *Saint Malo*...a *Carcassonne*. Nid rhaid iti gywilyddio heddiw...a'r mor yn pwyso am dy furiau fel afon am ei glan, fel merch wrth ei chariad. "A'r dŵr yn gan twr it oedd."...Y cerbyd yn pydru mynd ar ei daith, gan aros i'r rhain ddisgyn yma...a'r lleill draw...*Tregunc*...*Nison*...hyd at *Bont Aven*.

—“A gaf i ddisgyn yma...un cip ar y dre?”...

—“Na...rym ni'n mynd. Cewch aros ar ôl!”...

A minnau wedi ymhyfrydu y cawn gyfle i ailgipio swyn y dref fach annwyl hon o'r diwedd! Tipyn go lew o siom, rhaid cyfaddef. Dringo... heibio *Riec*...cofiat am sbleddach afrad yma gan yr Orsedd...Golwg dlos ar afon *Bélon*. Saith o'r gloch, wele gyrraedd *Quimperlé*.

Disgynnais fel arfer yn yr *Hotél du Léon d'Or*, yn y rhan isaf o'r dref, ac euthum allan am tua

hanner awr cyn bwyta. Yr oedd rhyw ychydig o law bach Llydaw wedi dechrau gwllitho'r cerrig a gwallt merched a phlant pennoeth, ...glaw cynnes, glyngar, yn gostwng y ffurfafen i lawr yn isel am y dyffryn, a'r ddwy afon, a'r dref, ac yn cau'n dyn amdanynt, ac am y sŵn a godai oddi arnynt. Cerdded ar fy nghyfer i synhwyro awyrgylch y dechreunos a wnawn i, i gael teimlo a oedd yr un â phan brofais ddiwethaf...yn y conglau o gwmpas Eglwys *Sainte Croix*—yr eglwys gron, dew, ryfedd honno;—yn yr heol o flaen gweddillion Eglwys *Saint Colomban*, wrth edrych drwy ei ffenestr wag, ddi-wydr, ...ac wrth byrth rhai o blasau mân bendefigion Llydaw arferai ddod yma i fyw amser hela yn y fforestydd. Yr un yn union!...ond bod llawer iawn mwy yn eu tai...a'r rheini yn gwrando ar newyddion y *radio*...o'r tu mewn i'w ffenestri. Gofynnais wedi dod yn ôl i'r gwesty a gafwyd rhyw newydd o bwys, a dywedwyd naddo.

—“Na!...na gwell...na gwaeth...yr un fath o hyd...ond nid yn anobeithiol...lle i obeithio ychydig bach!”

\* \* \*

Troi i mewn i'r un ystafell ag arfer i swpera—ystafell helaeth, ond heb fod yn fawr iawn. Llawn y byddai hithau, ond heno nid oes ond saith ohonom...tri swyddog o'r fyddin wrth y bwrdd o'm blaen i, un dyn bach gloyw ar y dde...a mab a merch ar fwrdd arall. Dyna'r cwbl...a'r holl ystafell yn drwm o ddistaw...a'r ddwy forwyn yn

disgwyl yn y gongl am inni orffen y naill saig ar ôl y llall...i ysgafnhau eu segurdod...Wedi swpera, mynd trwodd i'r *cafe*. Llai o rif ohonom, gan na ddaeth y mab a'r ferch yno. Aeth y swyddogion i chwarae cardiau...y gŵr gloyw... i ddarllen amserau'r trenau...masnachwr ar daith, yn ddiau...minnau i ddarllen *l'Action Française*. Ysgrif Maurras bron yn gyfan heddiw, a'r dyn mawr hwnnw—y gwleidydd mwyaf yn Ewrop, mwyaf ei wasanaeth i Heddwch—yn dal i ddadlau yn erbyn ystum a gair a roddai gyfle i Hitler fod yng nghyflwr un yn ei amddiffyn ei hun. “*A bas la guerre!*”

\*\*

Cyn mynd i'm gwely, un tro bach byr. Nid yw fawr wedi deg o'r gloch...ond mor dawel! Y dref gyfan wedi mynd i orffwys...mewn blinder ...mewn poen meddwl...mewn anesmwythyd. Ond peidiodd y glaw, cododd ei len isel, drom. Yn ei le, y mae llen bell...bell y ffurfafen fraith ...a myrdd o ser ynddi...ac ambell gwmwl mawr golau...yn cuddio ac yn datguddio'r lloer bob yn ail—hithau ar ddistaw duth yn teithio trwyddynt. ...Yn yr hir lonyddwch, rhywle o gyfeiriad tŵr sgwar Eglwys *Saint Michel*, a deifl ei chysgod dros deiau'r “dref uchaf” ar y bryn, disgyn oerllyd sgrech y dylluan...y gwddihw. Pa goel? “Ai drwg a'i da'r darogan?” Tua thre! I'm llofft, ac wedi awr o ddarllen, i'm gwely. Ennyd bach, a bydd Mis Awst, 1939 wedi darford...*heb ryfel!*

*Dydd Gwener, Medi 1.*

Ar ei goleuad hi heddiw, fe'm deffrowyd o gwsg gweddol esmwyth gan glych eglwys'i'n torri'r awyr. Aeth eu seiniau...a arferai fod yn ddifyr gennyf—fel brath finiog i'm mynws. Cofiais i'm cyfaill, Darzel, ddweyd wrthyf yn *Locquirec* mai clywed y clychau'n seinio a fyddai'r arwydd...arwydd rhyfel. A'i dyma'r arwydd ofnadwy? A'i hyn sy'n cyhoeddi ein tynged ni oll...ar fore glas...cyn deffro o'r Llydawiaid, hyd yn oed? Dduw Dad!...

Disgwyl clywed drysau'n agor, y tai'n gollwng eu trigolion i'r heol, llef rhai'n llefain... Gwrando'n boenus anesmwyth. Edrych drwy'r ffenestr. Dim siw na miw. Beth? Breuddwyd? Toc, cnociodd y forwyn ar ddrws fy ystafell. Gweiddi arni...

—“Mademoiselle! A oes newydd drwg?... beth a ganai'r clychau?...”

—“Nac oes...canu fel arfer...dim newydd gwaeth...!”

Felly y dechreuodd un o'r dyddiau rhyfeddaf a aeth dros fy mhen erioed.

\*\*

Codi ar unwaith, gwisgo'n gyflym, edrych allan drwy'r ffenestr. Gweld Llydawr yn cau ei sgidiau wrth ddrws ei dŷ...ac yn rhodio yn llewys ei grys yn ei ardd; mŵg yn codi yma a thraw—y tai yn dechreu anadlu; gwraig yn mynd â phecyn o ddillad...i'r pwll dŵr...i w golchi. Fel pob dydd.

—O! mor gysurol!—mor galonogol!... Y glaw'n ail-ddechrau... fel dagrau drwy belydrau'r haul cynnar.

\*\*

I lawr. Newyddion? Dim—y papurau heb gyrraedd. Gorfod bwyta oddi mewn yn y gwesty, am y tro cyntaf erioed yma. Neb ond myf'n unig...yn yr ystafell fawr.

—“Ple mae'r lleill?... Y Swyddogion?”

—“Heb godi... Ma' nhw'n codi...pan fynna'n nhw...dim yn galw arnynt...eto. Fel gwyliau...”

Chwarae teg iddynt! Cadwant eu hurddas... eu meddiant arnynt eu hunain...hyd y diwedd.

\*\*

Gorffen y pryd bore, a symud o'r ystafell ginio i'r *café*. Dyma'r papurau'n dyfod! Agor ar frys. Gwell...? ...gwaeth? Dim gwell, beth bynnag. Y pwys yr un mor drwm...yn drymach. Y tyndra...tyndra dyddiau lawer...yn mynd yn amlwg yn dynnach...“Neges newydd o Lundain i Hitler.” Pa neges...? Pa ystyr? Llydawes osgeiddig o Ddinan, ...wyneb Cymraes yn gymwys ganddi...yn gweini yn y *café*.

—“Pa ryw newydd, syr?”

—“Dim o'r newydd...neges arall o Lundain i Hitler, medd y papur. Dyna'r cwbl! Fynnwch chi i weld e?”

—“*Toujours pareil? Toujours aussi mauvais?*”

...Yr un fath o hyd?...yr un mor ddrwg?” medd hi.

—“Yr un mor ddrwg, ie! Llygedyn bach... bach...o olau! Rhywun yn agos atoch chi wedi ...mynd?”

—“Oes...! Brawd...brawd yng nghyfraith... Fy meistr hefyd...perchennog y gwesty hwn... Cannoedd oddi yma! Onid yw hi'n dorcalonnus?”

\*\*

Peidiodd y glaw, hyd at ambell ddefnyn cyfeiliorn. Allan...gyda glan yr afon—o'r lle y daw'r ddwy ynghyd—tros lwybr cul, hyd onid aeth yn rhy gul a gwllithog gan grawcwellt a mieri. Yn ôl, at yr Eglwys gron...i mewn, at ei sgrin maen o'r radd flaenaf...i fyny'r llwyfan, lle y mae'r brif allor a'r pulpud...i lawr at y gudd-gell dywyll, ond heb fynd i mewn heddiw. Eglwys dra diddorol, *ryfedd* iawn. I'r strydoedd bychain...at y siopau. Prynu l' *Art Breton*, dwy gyfrol fawr, hardd, gan Henri Waquet, 80 franc...yr oedd wedi llwyr werthu yng *Nghemper*. Llawen iawn. Talu fy nyled i'r gwesty, a dechrau dringo i fyny tua'r orsaf—a'm baich yn drymach eto...wedi trymhau rhyw gymaint ym mhob tref. Pobl ar yr heolydd ...mor ddigynnwrf ag arfer...ac yn y farchnad, torf ddiwyd. Cyrraedd yr orsaf. Disgwyl y trê'n fel eraill...ambell filwr yn eu plith.

\*\*

Daw i'r funud,—10-55, *auto rail* eto, mor

ddistaw â phe bai blentyn yn nhraed ei sanau. Cael lle yn y sedd flaenaf, heb ddim ond dwy ffenestr rhyngom a'r wlad o'n blaen, llawn irgoed a phinwydd. Gwelaf y pontydd yr awn drostynt... a milwyr yn eu gwyllo hwythau. Arafu am *Lorient*—porthladd mawr, ar y ddwy afon *Scorff* a *Blavet*. Nid arhosais yma erioed—ac yn sicr, nid heddiw. Glynaf yn fy lle nes dyfod i *Hennebont*. Ni ddisgynnais yno erioed o'r blaen, ond mi a wnaf heddiw,—nid am fod yma Eglwys wych a chastell, a thref rhwng muriau, ac amgueddfa Lydewig, ddiddorol. Na: ond yn unig am fod gŵr o'r enw Loeiz Herrieu yn byw tua thair milltir i ffwrdd. Ef a geisiaf...neb na dim arall!

\*\*

Pa le y mae'n byw? Ni wyddant yn iawn yn yr orsaf. Cyrchu tua'r *café* cyntaf ar gyfer. A wyddant hwy?...Loeiz Herrieu...? Gwyddant... h.y....ei enw...enw ei dyddyn...allan yn y wlad... ar ffordd *Ville Neuve*. Anelwig iawn. Bwrw glaw'n drwm bellach...bron a bod yn hanner dydd...trên i *Vannes* tua 1-30. Dim amser i gerdded. A oes rhywun a chando gerbyd i'm hebrwng hyd yno?...

—“Dacw ichi!”

—“Parod?”

—“Pris?”

—“Pymtheg ffranc.”

Dyma'i symud hi'n bur glau, a gadael fy ysgrepan yn y *café*. Gyrru—ar hyd y ffordd fawr

i ddechrau, yna troi ar y dde i gulffordd wledig, a phinwydd yn tyfu at ei min. Y glaw yn llacio...ac yn peidio.

—“Dyma fo'r tŷ! 'Fanna mae M Herrieu 'n byw.”

—“Gadewch inni gael gweld a ydyw gartref...onidê... Ydyw... Fe allwch chi fynd 'nawr... diolch!”

\*\*

—“Chi ydyw M. Loeiz Herrieu...dod bob cam i'ch gweld.”

—“Croeso ichi!...pob croeso ichi! 'Gawsoch chi ginio?”

—“Naddo...dod ar frys o *Hennebont*...yn unig swydd...”

—“Arhoswch chi'r prynhawn...? Gwnewch!... Cewch drên tua phump.”

Nid oedd gwrthwynebu i fod. Buasai'n anfoesgar...yma.

—“Dewch i mewn...yr ydym ni ar orffen ein cinio...mi gewch chwithau...ginio gwledig... cartref!”

Ni ellir gwrthod dim a ddywed y Llydawr croesawgar hwn—y dyn mawr hwn, mawr o galon, mawr o feddwl...ie, ac o athrylith. Amaethwr ydyw,—amaethwr eithriadol ddiwylliedig—. Ymffrostiwn yng Nghymru fod gennym ni werin ddiwylliedig, chwarelwyr, glowyr, tyddynnwyr, sy'n wir ddiwylliedig. Ac y mae—diolch i'r nefoedd, lawer o wir yn hynny. Ond y mae'n rhaid imi ddweyd ar unwaith nad oes yn eu plith un Loeiz



Herrieu,—nac oes un. Ac nid yw hynny'n feirniadaeth arnynt, nac yn fymryn o gywilydd iddynt.

Y mae'n wir mai esgidiau pren sydd am ei draed, ac mai dillad amaethwr wrth ei waith sydd am ei gorff. Ond, atolwg, ai yn ôl eich gwisg y mesurir eich mawredd, eich gwerth, eich diwylliant? Dyma ŵr sydd a'i gorff "yn fwy na'r dillad," a'i feddwl a'i fywyd yn uwch na'i fwyd. Dyn ysgafn o gorff, hoyw, ystwyth, gweddol dal; dau lygad deallus a dengar; gwallt, trawswech a barf yn ddu iawn yn y bon ond yn dechrau britho gyda'r brig. Mewn gair, un o'r wynebau harddaf a wel llygad fyth. Pe cerddai ym mhlith tyrfa-oedd ym Mharis fe ddenai sylw ato'i hun. Y mae tua thrigain oed, ond ni ddywedai neb hynny oddi wrth ei gam cyflym a'i feddwl effro. Anadla hoen allan ohono. Gŵr wedi cyrraedd i gyflawnder ei alluoedd, i aeddfedrwydd ei fyfyrdodau.

Gedy fi am funud, i geisio gan ei wraig wneud cinio imi. Eisteddaf mewn ystafell helaeth, a ffenestr fawr yn agor ar yr ardd i'r chwith imi; bwrdd yn y canol, pedair cadair, dwy faine, un gist, cwpwrdd deuddarn, cwpwrdd llyfrau, y cwbl oll o dderw, hwnt ac yma, bob un yn ei le priod, dros yr ystafell. Tu cefn imi, mantell fawr, dlos anghyffredin; oddi mewn iddi, ar bob ochr, math o sgiw fach, ac oddi allan, dwy droell, un bob ochr. Ar y muriau, digon, ond nid gormod, o luniau—lluniau o Lydaw bron i gyd—; ar y cwpwrdd llyfrau, llun o'r *Ankou*—yr Angau—gan Jos Parker; ac uwchlaw'r lluniau, o gwmpas yr ystafell, ermine Llydewig. Y cyfan yn chwaethus, a moethus...ond nid moethlyd.

Cyn imi orffen sylwi ar y cwbl o'm deutu, daw yn ôl—a daw'r ferch gydag ef, gan ddwyn saig gyntaf fy nghinio imi, sef wy ar blat, dewis o fara gwenith a rhyg, ac ymenyn. Dechreuaf ar y cinio "gwledig" hwn, sydd gystal â'r wledd orau. Daw seidr i'r bwrdd a ffa Ffrengig, a chrempog—y *Krampos* Llydewig, diguro—y cyfan o gynnyrch y fferm ei hun, gan gynnwys hyd yn oed yr *eau de vie* o afalau, a geir gyda'r coffi. Fe welwch oddi wrth hyn mor dlawd o beth, mor ddi-ramant, ydyw cinio yng Nghymru. Yr oedd y wraig—a'r ferch—a ddarparodd y cinio uchod ar fyr rybudd, eisoes yn profi eu bod yn ddiwylliedig. Cefais braw pendant arall o hynny mewn ychydig funudau, pan glywais fod y fam yn awdures un llyfr mawr. Gwraig fferm, yng nghanol y prysurdeb nad oes na dechraun a diwedd arno!

Cyn imi gwblhau fy nghinio, daeth hithau yno—gwraig dirion, ddistaw, welw, weithgar—i gyd-yfed yr *eau de vie* a'r coffi du. Yna wedi peth siarad, ymesgusododd, ac aeth hi a'i merch yn ôl at eu gwaith.

Yr oedd yr ymgom rhwng M. Herrieu a minnau wedi hen ddechrau...am Gymru, oblegid bu yntau yma unwaith...ond am Lydaw yn fwyaf...am ei waith ef...ei gylchgrawn, *Dihunamb*—*Dihunwn*!

—“Y mae 35 mlynnydd er pan ddechreuais ef. A dim ond pum-franc-ar-hugain<sup>(1)</sup> a feddem ar y pryd... Heddiw y mae'n talu ar ei ôl, ac yr ydym yn gallu talu i'n hysgrifenwyr...nid llawer, mae'n wir...pum dimai y llinell! Yr unig bapur Llydewig sy'n gallu gwneud hynny.”

(1) Sef tua hanner coron, yr adeg honno!

—“Tua faint o gylchrediad sydd iddo?”

—“Erbyn hyn, tua dwy fil bob mis—weithiau fwy, ac weithiau, efallai, lai. Ond yn y cyfeiriad yma. Y mae'n fantais inni ei gyhoeddi mewn tref fawr fel *Lorient*...cael digon o hysbysiadau.”

—“Faint o amser a gymer golygu *Dihunamb* ichi...?”

—“Llawer...efallai dair awr y dydd...rhwng popeth...gohebiaethau o bob math...cais am y naill beth a'r llall. Ni bydd yr un dydd heb imi gael pump neu ragor o lythyrau'n holi pob math o bethau...llyfrau—dysgu Llydaweg...ac yn y blaen.”

—“Gyda'r gwaith ar y fferm—a hithau'n fawr?...pa fodd y cewch amser at hyn oll ac at ddarllen...?”

—“Ydy'...mae'n fferm fawr...cadw deugain o wartheg...trefnu'r amser...a'r plant yn helpu. Bydda'—mi fydda'n darllen llawer...gan amla yn y gwely...mae gen i dri chant ar ddeg o gyfrolau...darllen *Robinson Crusoe* ar hyn o bryd!...am y tro cyntaf er pan o'wn i'n blentyn.”

—“Fyddwch chi'n gallu cael hamdden i ysgrifennu llyfrau ar wahân i...?”

—“Na! amhosibl! 'Ysgrifennais i'r un llyfr...eto...ag eithrio mân lyfrynau—a d'ydwi ddim yn galw'r rheini'n llyfrau. Y cylchgrawn yn mynd â'm holl amser—egnion...a myfi fy hun i gyd... R'wyf wedi dal i farddoni...ar hyd y blynyddoedd...yn weddol gyson...ac r'wy'n sôn am gyhoeddi casgliad...yn barod o ran hynny. Cewch ei weld toc. Dyna'r cyfan...ond bod fy mhen i, er pan o'wn i'n blentyn, yn llawn dychymyg, a chreadigaethau ffansiol...deunydd

nofelau...pe bai gen i'r amser...ac efallai y caf...rywbryd.”

—“Mewn Llydaweg yr ysgrifennwch y cwbl?”

—“Ie...hynny yw, ers blynyddoedd maith. Cefais innau addysg Ffrengig...hollol Ffrengig...ac yr o'wn i'n dda—yr athro bob amser yn dweyd mai fi oedd y gorau am gyfansoddiadau Ffrengig...Ysgrifennais nofel yn bedair-ar-ddeg oed, am y chwyldro Ffrengig, yn Ffrangeg, wrth gwrs. Ac un arall pan oeddwn i'n ddwy-ar-bymtheg. Roedden' nhw'n ynfyd, mae'n siwr...ond dyna...ynddyn' nhw y cai fy nychmygion...dychymyg cryf gennyf erioed...eu ffordd...”

—“Pa fodd y denwyd chi at Lydaweg...a gwaith eich bywyd?”

—“Yr oeddwn i tua dwy-ar-bymtheg oed pan glywais Botrel yn canu rhai o'i gerddi am Lydaw...ac er mai cerddi mewn Ffrangeg oeddynt, rywfodd dyma nhw'n dechrau deffro...rhywbeth oedd heb ei ddeffro...ac yn gwneud imi feddwl â mi fy hun: 'Beth?... y mae yna'r fath beth â Llydaw...fy ngwlad i...fy mhobl i...fy iaith...' Ac yn y ffordd honno y denwyd fi at Lydaweg...a'r holl ddeffro Llydewig... Dechreuais ysgrifennu Llydaweg...Llydaweg Morbihan...a byth er hynny...!”

Parhaodd ein hymgom yna am dafodieithoedd Llydaw, a chred M. Herrieu mai camgymeriad mawr yw tynnu cymaint o wahaniaeth rhwng tafodiaith Morbihan â'r tair arall, a bod peth bai ar Vallée a'i ysgol na dderbyniant ambell air oddi wrthi pan fyddo'n debycach i'r ffurf hynaf.

Yr oedd yn llawen iawn mai'r dafodiaith hon a gynhyrchodd fardd mwyaf Llydaw yn y ganrif hon—Jean Calloc'h.

—“Roedd e'n gyfaill mawr imi. I *Dihunamb* y dechreuodd ysgrifennu...myfi'n hŷn nag ef...a chymerai ei ddysgu gennyf a'i gywiro... Y golled fwyaf oedd ei golli ef. Wedyn, mi gesglais ei waith...a'i gyhoeddi.”

—“Mi wn '*War an Deulin*'...y mae gennyf i...r'oedd e'n fardd mawr.”

—“Mi wnes i argraffiad arall wedyn—harddach o lawer...”

—“Felly, y mae gwerthu ar ei lyfr...ac o hyd...? Go dda!”

—“Oes, gwerthu mawr iawn—nid yn unig yn Llydaw a Ffrainc—ond yn Ne America, Canada, Belgium, Hwngari, yr Eidal...a phawb yn ei ganmôl yn anghyffredin. Ie: bardd mawr oedd Calloc'h...a d'oedd e ddim wedi cyrraedd ei gyflawnder. Pe bai wedi cael byw, buasai wedi rhoddi inni brydyddiaeth well fyth. Y golled fwyaf a gawsom... Gwyddai ef sut i'w ddisgyblu ei hun...ac ymberffeithio'n gyson... Drwg mawr bechgyn ifeinc Llydaw ydyw rhuthro i'r wasg... ar eu pennau...heb hanner feistroli eu hiaith. Y mae arnaf i gywilydd o'r pethau cyntaf a ysgrifennais, barddoniaeth plentyndod. A byddaf yn cynghori pob bachgen ieuanc i ddechrau mewn rhyddiaith—iddo ddod yn feistr ar ei iaith, ei gyfrwng. Barddoni wedyn...yn lle bod gennym ysgrifennwyr heb drafferthu i chwilio allan drysorau'r iaith, ei phriod-ddulliau, a'i hadnoddau cudd.

Meddyliwch am —(i) wedi cyhoeddi cyfrolau, ac heb ddysgu ei iaith yn iawn hyd heddiw!”

\* \* \*

Yma, aeth fy nghyfaill llengar allan i 'mofyn am rai o'r llyfrau a gyhoeddasai...ac am lawysgrif ei lyfr barddoniaeth ef ei hun.

—“Dyma'r argraffiad newydd o lyfr Calloc'h! Be 'dy'ch chi'n feddwl amdano?...A dyma lyfr fy ngwraig, llyfr o ystorïau.”

—“Hardd iawn! Clamp o lyfr mawr hefyd. Ry'ch chi'n deulu o lenorion!”

—“Ac yn awr, dyma lawysgrif fy llyfr innau...wedi ei rannu yn dri dosbarth...Cerddi Ieuencid, Cerddi Canol Oed, Cerddi Aeddfedrwydd...”

Yr oedd yn eistedd yn fy ymyl, ac yn mynd drwy'r llyfr o gân i gân, gan bwysleisio'r unoliaeth oedd drwyddo. Y mae tua chanol yr ail adran...ac y mae tua hanner-awr-wedi-tri. Ar draws ein siarad anghofus o'r byd oddi allan, drwy ddistawrwydd yr ystafell dawel, dyma drywanu'r awyr yn erchyll gan oer chwibanog! *sirene*, yn hwtian...a chwynnelli...a chwyrlïo'n llaes, hir ddolef gwynfannus, alarus, llawn griddfannau ddiweddedd. Tynged greulon yn cyhoeddi gwae uwchben dynion ar brynhawn cysglyd!

—“*C'est la guerre!*” meddai M Herriou. “Rhyfel!”

—“*La guerre?*” Meddwn innau. “Na ato Duw!”

Yr oedd yr awyrgylch yn rhy drwm i anadlu. Ac wedi i'r faith waedd derfynu, disgynnodd

(i) Yma, enwodd M Herriou Lydawr apdd a'i enw'n bysbys yn Llydaw; ond ni thâl imi ei enwi.

maith dawelwch llethol, pwysfawr, dros yr holl fan,—y bwrdd o'n blaen, y coed afalau yn yr ardd, a'r cwbl a welem, a deimlem allan o'r ystafell.

Daeth ein hymddiddan i ben. Yr oeddym megis delwau wedi glynu yn ein cadeiriau. Codi a mynd allan. Yn y buarth yr oedd Madame Herrieu yn pwyso ar fur, a'i merch a dau o'r meibion ieuengaf yn ymyl, y tri yn dal mewn myfyr-ymwranddo â'r llef a'u gwanodd hwythau.

—“Glywaist ti'r *sirene*?” meddai hi, yn ei ffordd dawel, ddi-gyffro hi ei hun. “A all hi fod yn rhyfel?”

—“Rhyfel...?...Fe ddichon...ond 'chanodd y clychau ddim. Efallai mai *Mobilisation Générale* ...efallai.”

—“Mae Hervé wedi mynd i'r pentre i holi” ...ebe hi. Distawrwydd. Yna, M Herrieu:—

—“Mae'n bert o beth cael bod yn Ffrancwr yn awr!”

Yr oedd hi'n hen bryd imi fynd. “*Kenavo*, a mil o ddiolch...am eich croeso...a'ch cinio ardderchog...!”

“*Kenavo! kenavo!*”

Daeth M Herrieu i'm hebrwng gam bach o'r ffordd. A dweyd:—

“Bûm drwy'r Rhyfel o'r blaen o'r dechrau i'r diwedd; a bûm yn y fyddin am lawer blwyddyn cyn hynny...cyfran helaeth o'm hoes. Ac yn awr y mae gennyf dri o fechgyn sydd yn yr oedran ...ac a elwir i...fyny...yfory...drennydd...!”

Cyn troi'n ôl, soniodd air neu ddau am y fferm, a dangosodd lain o winwydd oedd ganddo. A dalai ffermio yn Llydaw? “Na...pawb yn gadael y tir. Pawb o'm cwmpas yn synnu fy mod i'n

aros...dim ond ffyliaid a chloffion ac anafuson sy'n aros ar y tir heddiw. Ond amdanaf i, yr wyf wrth fy modd...llonyddwch, iechyd, myfyrdod. Heb y tawelwch hwn ni allwn wneud y gwaith a wnaf.”

Oni chlywir yr un geiriau'n union yng Nghymru?

Ysgwyd dwylo, a gwahanu—ef tua'i berchentyaeth ogoneddus—lafurus, minnau'n ôl tua *Hennebont*,...i ddal y trêen pump. Ffordd unig, wledig, a'm meddwl yn crwydro oddi wrth M Herrieu at y cri a glywsom. Yr oedd wedi disgyn fel ergyd taran; ac fel taran, yr oedd wedi gadael yr awyrgylch yn wahanol...yn drymlwythog o ofnau, gwaeau, daroganau. Cerddwn trwyddo, ac anadlwn ef...ac ef yn unig...islaw'r cymylau isel, a'r pinwydd o ddau tu'r ffordd. Cerddwn yn weddol gyflym, ond nid fel arfer. Yr oedd pwysau yn gwasgu, nid ar goesau ond ar feddwl. Wedi tipyn o fynd ar fy mhen fy hun, dyma fi'n gweld y dyn cyntaf ar ôl colli M Herrieu. Y mae'n torri'r glaswellt gyda min y ffordd...ac yn rhyfedd, y mae yntau yn un o'r cloffion. Nesu ato:

—“'Glywsoch chi ryw newydd?”

—“Do,” meddai mewn dychryn; “rhyfel wedi torri allan...wedi ei gyhoeddi am chwarter-weddi-tri.”

—“Tybed?...Sut gwyddoch chi?”...

—“Aeth bachgen ar fotor beic...i lawr...i *Hennebont*...a daeth yn ôl...ac wedi clywed yno.”

Pa faint o goel a fedraf ei roddi ar y cloff... hwn? Yn fy mlaen â mi, nes dyfod i olwg y tŷ cyntaf yn *Hennebont*. Y mae'r gŵr yn nrws yr ardd, a golwg drist, synfyfyriol arno, ac yn



edrych i fyny'r ffordd, i'r cyfeiriad y deuaif i ohono. Y tu ôl iddo, o flaen drws y tŷ, y mae ei wraig...yn wylo'n chwerw, hidl.

—“Beth sy, gyfaill?...Pa...”

—“Rhyfel!...ie, rhyfel...er deuddeg o'r gloch...”

A'i wraig, yn ei dagrau—“Ie, rhyfel...mae'n drist...trist.”

Ceisio eu cysuro yn fy anwybodaeth, ond yn ofer.

—“Oes gennych chwithau fab wedi ei alw?”

—“Un mab sydd gennym...dim ond un...dacw fo...i fyny'r ffordd...yn llusgo'r llwyn coed 'na... gorfod mynd heno!”

\*\*\*

Oddi yno ymlaen, yr hyn a welaf yw twr bach o bobl...yma a thraw...gyda'u gwaeau, yn rhy ddwys i dorri nemor air â'i gilydd, ac yn pensynnu arnaf i, ddieithr ddyn, ar fy ffordd...rhyngddynt. Yna daw merch ifanc, tua deunaw oed efallai—neu lai...allan o dŷ, a cherdd ymlaen, i'r un cyfeiriad â minnau, tua'r dref. Ei dal, a'i chyfarch.

—“Dyma Eglwys *Hennebont*...fanna...ar y clogwyn?”

—“Ie.”

—“Eglwys dlos, ond ydy' hi?... A oes rhyw newydd? A ydyw'n wir fod rhyfel wedi torri allan?”

—“Na: d'oes dim rhyfel...eto...dim ond y *mobilisation générale*. Gobaith...o hyd...rhithyn bach, bach...”

Sieryd yn gall, hirben, fel hen wraig...neu athronydd...

—“R'ych chi'n dal i obeithio...dyna'r ffordd!... Oes gennych frawd i fynd...neu wedi mynd?”

—“Na...nid brawd...fy nhad...mae e'n dair-a-deugain oed... Mae'n drist meddwl...trist!...ond y mae lle i obeithio...tra byddo rhithyn...bach... yn aros.”

Y fechan ddewr! Deuai dagrau i'w llygaid... ond trechai hwy, a'u gorfodi i gilio, i guddio...o'r golwg. Odidog ymdrech i ymddisgyblu! Corff hardd—calon harddach fyth. Dyma drysor...i'w thad...ac i'w mam, wedi ei fyned ef.

\*\*\*

Dyma fi wedi mynd drwy ganol y dref, ac yn tynnu i fyny at yr orsaf. I mewn i'r *café* lle y gadewais fy ysgrepan y bore. Y wraig, gwraig ifanc, tua phump-ar-hugain oed, yn gofyn imi:

—“Gawsoch chi afael ar M. Herrieu?”

—“Do! diolch...a threulio'r prynhawn gydag ef. Wel, pa newydd sydd...? 'Rwy'i wedi clywed cymaint...?”

—“Fe glywsom ni'r newyddion wedi ichi fynd...am hanner dydd... Yr Almaen wedi dechrau'r rhyfel yn erbyn y Pwyliaid...am chwech o'r gloch y bore—. Wedi ymosod ar bedwar lle...”

\*\*\*

*Dawns Angau wedi dechrau!*

\*\*\*

—“Rhybeth arall? Ffrainc...?”

—“Na! 'does dim rhyfel cyffredinol...eto...  
*pas encore!* Dim ond *Mobilisation Générale...*  
o hanner nos heno!”

—“Dyna!...diolch...dychryn a braw a fu fy rhan  
i heddiw. A oes llawer wedi mynd oddi yma?”

—“Oes... lluoedd...bob dydd...ers wythnos;  
trenau'n llawn ohonynt. Aeth pedwar trê'n heibio  
heddiw.”

—“Wedi imi fod yma gynnu?”

—“Nage!...dau cyn hynny...a dau wedyn.  
A'r nos, llawer iawn o drenau...mynd a'r byddin-  
oedd tua'r Dwyrain...Mae'n o ddifrifol...ngŵr i  
wedi mynd...a gŵr hon” (gwraig o'r wlad oedd  
yn eistedd yn ddi-air-o'i-phen ger llaw).

\*\*\*

Ar hyn, dyma ddyinion yn dechrau dod i mewn  
...o'u gwaith...dynion cryfion, gweithwyr â wyneb-  
au cochion, gan lafur a chwŷs a hin Llydaw, yn fawr  
eu syched a'u blinder. Cyfarch gwell i wraig y  
*café*, eistedd yn dri yma...ac acw...wrth y byrddau  
bach. Clywaf beth o'u siarad...o'r tu ôl imi...o'r  
naill du...O'r tu ôl y daw hwn:—

—“Dyma'r *aîl* i mi!...Pum mlynedd ar hugain  
yn ôl y torrodd y llall allan...Cofio fel pe bai hi  
ddoe...r'own i yn *St. Petersbourg* ar y pryd. Yr  
wythfed-ar-hugain o fis Gorffennaf oedd hi. A!  
*Dau* mewn chwarter canrif!”

Yr un pryd, ar fwrdd arall, y mae gŵr dros  
ei hanner cant oed yn brysur yn torchi ei lewys  
...i ddangos ei glwyfau...Yr olion yn erchyll.

Daw bachgen ieuanc gwinau i mewn, ac â at  
yr un bwrdd:—

—“Wyt ti ddim wedi mynd...?”

—“Na...ches i mo ngalw eto. A da i ddim  
cyn hynny...a dim eisiau mynd. D'oes gen i  
ddim i ymladd drosto! Beth a *feddaf* i?”

Ni ddadleua neb ag ef, efallai am y gwyddant  
mai cellwair y mae. Pery'r siarad yn ddiwyd  
ac yn ddwys, o fwrdd i fwrdd. Mae'n bryd  
imi fynd i gwrdd y trê'n. “Dydd da, foneddigesau,  
foneddigion!”

\*\*\*

Y mae'r orsaf yn gymharol lawn, a phawb  
yn rhyw bryderus feddylgar. Y mae papur gwyn  
mawr y Llywodraeth wedi cyrraedd, a'r geiriau  
hyn yn fras uwch ei ben:—

ORDRE

de

MOBILISATION GÉNÉRALE.

Pob pen wedi ei droi tuag ato, ac yn darllen  
ynddo y gorchymyn am ddyfynnu pawb mewn  
oedran milwr, am hanner nos heno. Sefyllian yn  
ben-syngar a wna pawb, nes clywed sŵn trê'n  
gwyllt yn rhuthro at yr orsaf...a thrwodd. Y  
mae'r drws o'r ystafell i'r orsedd ar gaead, a rhed  
pawb at y ffenestr i geisio gweld beth yw cynnwys

...a golwg...ac ystyr y trên gwyllt. Llamu ofer!  
nid oes ail olwg arno!

\*\*\*

Yn ei amser, daeth ein trên ninnau i mewn, gan ein dwyn ar daith ddifyr tuag *Auray*, a difyrrach oddi yno i *Vannes*, erbyn chwech o'r gloch. Y mae gennyf bedair awr yma cyn cael trên cyflym oddi yma i *Rennes*...ac efallai...i *Baris*. Disgyn, a gweled o'r tu blaen i'n trên ni, un arall, anferth o hir, yn llawn milwyr, meirch, gynnau—ar eu ffordd tua'r Dwyrain eto. Cyn mynd allan i'r dref, gofyn am yr *Action Française*. Heb gyrraedd!

Gadael yr orsaf. Y peth cyntaf a welaf ydyw plant yn chwarae yn yr Ardd Gyhoeddus yn ymyl—golygfa hoffus, dangnefeddus. Ar y gongl nesaf, cylch o bobl yn darllen y "*Gorchymyn*" uchod; ond ar yr heol hir, dlos, dan gysgod coed, oddi yno hyd ganol y dref, dim cyffro i'w weld, er bod yma nid ychydig o filwyr hwnt ac acw. Canol y dref—digon o fywyd, a mynd a dod, ond dim cynnwrf. Heibio llawer hen dŷ golygus iawn, ac at yr Eglwys Gadeiriol. Yr un pryd â mi, y mae un swyddog o'r fyddin yn mynd drwy'r drws, a gwelaf ef, mewn munud, yn ddwfn yn ei fyfyrdod. Y mae deuddeg yma, mwy o ferched nag o ddynion, eu gwedd yn ddwys, a'u gweddi'n daer...yn y llwyd-dywyll, gyda golau ambell gannwyll yn taflu llewylch gwawr-goch ar draws conglau'r anferth adeilad. Cerddaf yn euog heibio iddynt...at y brif allor, ac o'i chwmpas

...allan ar y chwith i weld y clas, ac yna yn ôl eilwaith i'r dref brysur. Dynion a merched wrth eu gwaith...yn llon, a gwên ar eu hwynebau. Pwy a fyddai ddigalon a thrist, a chalon y bobl hyn yn curo mor gynnes, mor groesawgar megis, mor debyg i bob-dydd?

\*\*\*

Rhaid imi droi i mewn i'r *Café de Bretagne*, i gael cwpanaid o goffi...y mae wedi saith o'r gloch...ac i ysgrifennu tipyn. Diwyd a difyr. Ar y bwrdd o'm blaen y mae pedwar o ddynion yn chwarae cardiau 'n ddyfal...yn boeth...a hyd at ymdaeru'n wyllt am ennyd. Swyddogion a milwyr yw'r mwyafrif o'r lleill—i gyd yn siriol. Gall estron fod yn gartrefol yn eu canol...a'u hedmygu er ei waethaf. Pa "ystyr hud" sydd i'w hymarweddiad llednais? Pasia awr heibio yn ddiarwybod. Penderfynu bwyta cinio yn y gwesty wrth yr orsaf, er mwyn cael bod yn gyfleus...a chael gweld a ddaeth yr *Action Française*. Naddo! A gwelaf bapur gwyn arall ar y mur:—

### SUSPENSION DES TRANSPORTS

de

### VOYAGEURS.

Penderfynaf â mi fy hun beidio ag aros dim yn *Rennes*, ond mynd yn fy mlaen yn syth i *Baris*; canys yfory, bydd pob trên at wasanaeth y milwyr. Swpera...a chyrchu am y tro olaf at

yr orsaf. Llawn. Pobl oedd heb fynd yn ôl i Baris, yn awr i gyd yn mynd. 10-30. Daw'r trê'n i mewn—yntau eisoes yn llawn, gellir tybied. Esgyn, cerdded o fan i fan, i fyny ac i lawr. Dim lle. O'r diwedd, gweled lle yng ngherbydau'r dosbarth cyntaf. Beth amdano? Dau ddyn— Iddewon y mae arnaf ofn—sy'n ceisio ei gadw iddynt eu hunain. Gadael fy ysgrepan yno, beth bynnag, a chwilio drachefn. Naws gwell! Yn ôl i'r un lle, a'i gymryd yn hyf. Eraill yn dyfod, yn eu plith un ferch ddeunaw oed, mewn tipyn o helbul, ac un o'r ddau ddyn yn dangos ei ddannedd iddi.

—“Saesnes ydych chi...?”

—“Ie...a chwithau?”

—“Nage...Cymro...os gwyddoch chi'r gwahan-iaeth! Ar eich pen eich hun ydych chi?...”

—“*Yes! O! I'm miserable...all on my own!*”

—“Dyma le ichi...fan yma. 'Gaf i roi 'ch pethau chi i fyny? Eisteddwch...byddwch yn berffaith gysurus.”

—“O! diolch yn fawr ichwi...Ond tocyn trydydd dosbarth sydd gennyf i.”

—“Na hidiwch ddim. Tocyn ail ddosbarth sydd gen innau. Ond dyma ni yn y cyntaf...ac rwy'i newydd gael cennad i aros yma. Yr ych chwithau yr un mor ddiogel yma...bellach. I ble'r ydych chi'n mynd...i Baris...a Llundain?”

—“Ie...Paris. Llundain...drwy Dieppe...New-haven.”

—“Yr un ffordd â minnau'n union. Ac os ydych chi'n dewis, mi gadwaf gwmni ichi bob cam i Lundain?”

—“Mi fyddai'n falch...r'oeddwn i mor unig, mor druenus.”

—“Peidiwch â bod yn unig ddim mwy. Ydych chi'n smocio...? 'Gymerwch chi sigaret...?...wedi arfer...efallai...yn Ffrainc?”

—“Cymeraf...os gwelwch fod yn dda...”

Erbyn hynny, yr oedd y Saesnes ddiethr wedi dyfod ati ei hun yn lled dda, ac yn rhoddi tipyn o'i hanes imi. Aethai allan i Ffrainc yng nghwmni Ffrances a fu'n treulio mis neu ddau yn ei chartref hi yn Llundain. Bu dair wythnos a thridiau yn aros gyda'r teulu mewn lle bach ar lan y môr, yn union i'r de o Vannes. Cael amser da iawn yno, ond y teulu, oherwydd bod ar eu gwyliau, heb ddarllen y papurau ers dyddiau, a heb ddilyn y digwyddiadau. Hithau'n derbyn llythyr oddi wrth ei Mam yn ei galw adre ac yn dirnad yn ddisymwth waethed oedd pethau. Pacio'i dillad a bwyd ar gyfer taith dau ddiwrnod—“*oceans of food*” chwedl hithau...a'i gyrru i'r orsaf, yn y lle bach ar lan y môr, rhag ofn colli eu cerbyd newydd, pe deuent â hi i Vannes.

—“Ers faint ydych chi yn Vannes?”

—“Dwy awr...ar y stesion drwy'r amser...braidd yn unig...a'r cwbl mor ddisymwth. A'r dychryn gan y sôn am ryfel...ond yr wyf yn dod ataf fy hun yn iawn...Peidiwch â synnu os cysgaf cyn bo hir.”

—“Ie, gwnewch...mae hi wedi un-ar-dddeg o'r gloch, mae gennym wyth awr cyn y byddwn ym Mharis.”

Yn yr un lle â ni, yr oedd y ddau Iddew, a gwraig neu ddwy, ac un dyn ifanc wedi dechrau hepiant ychydig. Yr oedd hi'n boeth iawn yno. Tynnwyd



peth o'r ffenestr i lawr, a chodi'r llen. Yr oedd y gawod law a ddechreuodd yn *Vannes* wedi peidio, a'r noson yn gannaidd olau. Torrai'r trêen ei gorff tywyll, du, ar draws y gwastadeddau disglair, ac yn ei grombil gannoedd o bobl mewn pryderon, ac eto heb adael iddynt dynhau amdanynt na'u llethu. Ceisiaf innau gysgu, ond yn ofer. Y mae'r lloer yn llewychu ar goedlannau maith.

\* \* \*

*Dydd Sadwrn, Medi 2.*

Newydd droi hanner nos. Y mae *Rennes*, prifddinas Llydaw, yn dyfod i'r golwg yn loyw hardd, ei thôau a'i muriau'n wynion dan leuad naw nos olau. Fel hyn y gwelais hi gyntaf am bedwar o'r gloch y bore, dydd Mawrth, y chweched ar hugain o Fis Hydref, 1920, a phawb oll yn cysgu. Arafu, aros. Y mae'r orsaf hithau'n olau, lân, ac yn dew gan bobl ar eu ffordd allan o Baris i'r wlad, i ddianc rhag y llid. Ymddangosant yn ddiidig a digwyn. Yn eu plith, dyrnaid bach yma ac acw o blant—plant bychain, del, yn barablus effro—eu lleisiau tanbaidd yn tincian fel clychau...ac yn eistedd ar fagiau teithio, gyda merched Llydaw ar eu gliniau o'u blaen, yn eu diddori, eu hanwylo, eu hanwesu'n garuaidd:

"*Mon chéri!*"

"*Oui, ma petite chérie!*"

Llun bychan perffaith!

\* \* \*

Ail-gychwyn. Ar ffrwst tua *Vitré*, a heibio iddi hi a'i hen gastell, a'r gwesty lle y cysgais nos, ddeng niwrnod yn ôl. Aros yn *Laval*...ac yn *Le Mans*, a'r ddwy'n degaidd dan y lloer, a'u gorsafoedd yn ddi-ffrwst, ond yn lled brysur. Drwy'r wlad eto. Mae'n gyfareddol hudol ac yn wyn, wyn: caeau'n cydio'n dynn am ei gilydd; gwartheg yn gorwedd ac yn pori bob yn ail—gorwedd ynghyd, pori ar wahân—; ambell faes o fyd yn aros yn ei ysgubau ac yn traethu bod

y gwŷr ieuainc wedi mynd...pwy, bellach, â'u hel at ei gilydd, ond yr henwyr a'r gwragedd?...; dŵr yn gloywi ar wyneb llyn, neu mewn afon ar ei ffordd dan bont y pentre; rhesi coed ar gerdded tua'r trefi. Mor Ffrengig yw'r cwbl! Ceisio tynnu fy llygaid oddi ar y môr gwlad doreithiog ei chyfoeth a'i chyfrinachau, dan ffurfafen serenog, ac unbennes o loer, a fwythai bob rhan o'r greadigaeth oedd dan ei golau a'i gofal. Dim modd. Y cwmni yn y trêen yn cysgu a deffro, deffro a chysgu bob yn ail. Y Saesnes yn cysgu'n well na neb. A'i holl ofidiau wedi ffoi.

\*\*\*

Hepian a deffro rywle rhwng *Chartres* a *Versailles*, a'm llygaid hanner cau yn ymdrechu i sbio ar y wawr yn torri'n goch ar y gorwel, ac eglurdeb cyfrin nos olau'n troi'n eglurder llachar y bore glas. Ar fryncyn pell, ar y ffordd fawr rhwng *Paris* a *Chartres*, tân fflamgoch yn llewychu...oddi ar ffenestr cerbyd modur yn ei gloywi hi o gyfeiriad y Brif-ddinas...ac un arall eto, ac un neu ddau wedyn...i gyd ar redegfa orwyllt. Pa negesau sydd ganddynt? Pa newyddion a wyddant?...Pa wybodaeth a ddygant gyda hwy i'r wlad? Y greadigaeth mor odidog...mor afrad ei golau, ei lliwiau, ei gwenau...a'r lladdfa fawr wedi dechrau, a'r byw ddoe yn feirw heddiw...tua Pholand! O ryfedd, ryfedd, wrthnaws!...Dyma *Versailles* a'i phlasau cwmpaswych...a *Sèvres* werdd, goediog...a maestrefi *Paris*... a gorsaf *Montparnasse*.

Disgyn. Y mae'n chwarter i saith y bore, a Pharis fel arfer yn ogoneddus effro, yn odidog ddi-gyfnewid. A'r Saesnes a minnau i'r *café* cyntaf ar ein cyfer.

—“R'wy'n siwr bod eisiau bwyd arnoch chi...”

—“Oes tipyn.”

—“Da iawn! Ni gawn ni bryd bach tan gamp o'r tu allan i'r orsaf 'ma 'nawr.”

—“Ydych chi'n hoffi brecwast y Ffrancwyr?”

—“Ydwyf...yn hoff iawn erbyn hyn.”

—“Yn awr amdani!”

Galw ar y *garçon*. Druan bach! Gweiddi “*Oui*” ydyw'r gorau a fedr ei wneud, gan gymaint y galw sydd arno...gan luoedd, o bob cyfeiriad. Y mae'r chwys yn diferu i lawr o'i wyneb—mor fore â hyn.

—*Garçon?*

—“*Oui, oui, oui!*...r'wy'n dod...r'wy'n dod... hanner munud.”

Y mae gystal â'i air...daw â'r llestri...a'r coffi du, a'r llefrith poeth...

—“A 'beth fynnwch chi?...Bara 'menyn?”

—“Ie.”

—“Nawr 'te, Miss Wright, gwnewch eich gorau! Mae e'n dda, on'd ydy'?”

—“Mi wnaf, diolch. Ydy'...y mae e'n dda.”

Yr oedd newyn ar Miss Wright, ac ni bu fawr o dro cyn mynd drwy'r bara ymenyn i gyd. Galw eto ar y gwas:

—“*Garçon!* rhagor o fara ymenyn!”

Ond yr oedd ef dros ei ben a'i glustiau mewn gwaith. Ac nid oedd dim i'w wneud ond imi godi at y bwrdd cyfrif, a chymryd y bara oddi yno.

—“Esgusodwch fy mysedd...dyma ichi...bwy-tewch!”

—“Gwnaf...yn llawen. O! 'r'ych chi'n garedig.”

—“Dim o gwbl! Yn fy ngofal i yr ydych chi nawr. Felly!”

Wedi cael rhagor eto o fara ymenyn, a bowl-ennaid arall o goffi, dyma fi'n mynd dros y gornel am bapur. Ydyw, y mae'r *Action Française* i'w gael heddiw, beth bynnag. Newyddion? Byddin yr Almaen wedi ymosod ar y Pwyliaid ...mewn pedwar...pump...chwech o fannau, ac yn y blaen, yn y blaen. A pha beth a ddywed Maurras heddiw? “Un dewis sydd: *En avant!* Ymlaen!...Gan fod y rhyfel arnom, ymlaen hyd y fuddugoliaeth...*Vive la Victoire!*” Hyd y bore heddiw, daliodd i ddadlau â'i holl egni dros Heddwch. Torrodd Hitler y ddadl drosto!

\*\*

Codaf fy mhen o'r papur. Y mae'r holl le'n ferw gwyllt gan gerbydau o bob math...yn gwau drwy'i gilydd, ar sodlau'i gilydd, blith draphlith ...a dynion yn disgyn ohonynt, ac eraill yn esgyn ...Y wyrth ryfedd, nid oes dim damwain! Cyrn yn canu, ceir yn chwyrlio...dyna'r cwbl! Yr un cyflymder ag arfer...yr un rhuthr, yr un tuth a charlam. Ar wahân i hynny, pawb yn ddi-ffwdan, yn frwd-ydddiddangar. Neb yn siarad am ryfel. Pawb yn meddwl amdano. Pawb yn ei ddisgwyl bellach; a llawer a erys ynddo. Un fintai fechan

o blant yn cyrchu tua'r orsaf, yng ngofal dwy leianes, a'r haul yn llathru ar eu capanau gwynion.

\*\*

—“Yn awr, Miss Wright, yr wyf i am fynd yn gyntaf i *Place de la Sorbonne*, i ymofyn pecyn o lyfrau a adewais yno wrth fynd i Lydaw. Mi gymerwn darsi tuag yno, ac mi ddangosaf ragor o Baris i chi. Mae gennym dair awr yma eto. Ydych chi'n cytuno?”

—“Debyg iawn! Yn ôl eich cyngor chi...!”

Ond un peth oedd dweyd yr awn i geisio tacs; peth arall oedd cael un. Nid am nad oedd yno ddigon ohonynt...yr oedd yno gannoedd, yn ymryson gyrru am y gwyllt. Ond nid cynt y safai un i'w ddadlwytho nag y llenwid ef drachefn, gan y llu oedd ar bob congl a phalmant yn amneidio, galw, ac yna'n ymgolli i'r ceir. Aeth deng munud...efallai bymtheg...cyn imi lwyddo i gael un, a chyrraedd yn ôl at fy Saesnes.

—“Dyma fi wedi cael un o'r diwedd...drwg gennyf...”

—“R' oeddwn i'n dechrau meddwl eich bod wedi ngadael i!”

I fyny, a thrwy'r ddinas, ac i'r gwesty. Cael y llyfrau, a'u hail bacio yn yr ysgrepan...a gadael y cwbl yno am ennyd.

—“Yn awr, gallwn gymryd o awr a hanner

i ddwy awr i weld tipyn o gwmpas...Hynny'n iawn? Ydych chi'n hoff o gerdded?"

—"Mi gerdda'i faint fynnoch chi! Cyfle da i weld *Paris!*"

\*\*

Mynd!—at y *Sorbonne*...i olwg y *Panthéon*, i mewn i'r *Jardin du Luxembourg*, lle y chwaraeai'r haul ar wllith myrdd o flodau o bob lliw a llun. Yr un godidowgrwydd moethus ag erioed! Ac nid yw dwndwr y ddinas fawr ond yn braidd gyfwrdd â'r heddwch sydd yma. Llygadu'n hir, gwrando'n astud, llyncu rhiniau! Allan, ac i lawr y *Boulevard St. Michel*, at yr afon...ar y dde, at y *Notre Dame*, ac i mewn. Croesi'r ynys ac at hen blas y brenhinoedd, ac i wŷydd y *Sainte Chapelle*. Ym mhobman, y mae *Paris* ar ei gorau, a gwe o des cyfrwys yn gwau am ei phen—am ei choedydd, ei theiau a'i phlasau, am saethau a thyrau ei heglwysi. Cyrraedd yn ôl nes bod ar gyfer y *Sorbonne*. Edrych i lawr y *Boulevard St. Michel* eto. Ymestyn yn ysblynydd oledfol ar i waered at yr afon, a'i rhesi coed yn cerdded gyda'i hystlysau; a thros y brigddail rhudd, cyfyd y *Sainte Chapelle* ei do disgleirddu a'i saeth grych yn un rhyfeddod tua'r crwybr bore. Fy ngolwg olaf arnat ti...cyn y daw'r ddrycin! Pa bryd y'th welaf eto? Pa bryd fydd arnat?

\*\*

Y mae tua hanner awr wedi naw, a rhaid meddwl am fudo oddi yma i'r *Gare St. Lazaire*, i gael y trên am Lundain. Ceisio taci. Dim gobaith! Nemor un i'w weld bellach—a'r un hwnnw bob cynnig yn eiddoi swyddogion y fyddin. Y llywodraeth newydd gymryd gafael arnynt hwythau! Bws? Wedi peidio hefyd! Nid erys dim ond y ffordd dan y ddaear. A cholli gweled rhannau eraill o'r Ddinas—Y *Champs Elysée*, a gerddi'r *Tuilleries*, er enghraifft. Dyna bechod! Ond d'oes dim arall amdani!

Cyrraedd drwy'r cwbl, a chael yr orsaf yn ddu gan bobl—Saeson bron i gyd, ar ffo o Ddeheudir Ffrainc, Swistir a chanol Ewrop. Er hynny i gyd, cafodd fy Saesnes a minnau le da yn y dosbarth cyntaf unwaith yn rhagor. Yr oedd gwên fuddugoliaethus ar ei hwyneb! Pob gofid wedi hen ddiffannu! Diau na wyddai hi ddim am y chwithdod a deimlwn i wrth droi cefn ar Baris. Mor hawdd oedd anghofio hwnnw hefyd pan ddaethom allan i'r wlad, drwy heulwen rhwng coedydd gleision a dolydd gwllithog. Yr oedd yr holl ardaloedd yr aem trwyddynt wedi eu dilladu megis ar gyfer gwledd. Boddid glesni meysydd, coed ac afon mewn goleuni melyn, mewn aur. Ac ni ddangosai na gwlad na gorsaf, na thre na phentre, ddim a ddatguddiai fod yr alanas fawr ar ddyfod. Pob un wrth ei waith, y naill yn ei faes, a'r llall yn ei fasnach.

\*\*

Un o'r gloch, *Dieppe*. Yn y golwg, d'oes dim gwahaniaeth yma ychwaith, os nad yw'r sylu'n



fwy nag arfer ar y llond trên mawr yn tramwy tua'r porthladd. Mynd trwy'r tollau heb ddim trafferth, ag eithrio bod gwasgu tynn arnom o bob tu gan y tyrfaeodd yn llusgo drwy'r tollbyrth. Dringo i'r llong, ac i fyny i'r bwrdd uchaf, i sylu ar y cannoedd eraill yn dylifo i mewn. Talu am fenthyg dwy stôl, ac eistedd. Yr oedd Miss Wright wedi gwrthod cymryd cinio ar y trên, gan fy sicrhau bod ganddi'r '*oceans of food*,' ys dywedasai o'r blaen. A wnawn i ymuno â hi? Gyda diolch, wrth gwrs!

Agorodd flwch mawr, ac allan ohono dechreuodd ddatguddio ei drysorau: blychaid o gaws, pedwar wy wedi eu berwi'n galed, bara bach melys—torthi bach ohono!—potelaid o win...roedd hi wedi cael ei dewis o amryw winoedd!—halen, siwgr, ffrwythau, a d'wn i ddim yn iawn beth arall. "Moroedd," yn wir! Ac un peth arall, o leiaf, cwpan o bapur, i yfed y gwin.

—“Beth da yw'r siwgr?...R'wy'n methu deall ...d'oes 'ma ddim coffi i fod? Beth oedd yn eu meddwl nhw?”

—“I chi ei fwyta ar ôl eich cinio...?”

Ond ni chafwyd eglurhâd boddhaol ar bresenoldeb y siwgr. Yr oedd diben yr halen yn amlwg. Ond sut i'w ddefnyddio, gan nad oedd yr un llwy?

—“Fel hyn...! mi gymeraf i wy, a rhof ei ben yn yr halen a bwyta...ac felly wrth fynd ymlaen! Gwnewch chwithau yr un modd—os nad oes gwahaniaeth gennych!”

—“R'wy'n eithaf parod...d'ydw' i ddim mor...mor gysetyd...â hynny.”

Ac felly yr aethpwyd drwy'r wyau a'r bara melys a'r caws...hyd at y ffrwythau...a'r gwin, a yfwyd o'r cwpan papur.

—“*Not a bad picnic!*” meddai'r eneth, yn falch o'i chinio awyr agored ar fwrdd llong, gan gasglu pilion yr wyau, yr afalau a'r peranau, a'u gosod mewn papur yn daclus yn ôl yn y blwch.

—“Yr ych chi'n ofalus iawn o'r briwsion a'r gweddillion...”

—“Ydwyf, d'oes dim sy'n gasach gennyf nag unrhyw fath o aſterwch.”

Yr oedd glannau Ffrainc yn dechrau cilio o'n golwg erbyn hynny. Ac yn union deg, dyma haid o longau awyr yn hofran uwch ein pennau, a haid arall ar eu hôl, yn mynd tua Ffrainc—fel adar yn ymfudo. Holl wynebau'r llong yn troi i fyny. Yna, yn ddisyfyd, disgyn un ohonynt ar ei phen i'r môr...ac o'r golwg.

—“Wedi boddi!” meddai môr o leisiau.

Trodd ein llong ni oddi ar ei ffordd, ond yr oedd llong arall a deithiai o *Newhaven* tua *Dieppe* yn y fan a'r lle o'n blaen. Gollyngodd gwch i lawr, a gwelsom godi'r awyrblen i'r lan—heb foddi neb. Curo dwylo mawr iawn ar fwrdd ein llong ni. Yna, dyfod eraill yn yr awyr...deg, pymtheg, ugain—ar yr un daith...i Ffrainc.

—“Taith ddifyr,” meddai fy nghydymaith... “D'oeddwn i ddim wedi disgwyl gweld dim fel hyn!”

—“Bydd yn rhywbeth ichi sôn amdano wrth eich rhieni...a'ch cyfeillion...Ac ysgrifennu amdano

yng nghylchgrawn eich ysgol?"

—“O! ie!...syniad da...diolch!”

\*\*

4-30. *Newhaven*. Dim trafferth yn y dollfa yma ychwaith, dim agor ein bagiau hyd yn oed. Am y cyntaf i'r trê, a chychwyn drwy wlad las, yn debyg i lawer ardal yng Nghymru. Fel y dyneswn at gyrrau Llundain, gwelwn rwydwaith o awyrennau yn estyn allan yn fygythlyd i bob cyfeiriad, a golwg aruthr, ddrwg-argoel arnynt. Dyna Lundain oddi-allan, oddi-uchod! Cyraedd *Victoria* am chwarter i saith, a sylwi ar gryn symud gwylltach nag arfer. Y papurau'n sôn am gyfarfod o'r Senedd, a Mesur Gorfodaeth Newydd. Awn drwy'r miri, i gael cwpanaid o de cyn gwahanu. Gofyn fy Saesnes imi ysgrifennu gair yn yr *Album* sydd ganddi. I beth? ...Wel, pam lai? Ond pa beth? Penderfynu, ac ysgrifennu:

*Jeune fille, sans mélancolie,  
Blonde comme un soleil d'Italie, &c.*

hyd at y diwedd.

—“Mi a'i darllenaf allan i chwi...ysgrifen go ddrwg gennyf...wna fo'r tro?”

—“Gwna...yn iawn. 'D'yd y'r diwedd ddim yn hollol wir 'chwaith. Nid gwin a gwanwyn...yw'r cwbl.”

—“Gwir iawn...er eu bod hwythau'n rhan bwysig o fywyd.”

—“R'wy'n diolch yn fawr ichwi...ac yn enwedig am y cwbl a wnaethoch imi er pan welsoch fi yn *Vannes*. Fedra'i ddim dweyd wrthych chi fyth gymaint o gyfaill a fuoch imi. *I was so miserable...and you made me happy.*

“Mi wnes fy nyletswydd, a dyna'i gyd. Ac yr wyf mor falch â chwi o'r herwydd. Buoch chwithau'n gwmni bach annwyl a difyr dros ben.”

Hebryngais hi at y bws a'i dygai hi i'w chartref yn fuan, ac yno y gwahanasom ar ôl bod ugain awr yn anwahanedig.

Mynd yn ôl i 'mofyn fy ysgrepan, ac yna i ddisgwyl am fws i'm cludo tua Euston. Yr oedd hi'n dechrau tywyllu'n gyflym erbyn hynny, a phan ddaeth y cerbyd, yr oedd hi'n dywyllach fyth ynddo yntau. Bu'n rhaid imi gael un arall wedyn, a cherdded rhyw gymaint ar yr heolydd. Tywyll iawn, iawn. Prin y gellwch weld eich llaw, na dynion yn dyfod, na dynion yn mynd. I mewn i'r ail fws. Tywyllwch dudew! o'ch cwmpas, allan ar yr heolydd, ar wynebau dynion a merched ym mhobman. Cofio am un o gywyddau Tomas Prys, Plas Iolyn, “*Cywydd i ddangos mai uffern yw Llundain!*”...A pha fodd y bydd y dynion hyn byw yma am wythnos...mis...mis-oedd...yn y düwch ofnadwy hwn?

\*\*

Yn Euston miloedd ar filoedd o ffoaduriaid o'r ddinas ddihenydd, dynion a gwragedd o bob gradd a chyflwr a phlant bach yn eu coflau, yn ymffyrnigo ar draed ei gilydd...pentwr o gnawd

a dillad a chwŷs, o eiddigedd a chasineb ac ofnau dall. Y gwahaniaeth rhyngddynt â thyrfa yn Ffrainc! Honno bob amser yn ddynol, radlon, a phob person ynnddi'n bod fel person dynol...hon yn giwed anraslawn,...cwingod mewn corlan. Ar eu pennau eu hunain, yn burion efallai...ond gyda'i gilydd, lleng mewn lloc. Anhepgor mwyaf gweriniaeth...llawer o ddylni, chwedl Bagehot. Aent tua Deheudir Cymru...ac Iwerddon, a... Dilyw!

Yr oedd gennyf deirawr i aros cyn y cawn drên am Fangor, ac eisteddais i gymryd tipyn o fwyd yn yr ystafell fwyta sydd yno. Mor chwithig, y bwyd a'r awyrgylch, wedi bod yn eistedd ac yn bwyta ac ymddigrifo yn neuaddau bwyta Llydaw a Ffrainc! A'r gweision! Druain bach! ...gallai'r gwas lleiaf yn Llydaw, a'r forwyn fach yn *Landerneau* ddysgu myrdd o wersi i'r llabystiaid ag ydynt!

I mewn i'r trên, yntau'n dywyll ac yn llawn o ffoaduriaid eraill—tua Gogledd Lloegr a'r Alban—ac yn eu plith blant bach annwyl, bob un a'i fwgwd nwy ganddo. Mynd, tywyllwch drwy dywyllwch, a phob gorsaf a welem o gwbl, yn ddu fel y fagddu.

*Dydd Sul, Medi 3.*

Cyrraedd Crewe, tua dau o'r gloch y bore, a disgyn i'w thrueni hithau. Aros awr...rhagor...yno, gan grwydro'n ôl a blaen rhwng cwmniau duon, gwasgaredig...colledig, a'r rheini'n mudo'n ffolog yn ôl cyngor a gwrth-gyngor swyddogion sarrug yr orsaf. Dduw!...ba fyd? Dianc i'r trên...ac i dipyn o gwsg sigl. Deffro tua'r Hen Golwyn, a cheisio cadw llygaid yn agored i gael gweld... beth? Dyffryn Conwy, a'r Castell, a'r llongau bach, a'r môr. Y mae'r wawr wedi torri...ond yn gymylog.

Saith o'r gloch...Bangor. Dau funud, ac i fyny'r grisiau at y tŷ. Clywodd Luned fi'n curo, a dacw hi a'r plentyn iengaf, Dewi, yn ffenestr, y llofft. Croeso! Dyma fi'n ôl, gartref, o'm crwydro. Mor ddihangol o dywyllwch Llundain, ac o ffôedigaeth brawychus ei ffoaduriaid! A gallaf ddwyed gyda du Bellay:—

*Heureux qui, comme Ulysse, a fait un beau voyage.*

Un-ar-ddeg o'r gloch. Lloegr a'r Almaen wedi llithro'n esmwyth dros y dibyn o gyflwr bygwth i gyflwr rhyfel...Yr wyf adre ers dwy...tair... pedair...awr!

Hanner awr wedi un-ar-ddeg. Ffoaduriaid Lerpwl yn dylifo i mewn i Fangor...wrth y miloedd...a'u gwae a'u gwanc...a'u budredd—a'u pryfed...gyda hwy.

Pump o'r gloch y prynhawn. Ffrainc a'r Almaen wedi eu rhyddhau...o'u hansicrwydd mawr a'u poen meddwl. Dim mwy o ymbiliadau, deisyfiadau...Gwelaf y newydd yn disgyn o'r

anwel ar Baris...Sabothol ..dan ei haul ; ei heolydd a'u palmant yn cerdded gan bobl...gwragedd yn aros yn reddfol wrth wydrau'r siopau...y dynion yn tynnu allan oriawr :—"mewn hanner awr byddwn mewn rhyfel." Yna : "pum munud wedi pump. Ers pum munud yr ydym mewn rhyfel." Gwelaf y dynion ieuainc yr oeddwn yn darllen ysgrifau...llyfrau...nofelau, ganddynt ddoe, echdoe ... ac a ddarllenaf yfory, drennydd ... Robert Brasillach, Thierry Maulnier, Georges Blond, P. A. Cousteau, André Nicolas...ac eraill...eisoes ar y ffordd...gyda'r minteioedd a welais yn Llydaw ...oll tua'r ffosydd, a'r ffiniau...a'r..., gyda'r minteioedd *fydd* yn mynd...*sydd* yn mynd...o Gymru.

*Y mae Dawns Angau wedi hen gychwyn.*

BANGOR. *Bore Dydd Gwener, Medi 15, 1939.*

## SYLWER :

Ar dudalen 36, darllener DYDD GWENER,  
25 AWST yn lle DYDD SADWRN, 26 AWST.



*Cyhoeddwr :*  
Sackville Printing Works (Richard Thomas), Bangor.

